



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mawrth 23 Hydref 2001

Tuesday 23 October 2001

Cynnwys
Contents

- 3 Ethol Swyddogion i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol
Election of Officers to the Local Government Partnership Council
- 4 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
Questions to the First Minister
- 22 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 25 Datganiad Busnes
Business Statement
- 27 Pwynt o Drefn
Point of Order
- 28 Cymeradwyo Rheoliadau Hadau (Rhestr Amrywogaethau Genedlaethol) 2001
Approval of Seeds (National List of Varieties) Regulations 2001
- 39 Newid Aelodaeth y Cyngor Partneriaeth Busnes
Amendment of the Membership of the Business Partnership Council
- 42 Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Y Sefyllfa Ryngwladol Bresennol
Minority Party Debate (Plaid Cymru): The Current International Situation
- 71 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion
- 72 Strategaeth Wastraff Cymru
Waste Wales Strategy

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Ethol Swyddogion i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol Election of Officers to the Local Government Partnership Council

Y Llywydd: Yn absenoldeb y Trefnydd, galwaf ar Rosemary Butler i gynnig y cynnig.

The Presiding Officer: In the absence of the Minister for Assembly Business, I call on Rosemary Butler to propose the motion.

Rosemary Butler: I propose that

Rosemary Butler: Cynigiaf fod

the National Assembly, in accordance with paragraphs 1(1) and 4 of schedule 11 to the Government of Wales Act 1998, appoints the following persons to be members of the Partnership Council:

y Cynulliad, yn unol â pharagraffau 1(1) a 4 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r canlynol i fod yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth:

Sian Wilkinson (Wrexham County Borough Council) in place of Mike Hedges (City and County of Swansea), John Hopkins (Blaenau Gwent County Borough Council) in place of Brian Smith (Torfaen County Borough Council) and Colin Mann (Caerphilly County Borough Council) in place of Lindsay Whittle (Caerphilly County Borough Council). (NDM792)

Sian Wilkinson (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn lle Mike Hedges (Dinas a Sir Abertawe), John Hopkins (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent) yn lle Brian Smith (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) a Colin Mann (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) yn lle Lindsay Whittle (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili). (NDM792)

*Cynnig: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 36, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Essex, Sue
Evans, Delyth
Gibbons, Brian
Graham, William
Griffiths, John
Hancock, Brian
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan

Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Richards, Rod
 Rogers, Peter
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister

Cydlynu Polisi yn y Gogledd Co-ordination of Policy in North Wales

Q1 Ann Jones: Will the First Minister make a statement about the progress that he has made over recent months in enhancing the co-ordination of policy in north Wales? (OAQ12912)

The First Minister: In my role as policy co-ordinator for north Wales, I am pleased to say that companies in north Wales have received a total of £5.4 million in regional selective assistance since July. North Wales will also benefit from other projects, such as the extension of broadband communications, which is in the ownership of the Assembly, and the cables for which are buried in the A55. It is now available to companies in the area. North Wales will also benefit from the extended running period of the north-south rail service. I hope to discuss these and other matters at the next meeting of the North Wales Regional Committee at Llanrhaeadr-ym-Mochnant on Friday.

Ann Jones: You will be aware that the North Wales Regional Committee and the Trades Union Congress will call, this weekend, for an enhanced partnership between the unions, the Assembly, the Welsh Development Agency and Education and Learning Wales to promote further investment in jobs for north Wales. Do you agree that, given the current international economic uncertainty, in order to continue to progress towards our goal of full employment in north Wales—and

C1 Ann Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei lwyddiant yn ystod y misoedd diweddar i wella'r ffordd y cydlynir polisi yn y Gogledd? (OAQ12912)

Prif Weinidog Cymru: Yn fy rôl fel cydlynnydd polisi gogledd Cymru, mae'n bleser gennyf nodi bod cwmnïau yn y Gogledd wedi derbyn cyfanswm o £5.4 miliwn o gymorth rhanbarthol dewisol ers Gorffennaf. Bydd gogledd Cymru yn elwa ar brosiectau eraill hefyd, megis y gwaith o ehangu cysylltiadau band llydan, y mae'r Cynulliad yn berchen arno, ac y mae'r ceblau ar ei gyfer wedi'u claddu o dan yr A55. Mae bellach ar gael i gwmnïau yn yr ardal. Bydd gogledd Cymru hefyd yn elwa ar y cyfnod estynedig ar gyfer y gwasanaeth rheilffyrdd rhwng y Gogledd a'r De. Gobeithiaf drafod y materion hyn a materion eraill yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant ddydd Gwener.

Ann Jones: Byddwch yn ymwybodol y bydd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd a Chyngres yr Undebau Llafur yn galw, dros y penwythnos, am bartneriaeth well rhwng yr undebau, y Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru a Dysgu ac Addysgu Cymru i hyrwyddo buddsoddi pellach mewn swyddi yng ngogledd Cymru. A gytunwch, o ystyried yr ansicrwydd economaidd rhyngwladol presennol, er mwyn parhau i symud tuag at ein nod o gyflogaeth lawn yn y Gogledd—ac

I add that unemployment in the Vale of Clwyd continues to fall—

The Presiding Officer: Order. I would be grateful if you did not add anything to your supplementary question.

Ann Jones: We must ensure that we work together, using the expertise of the Members and the trade unions to create prosperity and opportunities across north Wales.

The First Minister: There must be a balance between business start-ups and closures at a difficult time like this. Corning Optical Fibres has announced that it will close its plant in Deeside. That creates a difficult situation. I am meeting the management and unions at the plant to discuss that. However, I also note that 120 additional jobs will be created at St Asaph business park. The park is in a crucial location, as excellent communications provide easy access to the surrounding areas of north Wales. The WDA Objective 1 investment at St Asaph business park will create those jobs, which will be located in the nine additional business units that have been constructed in the park.

Gareth Jones: Wrth i chi gydlynu polisi yn y Gogledd, pa ystyriaeth y byddwch yn ei rhoi i rôl Comisiynydd Plant Cymru, sy'n sefydlu swyddfa ym Mae Colwyn? Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi atgoffa'r awdurdod lleol y gall, os dymuna, ddiystyru datganiad diweddar o bryder y comisiynydd plant ynghylch iechyd a diogelwch plant mewn ysgolion a adeiladwyd ar safleoedd heintiedig.

Prif Weinidog Cymru: Mae'n bwysig deall y disgwyliadau a'r sefyllfa gyfreithiol ynglŷn â phwerau'r comisiynydd plant. Llais ar ran plant yw'r comisiynydd, nid rhyw fath o farnwr sy'n uwch nag awdurdodau lleol ac yn gallu dymchwel penderfyniadau cyfreithlon a gweddus. Yr ydym wedi dweud wrth yr awdurdodau lleol, ynglŷn â'r drafodaeth ar ddewis lleoliad yr ysgolion newydd yng Nghonwy a Chasnewydd, i barchu swydd newydd y comisiynydd plant ac ailystyried y penderfyniadau a'r ffordd y'u gwnaethpwyd. Fodd bynnag, ni all y comisiynydd plant

ychwanegaf fod diweithdra yn Nyffryn Clwyd yn parhau i ostwng—

Y Llywydd: Trefn. Byddwn yn ddiolchgar pe na byddech yn ychwanegu dim at eich cwestiwn atodol.

Ann Jones: Rhaid inni sicrhau ein bod yn cydweithio, gan ddefnyddio arbenigedd yr Aelodau a'r undebau llafur i greu ffyniant a chyfleoedd ledled y Gogledd.

Prif Weinidog Cymru: Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng nifer y busnesau newydd a nifer y busnesau sy'n cau ar adeg anodd fel hyn. Mae Corning Optical Fibres wedi cyhoeddi y bydd yn cau ei waith yng Nglannau Dyfrdwy. Mae hynny'n creu sefyllfa anodd. Yr wyf yn cyfarfod â'r rheolwyr a'r undebau yn y gwaith i drafod hynny. Fodd bynnag, nodaf hefyd y caiff 120 o swyddi ychwanegol eu creu ym mharc busnes Llanelwy. Mae'r parc mewn lleoliad hollbwysig, gan fod cysylltiadau ardderchog yn rhoi mynediad hawdd i ardaloedd cyffiniol y Gogledd. Bydd buddsoddiad Amcan 1 y WDA ym mharc busnes Llanelwy yn creu'r swyddi hynny, a gânt eu lleoli yn y naw uned fusnes ychwanegol a adeiladwyd yn y parc.

Gareth Jones: As you co-ordinate policy in north Wales, what consideration will you give to the role of the Children's Commissioner for Wales, who is setting up an office in Colwyn Bay? The Minister for Health and Social Services has reminded the local authority that it can, if it wishes, disregard the children's commissioner's recent statement of concern regarding the health and safety of children in schools built on contaminated sites.

The First Minister: It is important to understand the expectations and the legal position with regard to the powers of the children's commissioner. The commissioner is a voice for children, not some kind of judge who is superior to local authorities and can overturn legitimate and proper decisions. We have told the local authorities, with regard to the discussions on choosing the locations of the new schools in Conway and Newport, to respect the new post of children's commissioner and to reconsider the decisions and how they were made.

orchymyn awdurdodau lleol i beidio â gweithredu penderfyniadau sydd yn weddus. However, the children's commissioner cannot order local authorities not to enact legitimate decisions.

Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu The European Commission's White Paper on Governance

Q2 Phil Williams: What representations has the First Minister made to the UK Minister for Europe in relation to the European Commission's White Paper on governance? (OAQ12946)

The First Minister: I have made no representation as yet because consultation on the White Paper is open until the end of March 2002. As you and I are both members of the Committee on European Affairs, you will recall that the Committee considered this issue last week. There must be a wide discussion on the White Paper, both in the Assembly and throughout Wales, during the coming six months.

Phil Williams: The White Paper emphasises the need for stronger interaction with regional government and for multi-level partnership. Is not the Joint Ministerial Committee the appropriate body to make a response, so that the opinions of Wales, Scotland and, hopefully, Northern Ireland, could be incorporated alongside the UK Government's opinions directly and from the beginning? Will you press for this to be considered at the next meeting of the JMC?

The First Minister: I am happy to do so, although I am not certain whether it will be at the next meeting. That is how I envisage this progressing. It is important to keep separate any reference to constitutional changes. That will be done later and should lead to an inter-governmental conference early in 2004. We can try to involve the citizenry in Europe-related decisions now and reduce the sense of distance between the ordinary people of Europe and the institutions at the head of Europe. Romano Prodi's White Paper on governance tries to achieve that process without any constitutional changes. There is a major function for the regional tier of government, into which we would fit, in that process.

C2 Phil Williams: Pa sylwadau a gyflwynwyd gan y Prif Weinidog i Weinidog Ewrop y DU mewn perthynas â Phapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar lywodraethu? (OAQ12946)

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf wedi gwneud unrhyw sylwadau hyd yma gan fod y cyfnod ymgynghori ar y Papur Gwyn yn parhau tan ddiwedd Mawrth 2002. Gan eich bod chi a minnau yn aelodau o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd, byddwch yn cofio i'r Pwyllgor ystyried y mater hwn yr wythnos diwethaf. Rhaid cael trafodaeth eang ar y Papur Gwyn, yn y Cynulliad a ledled Cymru, yn ystod y chwe mis nesaf.

Phil Williams: Mae'r Papur Gwyn yn pwysleisio'r angen am ryngweithio gwell gyda llywodraeth ranbarthol ac am bartneriaeth aml-lefel. Onid Cydbwyllgor y Gweinidogion yw'r corff priodol i ymateb, fel y gellid ymgorffori barn Cymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, gobeithio, â barn Llywodraeth y DU yn uniongyrchol ac o'r cychwyn cyntaf? A fyddwch yn pwysu ar Gydbwyllgor y Gweinidogion i ystyried hyn yn ei gyfarfod nesaf?

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn fodlon gwneud hynny, er nad wyf yn siŵr a wnaif hynny yn y cyfarfod nesaf. Dyna sut y rhagwelaf y bydd hyn yn datblygu. Mae'n bwysig cadw unrhyw gyfeiriadau at newidiadau cyfansoddiadol ar wahân. Caiff hynny ei wneud yn ddiweddarach a dylai arwain at gynhadledd rhynglywodraethol yn gynnar yn 2004. Gallwn geisio cynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag Ewrop yn awr gan leihau'r ymdeimlad o bellter rhwng pobl gyffredin Ewrop a'r sefydliadau sy'n rheoli Ewrop. Mae Papur Gwyn Romano Prodi ar lywodraethu yn ceisio cyflawni'r broses honno heb unrhyw newidiadau cyfansoddiadol. Bydd gan haen ranbarthol llywodraeth, y byddem yn perthyn iddo, swyddogaeth bwysig yn y broses honno.

David Melding: It was the Treaty of Nice that urged greater public involvement in the discussion on Europe's future governance. Could we not help by, at last, launching a debate and study on the likely consequences of the single currency for Wales?

The First Minister: I would have no objection to that if it could be scheduled in the business. It is fascinating to tour the Royal Mint at Llantrisant and see euros being minted there—though not, of course, for circulation in Britain. That is export trade for the employees at Llantrisant—making Irish euros, blanks for French euros and so on. It is fascinating to see that. The euro coins and notes must be ready for 1 January, when they will become sole tender. Obviously, that does not concern Britain. However, it concerns 11 of the 15 member states. There will undoubtedly be a major impact on Britain once the currency is fully established and people become used to seeing the coins and notes and having them in their pockets, wallets or handbags when they travel abroad. People will not change the currency back in case they visit another member country where the euro is legal tender. The palaver of going back and forth to Thomas Cook or other bureaux de change will then cease.

Rod Richards: I am fascinated that the First Minister should compliment the Royal Mint on producing euros. Can he explain why, therefore, the Royal Mint is operating at a loss?

The First Minister: I find it difficult to do anything other than compliment the Royal Mint for winning export orders. Some countries in Europe have no mint of their own. I believe that that is the case in the Irish Republic, it being a small country. It relies on the Royal Mint, which is situated 10 miles from here. Other countries, such as France, have mints but, cannot produce enough euro coins because the demand is so great. The more work that is created for the Royal Mint in Llanstrisant, the better. I hardly think that even you, Rod, would want to descent from

David Melding: Cytundeb Nice a anogodd y cyhoedd i gymryd mwy o ran yn y trafodaethau ar y broses o lywodraethu Ewrop yn y dyfodol. Oni allem helpu hynny drwy gychwyn, o'r diwedd, ddadl ac astudiaeth ar ganlyniadau tebygol cyflwyno'r arian sengl i Gymru?

Prif Weinidog Cymru: Ni fyddwn yn gwrthwynebu hynny pe gellid ei amserlennu yn y busnes. Mae'n ddiddorol iawn mynd ar daith o gwmpas y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant i weld yr ewros yn cael eu bathu yno—er nad ydynt i'w dosbarthu ym Mhrydain, wrth gwrs. Mae hynny'n fasnach allforio ar gyfer cyflogeion Llantrisant—bathu ewros Gwyddelig, arian gwag ar gyfer ewros Ffrengig ac ati. Mae'n ddiddorol iawn gweld hynny. Rhaid i ddarnau arian ac arian papur ewro fod yn barod ar gyfer 1 Ionawr, pan ddônt yn unig arian cyfreithlon. Nid yw hynny'n berthnasol i Brydain, yn amlwg. Fodd bynnag, mae'n berthnasol i 11 o'r 15 aelod-wladwriaeth. Yn ddiamau, bydd effaith fawr ar Brydain pan fydd yr ewro wedi'i sefydlu'n llawn a phan fydd pobl yn gyfarwydd â gweld y darnau arian a'r arian papur a'u cael yn eu pocedi, eu waledi neu eu bagiau llaw pan fyddant yn teithio dramor. Ni fydd pobl yn cyfnewid yr arian yn ôl rhag ofn iddynt ymweld â gwlad arall lle mae'r ewro yn arian cyfreithlon. Bydd y drafferth o fynd yn ôl ac ymlaen i Thomas Cook neu bureaux de change eraill yn dod i ben wedyn.

Rod Richards: Mae'n ddiddorol iawn bod Prif Weinidog Cymru yn canmol y Bathdy Brenhinol am fathu ewros. A all egluro pam, felly, bod y Bathdy Brenhinol yn gweithredu ar golled?

Prif Weinidog Cymru: Mae'n anodd gwneud unrhyw beth arall heblaw canmol y Bathdy Brenhinol am ennill archebion allforio. Nid oes gan rai gwledydd yn Ewrop fathdy eu hunain. Credaf fod hynny'n wir yng Ngweriniaeth Iwerddon, gan ei bod yn wlad fach. Mae'n dibynnu ar y Bathdy Brenhinol, sydd 10 milltir oddi yma. Mae bathdai mewn gwledydd eraill, megis Ffrainc, ond ni allant fathu digon o ddarnau ewro gan fod cymaint o alw amdanynt. Gorau po fwyaf o waith a grëir ar gyfer y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. Ni allaf gredu y

that.

byddech chi, Rod, hyd yn oed, am anghytuno â'r hynny.

2.10 p.m.

Prif Amcanion 'Cynllun i Gymru 2001'
Main Objectives of 'Plan for Wales 2001'

C3 Dafydd Wigley: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y prif amcanion sydd wedi'u hamlinellu yn nhrydedd dogfen strategol y Cynulliad, 'Cynllun i Gymru 2001'? (OAQ12947)

Q3 Dafydd Wigley: Will the First Minister make a statement on the main objectives outlined in the Assembly's third strategic document, 'Plan for Wales 2001'? (OAQ12947)

Cytunaf yn llwyr â sylwadau diwethaf y Prif Weinidog.

I totally agree with the First Minister's last comments.

Prif Weinidog Cymru: Mae'r Llywodraeth bartneriaeth wedi ymrwmo i gryfhau ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol a chreu Cymru fodern a chynaliadwy. Er mwyn cyflawni hynny, credwn y bydd angen i ni gydweithio dros Gymru a sicrhau bod ein polisiau ni'n cyd-dynnu. Bydd 'Cynllun i Gymru 2001' yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes ac yn pennu agenda radical ar gyfer gweddill y tymor Cynulliad hwn. Byddaf yn gwneud datganiad manwl ar 'Cynllun i Gymru 2001' yn y Cyfarfod Llawn ddydd Iau.

The First Minister: The partnership Government is committed to strengthening our key public services and creating a modern and sustainable Wales. We believe that, in order to deliver that, we will need to work together for Wales and ensure that our policies are well orchestrated. 'Plan for Wales 2001' will build on what has already been achieved and will set out a radical agenda for the remainder of this Assembly term. I will make a detailed statement on 'Plan for Wales 2001' in Plenary on Thursday.

Dafydd Wigley: Efallai y cawn ateb ddydd Iau i'r cwestiwn yr wyf am ei ofyn yn awr. Ceir rhestrau o dargeddi ar gyfer 2003-04 a 2010 yn y ddogfen ond mae'r targed ar gyfer cynnyrch mewnwladol crynswth y pen ar gyfer Cymru ar goll. Yr ydym wedi gweithio tuag at y ffigur hwn yn y gorffennol yn ein targedau ar gyfer tyfiant economaidd. Pam na cheir ffigur yn y ddogfen hon? Ai'r rheswm dros hynny yw fod y ffigurau blaenorol yn anghredadwy?

Dafydd Wigley: Perhaps on Thursday we will get an answer to the question that I will ask now. There are lists of targets for 2003-04 and for 2010 in the document, but the target for gross domestic product per capita for Wales is missing. We have been working towards this figure in the past in our targets for economic growth. Why is there not a figure in the document? Is it because the previous figures are implausible?

Prif Weinidog Cymru: Na, dim o gwbl. Mae hynny'n fater i'w gynnwys yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Byddwn yn cyhoeddi'r fersiwn ddrafft ddiweddaraf o'r strategaeth honno yn wythnos hon.

The First Minister: No, not at all. That is a matter to be included in the national economic development strategy. We will publish the latest draft version of that strategy this week.

Alun Pugh: Economic development is a key feature of this document. Yesterday I took part in a turf cutting ceremony for an Objective 1 project in Ruthin, and the previous week in Abergele. Do you agree that

Alun Pugh: Mae datblygu economaidd yn elfen allweddol o'r ddogfen hon. Cymerais ran mewn seremoni i dorri'r dywarchen gyntaf ar gyfer prosiect Amcan 1 yn Rhuthun ddoe, ac mewn seremoni debyg yn Abergele

Objective 1 is a success throughout Wales?

yr wythnos diwethaf. A gytunwch fod Amcan 1 yn llwyddiant ledled Cymru?

The First Minister: When deciding how quickly we should get Objective 1 off the ground, we had to balance two things: getting the strategy right and agreed before releasing any money, and ensuring that we spent the money at a fair rate of knots. We ensured that people understood what Objective 1 was about by providing practical examples. When they saw what it was already doing for a community in the next valley or county, they saw what it could do for them. The trickiest aspect of any programme that will run for a minimum of six, seven or probably 10 years—the tail-end expenditure for Objective 1 will run on until 2010—is achieving a balance between not departing from the strategic objectives and spending the money sufficiently quickly. We have got the balance right.

Prif Weinidog Cymru: Pan oeddem yn penderfynu pa mor gyflym y dylem gyflwyno Amcan 1, yr oedd yn rhaid inni sicrhau cydbwysedd rhwng dau beth: sicrhau ein bod wedi cytuno ar strategaeth briodol cyn rhyddhau unrhyw arian a sicrhau ein bod yn gwario'r arian yn ddigon cyflym. Gwnaethom yn siŵr fod pobl yn deall Amcan 1 drwy roi enghreifftiau ymarferol. Pan welsant yr hyn yr oedd eisoes yn ei wneud i gymuned yn y cwm neu'r sir gyfagos, gwelsant yr hyn y gallai ei wneud iddynt hwy. Yr agwedd anoddaf ar unrhyw raglen a fydd yn parhau am isafswm o chwech, saith neu 10 mlynedd yn ôl pob tebyg—bydd gwariant cam olaf Amcan 1 yn parhau tan 2010—yw sicrhau cydbwysedd rhwng peidio â gwario oddi wrth yr amcanion strategol a gwario'r arian yn ddigon cyflym. Yr ydym wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir.

Glyn Davies: Your first statement in 'Plan for Wales 2001' sets out your approach to getting things done. I agree that not getting things done and not being clear about objectives is deeply damaging to the Assembly. However, nothing has been more damaging than your indecision on the new building. What do you believe should happen to this project during the period covered by this plan? The people of Wales want to know your opinion—

Glyn Davies: Mae eich datganiad cyntaf yn 'Cynllun i Gymru 2001' yn nodi eich ymagwedd tuag at gyflawni pethau. Cytunaf fod peidio â chyflawni pethau a pheidio â chael amcanion clir yn andwyol iawn i'r Cynulliad. Fodd bynnag, ni fu dim mor andwyol â'r ffaith eich bod wedi methu â gwneud penderfyniad ar yr adeilad newydd. Beth ddylai ddigwydd i'r prosiect hwn yn eich barn chi yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn? Mae pobl Cymru am wybod eich barn—

The Presiding Officer: Order. Your question is not relevant to the future of Wales.

Y Llywydd: Trefn. Nid yw eich cwestiwn yn berthnasol i ddyfodol Cymru.

Canlyniad y Broses Ymgynghori ar 'Cynllun ar gyfer Cymru 2001' Outcome of the Consultation Process for 'Plan for Wales 2001'

Q4 Jonathan Morgan: Will the First Minister make a statement on the outcome of the consultation process for the policy document, 'Plan for Wales 2001'? (OAQ12913)

C4 Jonathan Morgan: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ganlyniad y broses ymgynghori ar y ddogfen bolisi, 'Cynllun ar gyfer Cymru 2001'? (OAQ12913)

The First Minister: From the beginning, the consultation on the plan has made innovative use of information technology and has demonstrated our commitment to open and participative government. The website has received nearly 9,000 hits since it was

Prif Weinidog Cymru: O'r cychwyn cyntaf, defnyddiwyd technoleg gwybodaeth mewn ffordd arloesol yn y broses ymgynghori ar y cynllun gan ddangos ein hymrwymiad i lywodraeth agored y gall pobl gymryd rhan ynddi. Denodd y wefan bron 9,000 o

launched. I will make a statement on 'Plan for Wales 2001' on Thursday. However, I understand that 77 responses have been received on the latest version so far and responses continue to flow in.

Jonathan Morgan: Given the Assembly Government's failure to fully implement even the initial recommendations of the Education and Lifelong Learning Committee's report on information technology, what plans do you have to remove barriers to learning and exploit the scope for improved learning through information and communications technology? The administration has failed to deliver the basics that were anticipated by the Committee during its ICT review.

The First Minister: I am aware of the disputes between schools, local authorities and other experts in Wales on the implementation of ICT in schools and the need for broadband back-up. Andrew Davies and I will make an announcement on a broadband initiative later this week.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Yn y cynllun mae rhestr o gynlluniau ar gyfer datblygu economaidd. A oes modd i chi wireddu'r amcanion hynny pan yr ydych yn gwneud dwy swydd? Yr wythnos diwethaf bu ichi gyhuddo'r wrthblaid o geisio gwneud pwyntiau gwleidyddol ar hyn. A ydych wedi gwrandao ar sylwadau Alex Carlisle yn ystod yr wythnos diwethaf? Rhoddodd gyngor i chi y dylech benodi Democrat Rhyddfrydol arall i'r Cabinet. A wnewch chi dderbyn ei gyngor?

Prif Weinidog Cymru: Na, ni glywais ei gyngor.

Ieuan Wyn Jones: Rhodri, mae'n bwysig eich bod yn gwylio rhai o'r rhaglenni teledu hyn er mwyn ichi glywed cyngor eich partneriaid yn y glymblaid.

Os na fyddwch yn fodlon gwrandao ar gyngor Alex Carlisle, a wnewch wrando ar gyngor Tom Middlehurst, o'ch plaid eich hun? Dywedodd Tom Middlehurst os na fydd gweinidog datblygu economaidd yn cael ei

ymwelwyr ers ei lansio. Gwnaf ddatganiad ar 'Cynllun i Gymru 2001' ddydd Iau. Fodd bynnag, deallaf fod 77 o ymatebion wedi'u derbyn hyd yma ar y fersiwn diweddaraf ac mae'r ymatebion yn parhau i lifo i mewn.

Jonathan Morgan: O ystyried bod Llywodraeth y Cynulliad wedi methu â gweithredu hyd yn oed argymhellion cychwynnol adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar dechnoleg gwybodaeth yn llawn, pa gynlluniau sydd gennych i gael gwared ar y rhwystrau i ddysgu ac i ddefnyddio'r posibiladau i ddysgu'n well drwy dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu? Nid yw'r weinyddiaeth wedi cyflwyno'r argymhellion sylfaenol a ragwelwyd gan y Pwyllgor yn ystod ei adolygiad o TGCh.

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn ymwybodol o'r anghydfodau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol ac arbenigwyr eraill yng Nghymru o ran gweithredu TGCh mewn ysgolion a'r angen am dechnoleg band llydan i gefnogi hynny. Bydd Andrew Davies a minnau yn gwneud cyhoeddiad ar fenter band llydan yn ddiweddarach yr wythnos hon.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): In the plan there is a list of schemes for economic development. Can you fulfil those aims when you are doing two jobs? Last week you accused the opposition of trying to score political points on this. Have you listened to Alex Carlisle's comments during the last week? He advised you that you should appoint another Liberal Democrat to the Cabinet. Will you accept his advice?

The First Minister: No, I did not hear his advice.

Ieuan Wyn Jones: Rhodri, it is important that you watch some of these television programmes so that you may hear the advice of your coalition partners.

If you are not willing to listen to Alex Carlisle's advice, will you listen to that of Tom Middlehurst, from your own party? Tom Middlehurst said that if an economic development minister is not appointed, the

benodi, fe fydd y Llywodraeth mewn trafferth. A wnewch chi wrando ar Tom Middlehurst?

Government will find itself in difficulties. Will you listen to Tom Middlehurst?

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf wedi clywed y sylwadau y mae Ieuan Wyn Jones yn cyfeirio atynt. Mae gennyf bethau llawer gwell i'w gwneud na gwranddo ar y rhaglenni y mae Ieuan yn cyfeirio atynt. Mae'n amlwg bod y rhaglenni hyn yn dod â llawer o gysur i Arweinydd yr Wrthblaid, ond nid ydynt o ddiddordeb i'r cyhoedd.

The First Minister: I have not heard the comments to which Ieuan Wyn Jones refers. I have much better things to do than to listen to the programmes to which Ieuan refers. It is obvious that these programmes bring much comfort to the Leader of the Opposition, but they are of no interest to the public.

Effaith Cyflwyno Trethi Busnes Atodol **Effect of the Introduction of Supplementary Business Rates**

Q5 Alun Cairns: What effect will the introduction of supplementary business rates have on the Assembly's partnership with business? (OAQ12942)

C5 Alun Cairns: I ba raddau y bydd cyflwyno trethi busnes atodol yn effeithio ar y bartneriaeth rhwng y Cynulliad a busnes? (OAQ12942)

The First Minister: The Business Partnership Council was set up to facilitate an exchange of views between business and the Assembly on a wide range of issues. The issue of supplementary business rates was raised at its last meeting on 29 June: I think that both you and I were present. The Finance Minister subsequently wrote to Members to advise on the current position. We intend to consult fully with business when there are firm proposals. You could say either that the business world is implacably opposed to supplementary business rates, or that it has not yet been persuaded of the case for them: either of those might describe the situation at present.

Prif Weinidog Cymru: Sefydlwyd y Cyngor Partneriaeth Busnes i hwyluso'r broses o gyfnewid barn rhwng busnes a'r Cynulliad ar amrywiaeth eang o faterion. Codwyd y mater o drethi busnes atodol yn ei gyfarfod diwethaf ar 29 Mehefin: credaf eich bod chi a minnau yn bresennol. Ar ôl y cyfarfod, ysgrifennodd y Gweinidog dros Gyllid at yr Aelodau i'w hysbysu am y sefyllfa bresennol. Bwriadwn ymgynghori â busnesau yn llawn pan geir cynigion pendant. Gallech ddweud bod y byd busnes yn gwrthwynebu trethi busnes atodol yn llwyr, neu nad yw wedi'i argyhoeddi hyd yma o'r rheswm dros eu cael: gallai'r naill reswm neu'r llall ddisgrifio'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Alun Cairns: Now that the First Minister finally accepts that manufacturing industry is in recession, does he think that a new tax will help?

Alun Cairns: Gan fod y Prif Weinidog yn derbyn o'r diwedd bod dirwasgiad yn y diwydiant gweithgynhyrchu, a yw o'r farn y bydd treth newydd yn helpu'r sefyllfa?

The First Minister: I have not finally accepted anything. I had to correct you last week, because you obviously do not understand the difference between a sector of the economy being in recession and the economy being in recession. Manufacturing is 28 per cent of the total economy, and it was in recession when I spoke last Tuesday and it is in recession today. The economy as a whole was not in recession last Tuesday, and it is not in recession today. As a member of the Economic Development Committee, I

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf wedi derbyn unrhyw beth o'r diwedd. Yr oedd yn rhaid imi eich cywiro yr wythnos diwethaf, gan ei bod yn amlwg nad ydych yn deall y gwahaniaeth rhwng dirwasgiad mewn sector o'r economi a dirwasgiad yn yr economi. Mae'r diwydiant gweithgynhyrchu yn cynrychioli 28 y cant o'r economi gyfan, ac yr oedd dirwasgiad yn y sector hwnnw pan siaradais ddydd Mawrth diwethaf ac mae dirwasgiad yn y sector hwnnw heddiw. Nid oedd dirwasgiad yn yr economi gyfan ddydd

hope that you now understand that.

Peter Black: Do you agree that the review of local government finance offers an opportunity for helping business through introducing local operating aids, and that we should consider all options to try to encourage businesses around Wales?

The First Minister: Yes. Operating aids and the definition of operating aids that are permissible under the extremely tight control of the so-called competitive level playing field are maintained by the Directorate General IV of the European Commission, which is responsible for competition policy. It is not keen on variation in taxation, which appears to interfere with competition and the level playing field. However, we are still searching—jointly with Her Majesty's Treasury—for a means of introducing operating aids, which will stimulate small and medium-sized enterprises, especially in those areas of Wales that particularly need it.

Brian Hancock: At last week's Economic Development Committee we learned from a report from Brussels that operating aids were dead in the water. Will you therefore support a complete review of business rates so that local revenue derived from business rates is based on profitability?

Dafydd Wigley: Hear, hear.

The First Minister: I think that you will agree with me—in spite of hearing Dafydd Wigley's support for you—that what was said at that meeting was that not all operating aids are excluded by Brussels. We must find out in which areas we can work, where there is a degree of acceptance in Brussels that they could be worth pursuing, whether in pilot form or in restricted areas such as Objective 1 Wales. The up-to-date position is that we have not given up on operating aids. I think that that is a fair description of last week's discussion.

Mawrth diwethaf, ac nid oes dirwasgiad yn yr economi gyfan heddiw. Fel aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, gobeithiaf eich bod yn deall hynny erbyn hyn.

Peter Black: A gytunwch fod yr adolygiad o gyllid llywodraeth leol yn rhoi cyfle i helpu busnesau drwy gyflwyno cymhorthion gweithredu lleol, ac y dylem ystyried pob opsiwn i geisio annog busnesau ledled Cymru?

Prif Weinidog Cymru: Cytunaf. Cynhelir cymhorthion gweithredu a'r diffiniad o gymhorthion gweithredu a ganiateir o dan reolaeth dynn iawn yr hyn a elwir yn sefyllfa gystadlu deg gan Gyfarwyddiaeth Gyffredinol IV y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n gyfrifol am bolisi cystadleuaeth. Nid yw'n hoff o amrywiadau o ran trethi, sydd fel petaent yn tarfu ar gystadleuaeth a chwarae teg. Fodd bynnag, yr ydym yn parhau i chwilio—ar y cyd â Thrysorlys Ei Mawrhydi—am fodd o gyflwyno cymhorthion gweithredu, a fydd yn ysgogi mentrau bach a chanolig eu maint, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd eu hangen yn benodol.

Brian Hancock: Yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yr wythnos diwethaf, dysgasom drwy adroddiad o Frwsel fod cymhorthion gweithredu wedi dod i ddiwedd eu hoes. Felly, a gefnogwch adolygiad cyflawn o drethi busnes fel bod referniw lleol sy'n deilio o'r trethi busnes yn seiliedig ar broffidioldeb?

Dafydd Wigley: Clywch, clywch.

Prif Weinidog Cymru: Credaf y byddwch yn cytuno â mi—er ichi glywed cefnogaeth Dafydd Wigley i'ch sylwadau—mai'r hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod hwnnw oedd nad yw pob un o'r cymhorthion gweithredu yn cael eu heithrio gan Frwsel. Rhaid inni ddarganfod ym mha feysydd y gallwn weithio, lle mae Brwsel yn derbyn i ryw raddau y gallai fod yn werth mynd ar eu trywydd, boed ar ffurf prosiect peilot neu mewn ardaloedd cyfyngedig megis Cymru Amcan 1. Y sefyllfa ddiweddaraf yw nad ydym wedi cefnu ar gymhorthion gweithredu. Credaf fod hynny'n ddisgrifiad teg o'r drafodaeth a gafwyd yr wythnos diwethaf.

2.20 p.m.

The issue is whether business rates and their revenue can be used to stimulate the economy. We would like to be able to see whether there is potential in the purchasing decisions of local and other public authorities in Wales. Also, whether it is possible for us to use the revenues of the Assembly, local government, health authorities and the national health service generally to stimulate more small to medium-sized businesses. The United States of America has a reserve of 5 per cent for small businesses. That has been excluded in Europe on competition grounds, but it would be interesting to try to get such a reserve to stimulate small and medium-sized businesses.

Y mater dan sylw yw a ellir defnyddio trethi busnes a'r refeniw ohonynt i atgyfnerthu'r economi. Hoffem allu gweld a oes potensial o ran penderfyniadau prynu awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Yn ogystal, hoffem weld a yw'n bosibl inni ddefnyddio refeniw'r Cynulliad, llywodraeth leol, awdurdodau iechyd a'r gwasanaeth iechyd gwladol i ysgogi mwy o fusnesau bach a chanolig eu maint. Mae gan Unol Daleithiau'r America gronfa wrth gefn o 5 y cant ar gyfer busnesau bach. Cafodd hynny ei wahardd yn Ewrop ar sail cystadleuaeth, ond byddai'n ddi-ddorol ceisio cael cronfa wrth gefn o'r fath i ysgogi busnesau bach a chanolig eu maint.

Deddfwriaeth Ewropeaidd sy'n Effeithio ar Gymru European Legislation Affecting Wales

Q6 Janet Davies: Will the First Minister make a statement on how his Government reports its views on European legislation affecting Wales to the UK Government? (OAQ12921)

C6 Janet Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y ffordd y mae ei Lywodraeth yn cyflwyno'i barn ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n effeithio ar Gymru i Lywodraeth y DU? (OAQ12921)

The First Minister: We receive notification of impending European legislation from a variety of sources, some are official and others are from the Wales European Centre, our listening post in Brussels. My officials in the policy division responsible consult with colleagues and Ministers, as appropriate, in the lead Whitehall departments on any possible impact for Wales to see if we can head it off at the pass.

Prif Weinidog Cymru: Cawn rybudd o ddeddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig gan amrywiaeth o ffynonellau. Mae rhai ohonynt yn ffynonellau swyddogol ac eraill yn dod o Ganolfan Ewropeaidd Cymru, sef ein clust ym Mrwsel. Mae fy swyddogion yn yr is-adran polisi sy'n gyfrifol am hyn yn ymgynghori â chydweithwyr a Gweinidogion, fel y bo'n briodol, ym mhrif adrannau Whitehall ar unrhyw effaith bosibl i Gymru i weld a allwn atal problem rhag codi.

Janet Davies: As regards European legislation on workers' safety, will you lobby the UK Government to withdraw its proposals to remove safety screens for front-line benefit staff? I refer particularly to Bridgend, and its satellite offices in the region that I represent.

Janet Davies: O ran deddfwriaeth Ewropeaidd ar ddiogelwch gweithwyr, a wnewch chi lobïo Llywodraeth y DU i dynnu yn ôl ei chynigion i gael gwared ar sgriniau diogelwch ar gyfer staff budd-daliadau rheng flaen? Cyfeiriaf yn benodol at Ben-y-bont ar Ogwr a'r is-swyddfeydd yn yr ardal yr wyf yn ei chynrychioli.

The First Minister: I saw press comment on that, but did not realise that there was relevant European legislation, either pending or existing. Please write to me to clarify that matter, Janet. Benefits Agency staff must

Prif Weinidog Cymru: Gwelais sylwadau yn y wasg ar hynny, ond nid oeddwn yn sylweddoli bod deddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol, naill ai'n ddeddfwriaeth arfaethedig neu'n ddeddfwriaeth bresennol.

occasionally refuse benefits to vulnerable members of society, which sometimes leads to difficulty and, inevitably, threatening behaviour. It does not happen often, but it happens often enough for staff to need protection. If you write to me stating the relevant pending or existing European legislation, I will pursue the matter with the lead Minister who negotiates such matters in Europe.

John Griffiths: In the wake of the Corus job losses, my constituents are eager for the UK to adopt the European directive on information and consultation with minimum delay. Following last week's Committee on European Affairs meeting, when these issues were discussed, can you assure me that the Assembly will make its views known at the UK and EU level, as consideration of this directive proceeds?

The First Minister: I give you that assurance. You will recall our discussion on that point in the Committee on European Affairs meeting, at which a fair degree of unity was achieved. I do not think that Alun Cairns was present at that point and it would be interesting to know the Conservative Party's position on that. I would not like to claim cross-party unity at the Committee or in the Assembly when there was no Conservative representative present. Either you or I should ask Alun about his party's views on the issue, before I make the Assembly's views known.

William Graham: Can you assure us that you will make adequate and early representation on the UK Government's representation to the European Union, so that matters affecting Wales will be publicised? We could then all comment on them—you in particular. I refer particularly to the sheep-meat premium, which has now been accepted at a doubled rate thanks to Conservative support. I also refer to vibration damage and limiting tractor driving. We have no idea how that will be enforced, and it may be put off yet again. Such issues affect the people of Wales. When can you be certain that you

A fyddech cystal ag ysgrifennu ataf i egluro'r mater hwnnw, Janet? Rhaid i staff yr Asiantaeth Budd-daliadau wrthod rhoi budd-daliadau i aelodau diamddiffyn o'r gymdeithas ar adegau, sydd weithiau yn achosi anawsterau ac, yn anochel, ymddygiad bygythiol. Nid yw'n digwydd yn aml, ond mae'n digwydd yn ddigon aml i olygu bod angen diogelwch ar y staff. Os ysgrifennwch ataf gan nodi'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol arfaethedig neu bresennol, af ar drywydd y mater gyda'r Gweinidog arweiniol sy'n negodi materion o'r fath yn Ewrop.

John Griffiths: Yn sgîl y swyddi a gollwyd yn Corus, mae fy etholwyr yn awyddus i'r DU fabwysiadu'r gyfarwyddeb Ewropeaidd ar wybodaeth ac ymgynghori gyda'r oedi lleiaf posibl. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yr wythnos diwethaf, pan drafodwyd y materion hyn, a allwch roi sicrwydd imi y bydd y Cynulliad yn nodi ei farn ar lefel y DU a'r UE, wrth i'r gyfarwyddeb hon gael ei hystyried?

Prif Weinidog Cymru: Rhoddaf y sicrwydd hwnnw ichi. Fe gofiwch ein trafodaeth ar y pwynt hwnnw yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd, lle y cafwyd rhywfaint o undod. Ni chredaf fod Alun Cairns yn bresennol bryd hynny a byddai'n ddiddorol gwybod safbwynt y Blaid Geidwadol ar hynny. Ni hoffwn honni bod undod trawsbleidiol yn y Pwyllgor neu'r Cynulliad pan nad oedd neb yn bresennol i gynrychioli'r Blaid Geidwadol. Dylech chi neu minnau ofyn i Alun am farn ei blaid ar y mater, cyn imi gyhoeddi barn y Cynulliad.

William Graham: A allwch roi sicrwydd inni y byddwch yn gwneud sylwadau digonol a chynnar ar sylwadau Llywodraeth y DU i'r Undeb Ewropeaidd, fel y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r materion sy'n effeithio ar Gymru? Gallai pob un ohonom wneud sylw arnynt wedyn—yn enwedig chi. Cyfeiriaf yn benodol at y premiwm cig oen, a dderbyniwyd ar gyfradd ddwbl erbyn hyn oherwydd cefnogaeth y Ceidwadwyr. Cyfeiriaf hefyd at niwed yn sgîl dirgryniad a chyfyngu ar yrru tractorau. Nid oes syniad gennym sut y bwriedir gorfodi hynny, ac mae'n bosibl y caiff ei ohirio unwaith eto.

influence those events?

Mae materion o'r fath yn effeithio ar bobl Cymru. Pryd y gallwch fod yn siŵr eich bod yn dylanwadu ar y digwyddiadau hynny?

The First Minister: I mentioned earlier that we receive information about potentially controversial areas from a variety of sources. We sometimes hear from Whitehall departments, as they know of existing interests, and sometimes from the Wales European Centre. We place our civil servants at the centre to gain direct access to impending European legislation not yet set in concrete. We also hear from user groups. When Europe consults with user groups it means that tractor drivers, farmer unions and so on, can inform us that certain factors may have a disastrous effect on them. Welsh coal producers such as Tower Colliery, and also Aberthaw power station, drew the implications of the EC's directive on emissions for large-scale power stations to our attention. It is useful to receive this information from the coalface, either literally as in the case of Aberthaw, or metaphorically, as in some of the examples that you quoted. If you draw the EC directive on vibration damage and limiting tractor driving to my attention, I will be happy to deal with it.

Prif Weinidog Cymru: Crybwyllais yn gynharach ein bod yn cael gwybodaeth am feysydd a allai fod yn ddadleuol o amrywiaeth o ffynonellau. Clywn weithiau gan adrannau Whitehall, gan eu bod yn gwybod am ddiddordebau presennol, ac weithiau gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Â ein gweision sifil i'r ganolfan i gael mynediad uniongyrchol i ddeddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud yn ei chylch. Clywn hefyd gan grwpiau o ddefnyddwyr. Pan fydd Ewrop yn ymgynghori â grwpiau o ddefnyddwyr, golyga y gall gyrwyr tractorau, undebau ffermio ac ati roi gwybod inni y gall rhai ffactorau penodol gael effaith drychinebus arnynt. Tynnwyd goblygiadau cyfarwyddeb y GE ar ollyngiadau ar gyfer gorsafydd pŵer ar raddfa fawr at ein sylw gan gynhyrchwyr glo Cymru megis Glofa'r Tŵr a hefyd gan orsaf bŵer Aberddawan. Mae'n ddefnyddiol cael yr wybodaeth hon o'r ffas, naill ai'n llythrennol, fel yn achos Aberddawan, neu'n drosiadol, fel mewn rhai o'r enghreifftiau a ddyfynnwyd gennych. Os tynnwch gyfarwyddeb y GE ar niwed yn sgîl dirgryniad a chyfyngu ar yrru tractorau at fy sylw, byddaf yn fodlon delio â hi.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 7 (OAQ12915) yn ôl.

The Presiding Officer: Question 7 (OAQ12915) is withdrawn.

**Cynhadledd Rhanbarthau Arforol Ymylol Ewrop
Peripheral Maritime Regions of Europe**

Conference of

Q8 Christine Chapman: What discussions has the First Minister had with the Conference of Peripheral Maritime Regions of Europe, regarding our recent membership of this organisation? (OAQ12908)

C8 Christine Chapman: Pa drafodaethau a fu rhwng y Prif Weinidog a Chynhadledd Rhanbarthau Arforol Ymylol Ewrop ynghylch ein haelodaeth ddiweddar o'r corff hwn? (OAQ12908)

The First Minister: I was represented at official level at the annual conference of the Conference of Peripheral Maritime Regions of Europe in Oporto, Portugal, on 21 and 22 September. My representative gave a report to the Committee on European Affairs meeting on 17 October. I understand that the General Secretary of the CPMR, Xavier Gizard, will be visiting Cardiff in January. I hope that I will meet with him then and he

Prif Weinidog Cymru: Fe'm cynrychiolwyd yn swyddogol yng nghynhadledd flynyddol Cynhadledd Rhanbarthau Arforol Ymylol Ewrop yn Oporto, Portiwgal, ar 21 a 22 Medi. Cyflwynodd fy nghynrychiolydd adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar 17 Hydref. Deallaf y bydd Ysgrifennydd Cyffredinol y gynhadledd, Xavier Gizard, yn ymweld â Chaerdydd fis Ionawr. Gobeithiaf gwrdd ag ef bryd hynny

also wishes to meet the other members of the Committee on European Affairs.

Christine Chapman: Do you agree that our membership of this organisation is an important opportunity to strengthen our voice in Europe? We will not only learn from the experiences of other peripheral regions and build links, but it is also an opportunity for Wales to exert an influence and increase its profile in Europe.

The First Minister: The relevance of the CPMR to us will increase as the European Union enlarges to the east. It makes the peripheral regions of the west even more peripheral than they are now. The European Union's centre of gravity will move eastwards when Poland, Hungary and the other countries of the former Warsaw pact join it in three or four years' time. It means that the need of the western fringe—Ireland, Wales, Scotland and parts of Spain, Portugal and France and so on—for a collective voice will become ever more important. We have made a modest investment by joining the CPMR. However, it will pay off in the coming years as the union's centre of gravity moves east.

Rhodri Glyn Thomas: O gofio pwysigrwydd Cymru yn lloio Ewrop, pa gamau sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod llais Cymru i'w glywed drwy gyrff lobio eraill, megis Cynulliad Rhanbarthau Ewrop? Mae hyn yn bwysig i Gymru a Chaerdydd yng nghyd-destun y Papur Gwyn ar lywodraethu Ewrop a'r symudiadau tuag at ganolfannau ariannu rhanbarthol Ewropeaidd.

Prif Weinidog Cymru: Y mae'r Cynulliad yn aelod o rai o'r cyrff hynny yn rhinwedd y cyfansoddiad. Mae ein haelodaeth o Bwyllgor y Rhanbarthau yr Undeb Ewropeaidd yn awtomatig. Yr ydym yn cymryd rhan. Ailystyri'r aelodaeth y Cynulliad o'r pwyllgor ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru—oherwydd ei rhan yn y pwyllgor—tua diwedd y flwyddyn pan ddaw ei haelodaeth i ben.

O ran y cyrff eraill, y mae aelodaeth ohonynt

ac mae yntau yn awyddus i gwrdd â'r aelodau eraill o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd.

Christine Chapman: A gytunwch fod y ffaith ein bod yn aelod o'r sefydliad hwn yn gyfle pwysig i atgyfnerthu ein llais yn Ewrop? Byddwn nid yn unig yn dysgu o brofiadau'r ardaloedd ymylol eraill ac yn adeiladu cysylltiadau â hwy, ond mae hefyd yn gyfle i Gymru ddylanwadu ar Ewrop a chodi ei phroffil yn Ewrop.

Prif Weinidog Cymru: Bydd pa mor berthnasol yw'r gynhadledd inni yn cynyddu wrth i'r Undeb Ewropeaidd ehangu tua'r dwyrain. Mae'n golygu y bydd ardaloedd ymylol y gorllewin hyd yn oed yn fwy ymylol nag y maent ar hyn o bryd. Bydd canolbwynt yr Undeb Ewropeaidd yn symud tua'r dwyrain pan fydd Gwlad Pwyl, Hwngari a gwledydd eraill cyn gytundeb Warsaw yn ymuno â hi ymhen tair neu bedair blynedd. Golyga y bydd angen yr ymylon gorllewinol—Iwerddon, Cymru, yr Alban a rhannau o Sbaen, Portiwgal a Ffrainc ac ati—er mwyn sicrhau un llais yn bwysicach byth. Gwnaethom gryn fuddsoddiad wrth ymuno â'r gynhadledd. Fodd bynnag, bydd yn talu ar ei ganfed yn y blynyddoedd i ddod pan fydd canolbwynt yr undeb yn symud tua'r dwyrain.

Rhodri Glyn Thomas: In view of the importance of Wales lobbying in Europe, what steps have been taken to ensure that Wales's voice is heard through other lobbying organisations, such as the Assembly of European Regions? This is important to Wales and Cardiff in the context of the White Paper on the governance of Europe and the moves towards European regional financial centres.

The First Minister: The Assembly is a member of some of those organisations by dint of the constitution. Our membership of the European Union's Committee of the Regions is automatic. We are participating. The Assembly's membership of the committee will be jointly considered with the Welsh Local Government Association—because of its role on the committee—at the end of the year when its membership expires.

As regards our membership of other

yn wirfoddol, er enghraifft Cynhadledd Rhanbarthau Arforol Ymylol Ewrop. Mae gennym ddewis ynghylch faint ohonynt yr ydym am berthyn iddynt, faint o amser yr ydym am glustnodi ar eu cyfer a faint o werth am arian a gawn o'n tanysgrifiad.

organisations, membership is voluntary, for example the Conference on Peripheral Maritime Regions of Europe. We have a choice as to how many of them we wish to subscribe, how much time we wish to devote to them and whether our subscription represents value for money.

Ymweliadau â'r Gogledd Visits to North Wales

Q9 Alun Pugh: Will the First Minister give an update on any visits he has undertaken to north Wales during the recess period in his role as policy co-ordinator for north Wales? (OAQ12938)

C9 Alun Pugh: A wnaiff y Prif Weinidog roi hanes unrhyw ymweliadau â'r Gogledd yn ystod y toriad yn rhinwedd ei rôl fel cydlynnydd polisi ar gyfer y Gogledd? (OAQ12938)

The First Minister: I visited north Wales on two occasions during the recess and carried out 12 official engagements. I met the Institute of Directors; I opened an extension to Denbigh Community College; a new facility at Coleg Menai, Bangor and a new service by the mediation services in Rhyl. During my visit to the Eisteddfod in Denbigh, I was proud to launch MENCAP's information and support service, which will benefit from an Assembly grant of £180,000 over the next three years.

Prif Weinidog Cymru: Ymwelais â'r Gogledd ddwywaith yn ystod y toriad a chadw 12 ymrwymiad swyddogol. Cyfarfûm â Sefydliad y Cyfarwyddwyr; agorais estyniad yng Ngholeg Cymuned Dinbych; cyfleuster newydd yng Ngholeg Menai, Bangor a gwasanaeth newydd gan y gwasanaethau cyfryngu yn y Rhyl. Yn ystod fy ymweliad â'r Eisteddfod yn Ninbych, yr oedd yn bleser gennyf lansio gwasanaeth gwybodaeth a chymorth MENCAP, a fydd yn cael grant o £180,000 gan y Cynulliad dros y tair blynedd nesaf.

2.30 p.m.

Alun Pugh: You know that some of my constituents' homes in Ruthin were flooded again last weekend. Will you contact Denbighshire County Council to see whether further assistance in legal support or project management would be helpful in speeding up the building of Assembly-funded flood defences? The sooner the bulldozers move, the better.

Alun Pugh: Gwyddoch i gartrefi rhai o'm hetholwyr yn Rhuthun ddioddef llifogydd eto y penwythnos diwethaf. A wnewch chi gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i weld a fyddai cymorth pellach ar ffurf cymorth cyfreithiol neu gymorth i reoli prosiectau yn helpu i sicrhau y caiff yr amddiffynfeydd rhag y llifogydd a ariennir gan y Cynulliad eu hadeiladu'n gyflymach? Gorau po gyntaf y bydd y teirw dur yn dechrau ar y gwaith.

The First Minister: It was shattering for the residents of Ruthin, particularly those of Mwrog Street, to find their premises flooded for the third time this year. The work carried out so far was not proof against the volume of rainfall that hit the Ruthin area. The tributaries of the river burst through the culvert yet again. We must go back to the drawing board. I will consult with Sue Essex and you, as the local Member, to see what we can do to ensure that, next time, the work is

Prif Weinidog Cymru: Yr oedd yn ysgytwad i drigolion Rhuthun, yn enwedig trigolion Stryd Mwrog, ddioddef llifogydd am y trydydd tro eleni. Nid oedd y gwaith a wnaethpwyd hyd yma yn ddigon i wrthsefyll y glaw a gafwyd yn ardal Rhuthun. Torrodd yr isafonydd drwy'r geuffos unwaith eto. Rhaid inni ddechrau o'r newydd. Byddaf yn ymgynghori â Sue Essex a chithau, fel yr Aelod lleol, i weld beth y gallwn ei wneud i sicrhau bod y gwaith yn gwrthsefyll y

proof against the rainstorms that north Wales is experiencing.

Dafydd Wigley: Gan fod y Prif Weinidog yn gweithredu nid yn unig fel Prif Weinidog, ond fel Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a chydlynnydd polisi dros ogledd Cymru, a yw'n ymwybodol bod cynghorau unedol gogledd Cymru yn teimlo nad oes ganddo'r amser i ymweld â hwy? A wnaiff gadarnhau ei fod yn fodlon derbyn gwahoddiadau? Sylwais na restrodd yr un cyngor yn yr ateb a roddodd eiliad yn ôl. A wnaiff ymweld â chynghorau gogledd Cymru fel rhan o'i waith cydlynnydd?

Prif Weinidog Cymru: Nid yw hynny'n broblem. Yr wyf yn derbyn y gwahoddiadau a roddir imi. Os nad yw'r cynghorau, oherwydd eu toriad haf, yn fy ngwahodd, nid wyf yn gorfodi fy mhresenoldeb arnynt. Nid wyf yn meddwl fy mod wedi gwrthod gwahoddiad i gyfarfod gydag unrhyw un o gynghorau gogledd Cymru yn ystod yr haf.

Tom Middlehurst: Rhodri, I welcome your frequent visits to north Wales, in whatever capacity. I particularly welcome your decision to visit Flintshire County Council on Friday to discuss the consequences of the announcement by Corning with trade unions, the local authority and the company's management. Do you agree that we must do everything possible, this week and beyond, to secure a production facility to underpin the future of that unit?

The First Minister: I am grateful for your comments, because this is a serious matter. Apart from the closures at Corus, the closures at Corning is probably the biggest factory closure of the past year in Wales. Potentially, at least 525 jobs will be lost, after an initial indication that 175 redundancies—I think that that was the figure announced about a month ago—would be sufficient to enable the plant to survive the current downturn in the telecom manufacturing industry. Unfortunately, the company then changed its mind. However, at the meeting on Friday, we shall see whether we can do anything to persuade the company to change its mind again. I do not hold out great hope, but we must try everything in our powers and use all

stormydd glaw a geir yn y Gogledd pan ddiwyddant y tro nesaf.

Dafydd Wigley: As the First Minister is acting not only as First Minister, but as Minister for Economic Development and policy co-ordinator for north Wales, is he aware that north Wales's unitary councils feel that he does not have time to visit them? Will he confirm that he is willing to accept invitations? I noticed that he did not list any councils in the answer that he gave a moment ago. Will he visit the councils in north Wales as part of his work as co-ordinator?

The First Minister: That is not a problem. I accept invitations that are issued to me. If councils, because of their summer break, do not invite me, I do not force my presence upon them. I do not think that I have refused an invitation to a meeting with any of north Wales's councils during the summer.

Tom Middlehurst: Rhodri, croesawaf eich ymweliadau rheolaidd â'r Gogledd, yn rhinwedd pa swyddogaeth bynnag. Croesawaf yn benodol eich penderfyniad i ymweld â Chyngor Sir y Fflint ddydd Gwener i drafod canlyniadau cyhoeddiad Corning gyda'r undebau llafur, yr awdurdod lleol a rheolwyr y cwmni. A gytunwch fod yn rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu, yr wythnos hon, ac wedi hynny, i sicrhau cyfleuster cynhyrchu a fydd yn sylfaen i ddyfodol yr uned honno?

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn ddiolchgar am eich sylwadau, gan fod hyn yn fater difrifol. Ar wahân i gau gweithfeydd Corus, mae'n debyg mai Corning fydd y ffatri fwyaf i'w chau yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n bosibl y caiff o leiaf 525 o swyddi eu colli, ar ôl cyhoeddiad cychwynnol y byddai 175 o ddiswyddiadau—credaf mai dyna oedd y ffigur a gyhoeddwyd tua mis yn ôl—yn ddigon i alluogi'r gwaith i oroesi'r dirywiad presennol yn y diwydiant gweithgynhyrchu telathrebu. Yn anffodus, newidiodd y cwmni ei feddwl ar ôl hynny. Fodd bynnag, yn y cyfarfod ddydd Gwener, fe welwn pa un ai a allwn wneud rhywbeth i ddarbwylllo'r cwmni i newid ei feddwl eto. Nid wyf yn obeithiol

possible Assembly facilities to try to salvage what, until now, has been a mainstay of Deeside industrial park's economy.

iawn, ond rhaid inni geisio gwneud popeth o fewn ein gallu a defnyddio pob cyfleuster posibl sydd gan y Cynulliad i geisio achub yr hyn a fu'n un o brif ddiwydiannau economi parc diwydiannol Glannau Dyfrdwy hyd yma.

Proffil Rhyngwladol Cymru International Profile of Wales

C10 Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei lwyddiant i godi proffil rhyngwladol Cymru yn y misoedd diwethaf? (OAQ12945)

Q10 Ieuan Jones: Will the First Minister make a statement on his achievements in raising the international profile of Wales in recent months? (OAQ12945)

Prif Weinidog Cymru: Yn dilyn fy ymweliad â De America ym Mehefin, arweiniais deithiau masnach llwyddiannus i Galiffornia a De Affrica yn ystod toriad yr haf. Mae'r teithiau masnach hynny wedi ennill archebion gwerth tua £8 million, er ei bod yn rhy gynnar i ddweud beth fydd y ffigurau terfynol. Yn ystod fy ymweliad â'r Unol Daleithiau, cafwyd llwyddiant mawr gydag wythnos Cymru yng Nghaliffornia, i hyrwyddo diwydiannau a diwylliant Cymru.

The First Minister: Following my visit to South America in June, I led successful trade missions to California and South Africa during the summer recess. Those trade missions have secured orders worth about £8 million, although it is too early to say what the final figures will be. During my visit to the United States, Wales week in California was very successful in promoting Welsh industry and culture.

Yr ydym wedi llwyddo i ddenu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru yn ddiweddar. Mae'r rhain yn cynnwys Cwpan Rygbi'r Byd yn 1999, rali Network Q, sydd yn dechrau eto y mis nesaf, a rownd derfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Yn ystod yr haf, penderfynwyd cynnal cystadleuaeth Cwpan Ryder yng Nghymru yn 2010. Yr wyf yn siŵr bod pawb yn croesawu'r cyfleoedd gwych y bydd hyn yn eu rhoi inni. Bydd hyn oll yn helpu wrth hyrwyddo Cymru ledled y byd fel lle heb ei ail i ymweld ag ef ac i gynnal busnes ynddo.

We have recently succeeded in attracting major sporting events to Wales. These include the Rugby World Cup in 1999, the Network Q rally, which begins again next month, and the FA Cup final in the Millennium Stadium in Cardiff. During the summer, it was decided that the Ryder Cup competition will be held in Wales in 2010. I am sure that everyone welcomes the excellent opportunities that this will give us. This will all help to promote Wales across the world as an unrivalled centre for tourism and business.

Ieuan Wyn Jones: Croesawn yr holl ddigwyddiadau hynny. Fodd bynnag, a ydych yn croesawu'r datganiad heddiw ar Bowys, sydd yn golygu bod Cymru yn rhydd o glwy'r traed a'r genau, ac yn llawenhau ac yn ymfalchïo yn y ffaith honno? A wnewch chi hefyd gydnabod bod diwydiant twristiaeth Cymru wedi dioddef yn enbyd yn sgîl clwy'r traed a'r genau a bod angen codi proffil Cymru yn uchel os ydym am adennill y farchnad honno? Gŵyr Rhodri fod nifer o fusnesau bron â mynd i'r wal. A wnaiff sicrhau y rhoddir digon o arian a sylw i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru fel y gall

Ieuan Wyn Jones: We welcome all those events. However, do you welcome today's statement on Powys, which means that Wales is free from foot and mouth disease, and are you pleased and proud of that fact? Will you also recognise that Wales's tourism industry has suffered dreadfully as a result of foot and mouth disease and that Wales's profile must be raised greatly if we are to regain that market? Rhodri knows that many businesses are on the verge of collapse. Will he ensure that sufficient funding and attention is given to the tourism industry in Wales so that it can prosper?

ffynnu?

Prif Weinidog Cymru: Cytunaf â sylwadau Ieuan. Fe wnaif fy ngorau i sicrhau adfywiad y diwydiant twristiaeth. Byddwn yn ystyried y ffactorau sydd wedi niweidio'r diwydiant—sef clwy'r traed a'r genau ac effeithiau gweithredoedd terfysgol 11 Medi—a cheisio adfywio'r diwydiant ar gyfer y gaeaf a'r flwyddyn nesaf.

Brian Gibbons: In pursuing the international dimension of Wales, have you considered the United States of America's proposals on its steel industry, particularly those on imports into the US, and the implications of that for the steel industry in Wales?

The First Minister: I read with extreme concern the American administration's response to the crisis in its steel industry, which is as bad or even worse than that in the British steel industry. The Bethlehem Steel Corporation, the second largest steel producer in the US, has filed chapter 11 in order to protect itself from its creditors. That has placed great pressure on the administration to introduce temporary anti-import and anti-dumping duties. Unfortunately, if cheap products are not dumped in the USA, they are likely to be dumped on our shores. We must ensure that the proper World Trade Organisation rules are applied, so that a level playing field exists between the USA, the UK, the rest of the European Union and other countries.

The First Minister: I agree with Ieuan's comments. I will do my best to ensure the regeneration of the tourism industry. We will consider the factors that have harmed the industry—namely foot and mouth disease and the effects of the terrorist attacks on 11 September—and we will try to regenerate the industry for the winter and next year.

Brian Gibbons: Wrth fynd ar drywydd dimensiwn rhyngwladol Cymru, a ydych wedi ystyried cynigion Unol Daleithiau America o ran eu diwydiant dur, yn enwedig y cynigion o ran mewnfurion i UDA, a goblygiadau hynny i ddiwydiant dur Cymru?

Prif Weinidog Cymru: Darllenaf gyda phryder mawr ymateb gweinyddiaeth America i'r argyfwng yn y diwydiant dur, sydd cynddrwg neu hyd yn oed yn waeth na'r argyfwng yn niwydiant dur Prydain. Mae'r Bethlehem Steel Corporation, sef y cwmni cynhyrchu dur mwyaf ond un yn UDA, wedi gweithredu pennod 11 er mwyn diogelu ei hun rhag ei greddydwyr. Mae hynny wedi rhoi cryn bwysau ar y weinyddiaeth i gyflwyno tollau gwrthfurfurion a gwrthdympio dros dro. Yn anffodus, os na chaiff cynnyrch rhad eu dympio yn UDA, maent yn debygol o gael eu dympio ar ein glannau ni. Rhaid inni sicrhau y caiff rheolau priodol Corff Masnachu'r Byd eu cymhwyso, er mwyn cael chwarae teg rhwng UDA, y DU, gweddill yr Undeb Ewropeaidd a gwledydd eraill.

Datblygiadau Diweddar yn y Fenter Partneriaeth â Busnes Recent Developments within the Partnership with Business Initiative

Q11 William Graham: Will the First Minister make a statement concerning recent developments within the Partnership with Business initiative? (OAQ12911)

The First Minister: Business Wales and the Wales Trades Union Congress have established the Wales Social Partners Unit as a company limited by guarantee. Action to recruit personnel is underway, and it is hoped that the unit will be fully operational by the end of the year. The private sector unit of the Welsh European Funding Office has been working with the social partners to establish a team of private sector facilitators to help

C11 William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch datblygiadau diweddar yn y fenter Partneriaeth â Busnes? (OAQ12911)

Prif Weinidog Cymru: Mae Busnes Cymru a Chyngres Undebau Llafur Cymru wedi sefydlu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant. Mae'r broses o recriwtio staff wedi dechrau, a'r gobaith yw y bydd yr uned yn gwbl weithredol erbyn diwedd y flwyddyn. Bu uned sector preifat Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cydweithio â'r partneriaid cymdeithasol i sefydlu tîm o

businesses, especially small and medium-sized firms, to access European structural fund programmes. Bids for technical assistance are being prepared. The next meeting of the Business Partnership Council will be on 23 November.

William Graham: Will the First Minister outline the partnership procedures being implemented to allow Welsh businesses to respond to international business and economic pressures arising from the terrorist attacks in America?

The First Minister: Some sectors of industry will be much worse affected and affected much earlier than others. There has been an early reaction world-wide by the aerospace industry, and the aerospace repair industry. It has had to trim back now to ensure that it will still be in existence when the upturn comes. We have seen that in the job losses announced at GE Aircraft Engine Services Limited in Nantgarw. The likely level of orders for civil aircraft and spare parts is being re-evaluated. Although that will have some effect, it is too early to make detailed predictions. Airbus has announced that it is freezing recruitment. Wales will therefore miss out on job growth. I do not think that any redundancies have been announced yet and Airbus has guaranteed that its apprentices can complete their apprenticeships. We are pleased about that. However, we will not get the job growth for which we had hoped from Airbus.

The effect on the aerospace industry has not bottomed out yet. In Wales, the greatest impact of the attacks has been on the aerospace industry. There has not been a great effect on tourism here, compared to that on the London hotel trade. Similarly, British Airways, which has faced a crisis as regards cabin crew, does not have much of a base in Wales outside of its repair site. I am pleased that no redundancies have been announced at that site to date.

Brian Hancock: Will the First Minister comment on business partnerships in relation to sustainable development and opportunities for environmental businesses, which are

hwyluswyr y sector preifat i helpu busnesau, yn enwedig cwmnïau bach a chanolig eu maint, i wneud cais am raglenni cronfeydd strwythurol Ewrop. Caiff ceisiadau am gymorth technegol eu paratoi. Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth Busnes ar 23 Tachwedd.

William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r gweithdrefnau partneriaeth a weithredir i alluogi busnesau Cymru i ymateb i'r pwysau busnes ac economaidd rhyngwladol yn sgîl yr ymosodiadau terfysgol yn America?

Prif Weinidog Cymru: Caiff rhai sectorau o ddiwydiant eu heffeithio'n llawer gwaeth ac yn llawer cynharach na sectorau eraill. Mae'r diwydiant awyrofod a'r diwydiant atgyweirio awyrennau wedi ymateb yn gynnar ym mhob cwr o'r byd. Bu'n rhaid iddo dorri i lawr yn awr i sicrhau y bydd yn dal i fodoli pan fydd y sefyllfa yn gwella. Gwelsom hynny yng nghyhoeddiad GE Aircraft Engine Services Limited yn Nantgarw ynglŷn â'r diswyddiadau. Caiff y lefel debygol o archebion ar gyfer awyrennau sifil a rhannau awyrennau ei hailwerthuso. Er y caiff hynny rhyw fath o effaith, mae'n rhy gynnar rhagfynegi'r sefyllfa yn fanwl. Mae Airbus wedi cyhoeddi na fydd yn recriwtio rhagor o staff ar hyn o bryd. Felly, ni fydd cynnydd yn nifer y swyddi yng Nghymru. Ni chredaf i unrhyw ddiswyddiadau gael eu cyhoeddi eto ac mae Airbus wedi rhoi sicrwydd inni y gall ei brentisiaid gwblhau eu prentisiaethau. Fodd bynnag, ni fydd y cynnydd yn nifer y swyddi yn Airbus yn unol â'r disgwyl.

Nid ydym wedi gweld yr effeithiau llawn ar y diwydiant awyrofod eto. Yng Nghymru, ar y diwydiant awyrofod y cafodd yr ymosodiadau yr effaith fwyaf. Ni chafwyd llawer o effaith ar dwristiaeth yma, o gymharu â'r effaith ar westai Llundain. Yn yr un modd, nid oes gan British Airways, sydd wedi wynebu argyfwng o ran criw caban, ganolfan yng Nghymru ar wahân i'w safle atgyweirio. Yr wyf yn falch na chyhoeddwyd diswyddiadau yn y safle hwnnw hyd yma.

Brian Hancock: A wnaiff y Prif Weinidog sylwadau ar bartneriaethau busnes mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer busnesau amgylcheddol,

concerned about waste disposal in Wales?

sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff yng Nghymru?

The First Minister: The private sector must initiate this. As European industry either chooses or is obliged by tighter regulations to clean up, there is a great opportunity for those with the best and brightest ideas as regards waste management, waste reduction and the disposal of the residue of reduced waste. It is a matter of better technology, and from where the ideas and funding will come. It involves the public sector and is on the margin between the private and public sectors. If you are aware of opportunities that you think that businesses in the private sector could access in your constituency, Brian, but are being held back from doing so, I would like to hear about them and we will see if we can remove the barriers.

Prif Weinidog Cymru: Rhaid i'r sector preifat gychwyn hyn. Gan fod diwydiannau Ewropeaidd yn dewis gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â gwastraff neu'n cael ei orfodi i wneud hynny gan reoliadau llymach, ceir cyfle gwych i'r rheini sydd â'r syniadau gorau o ran rheoli gwastraff, lleihau gwastraff a gwaredu gweddillion gwastraff sydd wedi'i leihau. Mae a wnelo â thechnoleg well, ac o ble y daw'r syniadau a'r arian. Mae'n cynnwys y sector cyhoeddus ac mae ar y ffin rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Os ydych yn ymwybodol o gyfleoedd y credwch y gallai busnesau yn y sector preifat gael mynediad iddynt yn eich etholaeth, Brian, ond y cânt eu hatal rhag gwneud hynny, hoffwn glywed amdanynt ac fe welwn a allwn gael gwared â'r rhwystrau.

2.40 p.m.

Pwyntiau o Drefn Points of Order

Dafydd Wigley: Point of order. I raise this under Standing Order No. 6.30 in regard to a reply by Rhodri Morgan to an earlier question that gave a misleading impression of what was said in the Economic Development Committee meeting last week, when I referred to the comments of Wouter Pieke of the Directorate-General IV on competition, who made clear that the idea of operating aids for part of a member state, as opposed to the whole territory of a member state, was dead in the water. It would be totally unacceptable to DGIV if there were any variation in taxation in part of a member state. It had taken the Basque Country to court over the matter and it would not countenance it in Wales. Given those circumstances, may we have full and straight answers on this issue to ensure that we look for devices that can move our economy forward and do not put our energy into matters on which we are, clearly, wasting our time?

Dafydd Wigley: Pwynt o drefn. Codaf hyn o dan Reol Sefydlog Rhif 6.30 ynghylch ateb a roddwyd gan Rhodri Morgan i gwestiwn cynharach a roddodd argraff gamarweiniol o'r hyn a ddywedwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yr wythnos diwethaf, pan gyfeiriais at sylwadau Wouter Pieke o Gyfarwyddiaeth Gyffredinol IV ar gystadleuaeth, a'i gwnaeth yn glir bod y syniad o gymhorthion gweithredu ar gyfer rhan o aelod-wladwriaeth, yn hytrach na thiriogaeth gyfan aelod-wladwriaeth, mor farw â'r hoel. Byddai'n hollol annerbyniol i DGIV pe câi trethiant ei amrywio o gwbl mewn rhan o aelod-wladwriaeth. Yr oedd wedi mynd â Gwlad y Basg i'r llys dros y mater ac ni fyddai'n caniatáu hynny yng Nghymru. O gofio'r amgylchiadau hynny, a gawn atebion llawn a gonest ar y mater hwn i sicrhau ein bod yn edrych am ddyfeisiau a all ddatblygu ein heconomi ac na wnânt inni roi o'n hegri i faterion sydd, yn amlwg, yn gwastraffu ein hamser?

The First Minister: Further to that point of order, although I am not sure it was a point of order—

Prif Weinidog Cymru: Ymhellach at y pwynt hwnnw o drefn, er nad wyf yn siŵr mai pwynt o drefn ydoedd—

The Presiding Officer: No, it was not.

Y Llywydd: Na, nid dyna ydoedd.

The First Minister: It was really a replay of a question answered previously. To repeat what I said in the Economic Development Committee meeting, we do not accept the version quoted by Dafydd. It does not eliminate all operating aids. There is not much point in going over this; we can do it three or four times, I do not mind. However, that is an accurate reflection of our exchanges on this matter in the Economic Development Committee. I think that Dafydd will accept that.

Prif Weinidog Cymru: Ailofyn cwestiwn a atebwyd yn flaenorol a wnaethpwyd. I ailadrodd yr hyn a ddywedais yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd, ni dderbyniwn y fersiwn a ddyfynnwyd gan Dafydd. Nid yw'n dileu pob cymorth gweithredu. Nid oes llawer o bwynt trafod hyn eto; gallwn wneud hynny dair neu bedair gwaith, nid oes ots gennyf. Fodd bynnag, mae hynny'n adlewyrchiad cywir o'r hyn a drafodwyd ynglŷn â'r mater hwn yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Credaf y bydd Dafydd yn derbyn hynny.

The Presiding Officer: Both former parliamentarians who have spoken will know that I take a dim view, as do my equivalents in other Parliaments, of those who seek to extend questions to Ministers by other means. The matter is now on record, in any case. On this point of order, Alun Cairns, a future parliamentarian. [*Laughter.*]

Y Llywydd: Bydd y ddau gyn-aelod seneddol sydd wedi siarad yn gwybod nad oes gennyf lawer o amynedd, yn fwy na Llywyddwyr mewn Seneddau eraill, gyda'r rheini sy'n ceisio ymestyn cwestiynau i Weinidogion drwy ffyrdd eraill. Mae'r mater wedi'i gofnodi erbyn hyn, beth bynnag. Ar y pwynt hwn o drefn, Alun Cairns, un o aelodau seneddol y dyfodol. [*Chwerthin.*]

Alun Cairns: This matter could well involve a major change in the administration's policy and I would welcome a statement to the Assembly on it.

Alun Cairns: Gallai'r mater hwn olygu newid mawr ym mholisi'r weinyddiaeth a byddwn yn croesawu datganiad i'r Cynulliad arno.

The Presiding Officer: That is not an appropriate matter to raise as a point of order. The First Minister has participated in these exchanges and if he wishes to take the matter further, he will do so in the time available to him.

Y Llywydd: Nid yw hwnnw'n fater priodol i'w godi fel pwynt o drefn. Mae'r Prif Weinidog wedi cymryd rhan yn y trafodaethau hyn ac os dymuna fynd â'r mater ymhellach, gwnaiff hynny o fewn yr amser sydd ar gael iddo.

Rhodri Glyn, mae gennych bwynt o drefn. A yw'n well na'r un blaenorol?

Rhodri Glyn, you have a point of order. Is it better than the previous one?

Rhodri Glyn Thomas: Gobeithio, Lywydd. Mae'n ymwneud ag ateb cwestiynau. Gofynnais gwestiwn i Brif Weinidog Cymru ar Gynulliad Rhanbarthau Ewrop a derbyniais ateb ar Bwyllgor y Rhanbarthau. Maent yn gyrff hollol wahanol. Nid wyf yn siŵr ai ymgais ddeheuig gan y Prif Weinidog i osgoi y cwestiwn ydoedd, neu na ŵyr y gwahaniaeth. Os wyf yn gofyn cwestiwn ar Gynulliad Rhanbarthau Ewrop, byddwn yn gwerthfawrogi ateb ar hynny, nid ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

Rhodri Glyn Thomas: I hope so, Presiding Officer. It involves answering questions. I asked a question to the First Minister on the Assembly of European Regions and I received a reply on the Committee of the Regions. Those are totally different bodies. I am not sure whether it was a skilful attempt by the First Minister to avoid the question, or whether he does not know the difference. If I ask a question on the Assembly of European Regions, I would appreciate an answer on that, not on the Committee of the Regions.

Y Llywydd: Y mae hynny'n ymylu ar fod yn bwynt o drefn.

Prif Weinidog Cymru: Ymddiheuraf os bu imi gamglywed y cwestiwn. Fodd bynnag, atebais y cwestiwn yn yr ystyr fy mod wedi trafod y gwahaniaeth rhwng cyrff gwirfoddol a rhai statudol.

Y Llywydd: Yr wyf yn sicr y bydd y Prif Weinidog yn ystyried yr ymatebion hyn. Bydd cyfle i anfon e-bost neu lythyru ar y pwynt ymhellach os oes angen.

Alun Cairns: Pwynt o drefn. Awgrymodd y Prif Weinidog y dylwn fod wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yr wythnos diwethaf. Gofynnodd am drywydd polisi'r Blaid Geidwadol. Nid wyf yn aelod o'r Pwyllgor hwnnw ac felly nid oedd angen imi fod yno.

Y Llywydd: Mae hynny hefyd yn bwynt o drefn, gan ei fod yn ymwneud ag aelodaeth Pwyllgorau.

Prif Weinidog Cymru: Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, efallai bod Alun wedi camglywed yn yr achos hwn, neu efallai imi gamddweud. Cyfeiriais at gyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd, pan adawodd Alun yn gynnar, os cofiaf yn iawn, ac felly nid oedd cynrychiolaeth o'r Blaid Doriaidd yno—efallai mai'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ydoedd. Fodd bynnag, nid oedd aelod o'r Blaid Doriaidd yn bresennol. Dyna oedd y pwynt.

Glyn Davies: Point of order. This is about the accuracy of the First Minister's answers. Earlier today, the First Minister implied that the impact of the crisis in America on tourism was limited. Yet, in a reply yesterday to my written question, he stated that it was estimated to be £70 million, which is colossal. I would have thought that information given one day in answer to a written question should be the same as that given to the Chamber the next day.

The First Minister: I said nothing of the kind, Glyn. I said that the impact was greater on hotels in London.

The Presiding Officer: That verges on being a point of order.

The First Minister: I apologise if I misheard the question. However, I answered the question in that I discussed the difference between voluntary and statutory bodies.

The Presiding Officer: I am sure that the First Minister will consider these responses. There will be an opportunity to e-mail or correspond further on the point if necessary.

Alun Cairns: Point of order. The First Minister suggested that I should have been present at the Committee on European Affairs meeting last week. He asked about the Conservative Party's policy direction. I am not a member of that Committee and therefore did not need to attend.

The Presiding Officer: That is also a point of order, since it refers to the membership of Committees.

The First Minister: Further to that point of order, perhaps Alun misheard in this case, or perhaps I failed to make myself understood. I referred to the Economic Development Committee meeting, which Alun left early, if I remember correctly, and therefore there was no Tory Party representation there—perhaps it was the Committee on European Affairs. However, there was no member of the Tory Party present. That was the point.

Glyn Davies: Pwynt o drefn. Mae hwn yn ymwneud â chywirdeb atebion y Prif Weinidog. Yn gynharach heddiw, awgrymodd y Prif Weinidog fod effaith argyfwng America ar dwristiaeth yn gyfyngedig. Eto i gyd, wrth ateb fy nghwestiwn ysgrifenedig ddoe, nododd fod amcangyfrif yr effaith ar dwristiaeth yn £70 miliwn, sy'n aruthrol. Byddwn wedi meddwl y dylai gwybodaeth a roddir un diwrnod mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig fod yr un fath â'r wybodaeth a roddir i'r Siambr drannoeth.

Prif Weinidog Cymru: Ni ddywedais ddim o'r fath, Glyn. Dywedais fod yr effaith yn fwy ar westai yn Llundain.

Datganiad Busnes Business Statement

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): Before I turn to the business statement for the next three weeks, I wish to inform Members of changes to this week's business. As I said last week, I was committed to bring forward, as soon as possible, the debate on the waste Wales strategy, which was deferred from last Tuesday. I have been able to bring it forward earlier than expected and, as Members know, have arranged for it to take place this afternoon. As requested in Business Committee this morning, my colleague, Jane Hutt, has agreed to postpone her statement regarding consultation on the learning disabilities' advisory group report to allow as much time as possible for this debate.

On Thursday, I will bring forward all items of business agreed last week, plus a motion to approve the joint Order on the Milk Marketing Board (Residuary Functions) (Amendment) Regulations 2001, details of which have already been tabled.

The Business Committee agreed in its meeting this morning, business for the next three weeks as shown on the Chamber web and in supporting documents. Members will also wish to be aware that at this morning's Business Committee meeting, the Deputy Presiding Officer determined under Standing Order No. 22.5 that the following Orders need not be referred to a Subject Committee. These are the Mandatory Travel Concessions (Reimbursement Arrangements) (Wales) Regulations 2001, the Plant Health (Amendment) (Wales) (No.2) Order 2001, the Farm Waste Grant (Nitrate Vulnerable Zones) (Wales) Scheme 2001, the Education (Schools and Further and Higher Education) (Amendment) (Wales) Regulations 2001, the Accounts and Audit (Amendment) (Wales) Regulations 2001, the Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001 and the Travel Concessions (Extension of Entitlement) (Wales) Order 2001.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cyn imi droi at y datganiad busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf, hoffwn hysbysu'r Aelodau am newidiadau i fusnes yr wythnos hon. Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, yr oeddwn yn ymrwymedig i gyflwyno, cyn gynted ag y bo modd, y ddadl ar strategaeth wastraff Cymru, a ohiriwyd o ddydd Mawrth diwethaf. Bu'n bosibl imi ei chyflwyno'n gynharach na'r disgwyl ac, fel y gŵyr yr Aelodau, yr wyf wedi trefnu ei chynnal y prynhawn yma. Fel y gofynnwyd yn y Pwyllgor Busnes y bore yma, mae fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, wedi cytuno i ohirio ei datganiad ynglŷn ag ymgynghori ar adroddiad y grŵp ymgynghorol ar anabledau dysgu er mwyn caniatáu cymaint o amser â phosibl i'r ddadl hon.

Ddydd Iau, cyflwynaf bob eitem o fusnes y cytunwyd arnynt yr wythnos diwethaf, ynghyd â chynnig i gymeradwyo'r cyd Orchymyn ar Reoliadau'r Bwrdd Marchnata Llaeth (Swyddogaethau sy'n Weddill) (Diwygio) 2001. Mae ei manylion wedi'u cyflwyno eisoes.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar fusnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn ei gyfarfod y bore yma fel y dangosir ar we'r Siambr ac mewn dogfennau ategol. Mae'n siŵr yr hoffai'r Aelodau hefyd wybod bod y Dirprwy Lywydd wedi penderfynu yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, o dan Reol Sefydlog Rhif 22.5 nad oes angen cyfeirio'r Rheolau canlynol i Bwyllgor Pwnc, sef Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001, Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001, Cynllun Grantiau Gwastraff Ffermydd (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2001, Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2001, Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001 a Gorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001.

In addition, the Deputy Presiding Officer determined under Standing Order No. 22.5 that the following seed marketing regulations: the Oil and Fibre Plant Seeds (Amendment) (Wales) Regulations 2001, the Beet Seeds (Amendment) (Wales) Regulations 2001, the Seed Potatoes (Amendment) (Wales) Regulations 2001, the Vegetable Seeds (Amendment) (Wales) Regulations 2001, the Fodder Plant Seeds (Amendment) (Wales) Regulations 2001 and the Cereal Seeds (Amendment) (Wales) Regulations 2001, should be referred to the Agriculture and Rural Development Committee for consideration as early as possible. It is hoped that the Committee will present its report quickly, so that the Legislation Committee can consider the regulations next Tuesday and the Assembly can consider them in Plenary, as agreed, on 8 November.

I will make arrangements to post a copy of this statement to the intranet and internet.

Y Llywydd: A oes unrhyw wrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes unrhyw sylwadau?

Elin Jones: Byddwch yn ymwybodol o'r galw cynyddol am ymchwiliad cyhoeddus ar argyfwng clwy'r traed a'r genau. Yr oedd rhaglen HTV, *Wales This Week*, yn codi sawl mater sydd angen ei ymchwilio. Gobeithio y cawsoch chi a Phrif Weinidog Cymru gyfle i weld y rhaglen honno. Mae Llywodraeth Tony Blair yn parhau i ymwrthod â'r galw am ymchwiliad cyhoeddus. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol yr hawl i gynnal ymchwiliad cyhoeddus ar y pwnc hwn. A ydych yn fodlon caniatáu amser ar gyfer dadl ar yr angen am ymchwiliad cyhoeddus i'r argyfwng clwy'r traed a'r genau?

Y Llywydd: A oes unrhyw sylwadau gan y grwpiau gwleidyddol eraill?

Alun Cairns: The Minister for Assembly Business will be aware that I tabled a no-named day motion (NNDM800) calling on the First Minister to appoint a full time Minister for Economic Development. Will the Minister for Assembly Business advise the Chamber on when he plans to bring this

Yn ogystal, penderfynodd y Dirprwy Lywydd o dan Reol Sefydlog Rhif 22.5 y dylid cyfeirio'r rheoliadau marchnata hadau canlynol i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Economaidd i'w hystyried cyn gynted ag y bo modd: Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Diwygio) (Cymru) 2001, Rheoliadau Hadau Betyys (Diwygio) (Cymru) 2001, Rheoliadau Tatws Hadyd (Diwygio) (Cymru) 2001, Rheoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) (Cymru) 2001, Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Diwygio) (Cymru) 2001. Gobeithir y bydd y Pwyllgor yn cyflwyno ei adroddiad yn gyflym, fel y gall y Pwyllgor Deddfwriaeth ystyried y rheoliadau ddydd Mawrth nesaf ac y gall y Cynulliad eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn, fel y cytunwyd, ar 8 Tachwedd.

Gwnaf drefniadau i osod copi o'r datganiad hwn ar y fewnwyd a'r rhyngwyd.

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are not. Are there any comments?

Elin Jones: You will be aware of the increasing demand for a public inquiry into the foot and mouth disease crisis. The HTV programme, *Wales This Week*, raised several issues that require investigation. I hope that you and the First Minister had an opportunity to see that programme. Tony Blair's Government continues to reject the call for a public inquiry. The National Assembly has the right to hold a public inquiry on this issue. Are you willing to allocate time for a debate on the need for a public inquiry into the foot and mouth disease crisis?

The Presiding Officer: Are there any comments from the other political groups?

Alun Cairns: Bydd y Trefnydd yn ymwybodol imi gyflwyno cynnig heb ddyddiad trafod (NNDM800) yn galw ar Brif Weinidog Cymru i benodi Gweinidog amser llawn dros Ddatblygu Economaidd. A wnaiff y Trefnydd hysbysu'r Siambr pryd y bwriada ddyddyn hyn ger bron y Cynulliad?

before the Assembly?

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): The First Minister has adequately responded to Elin's point in answer to a previous question last week. He said that the UK Government has set up inquiries to consider the foot and mouth disease crisis. If there is any need for the Assembly to examine it in a different context, then we will consider that. However, at this stage, there are no grounds for doing so. To answer Alun Cairns's question: I do not intend to schedule his no-named day motion.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Mae'r Prif Weinidog wedi ymateb i bwynt Elin yn ddigonol wrth ateb cwestiwn blaenorol yr wythnos diwethaf. Dywedodd fod Llywodraeth y DU wedi cynnal ymchwiliadau i ystyried argyfwng clwy'r traed a'r genau. Os bydd angen i'r Cynulliad edrych ar y mater mewn cyd-destun gwahanol, yna ystyriwn hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes sail dros wneud hynny. I ateb cwestiwn Alun Cairns: ni fwriadaf amserlennu ei gynnig heb ddyddiad trafod.

2.50 p.m.

Pwynt o Drefn Point of Order

Peter Rogers: Point of order. I raise a point of order under Standing Order No. 18.1 relating to the accuracy of the 24-hour record for last Tuesday's Plenary session. Just before 3 p.m. during the debate on the First Minister's annual report, the Record shows that Mike German, who is not in the Chamber this afternoon, began a section of his speech by saying:

'I am grateful that Peter Rogers is here this afternoon because as he knows I relish his interventions. The more he says, the more votes I win.'

The Record goes on to recount how Mike's party had recently won a council election in my area and that I engaged in knockabout politics. I know that, of all the Labour Members Peter Law is probably closer to the Tories than any, but I think that we should get the record straight. I am sure that the Leader of the Liberal Democrat Group will confirm that he was referring to Peter Law, and I am sure that he will relish my interventions in the same way as he relishes Peter Law's.

The Presiding Officer: I am grateful to you for giving me advance notice of that point of order. I suggest that, if Members perceive any matters in the Record with which they might be legitimately concerned, they approach the Editor of the Record directly,

Peter Rogers: Pwynt o drefn. Codaf bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog Rhif 18.1 ynglŷn â chywirdeb y cofnod 24 awr ar gyfer Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth diwethaf. Ychydig cyn 3 o'r gloch yn ystod y ddadl ar adroddiad blynyddol Prif Weinidog Cymru, dengys y Cofnod i Mike German, nad yw yn y Siambr y prynhawn yma, ddechrau rhan o'i araith drwy ddweud:

'Yr wyf yn ddiolchgar bod Peter Rogers yma y prynhawn yma am fy mod yn gwirioni ar ei ymyriadau, fel y gŵyr. Po fwyaf a ddywed, y mwyaf o bleidleisiau a enillwn.'

Aiff y Cofnod yn ei flaen i adrodd sut y bu i blaid Mike ennill etholiad cyngor yn fy ardal yn ddiweddar ac imi ymhel â gwleidyddiaeth golbio. Gwn fod Peter Law, o blith yr holl Aelodau Llafur, yn agosach, fwy na thebyg, at y Torïaid na neb, ond credaf y dylem gywiro'r gwall. Yr wyf yn siŵr y cadarnha Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol mai cyfeirio at Peter Law yr oedd, ac yr wyf yn siŵr y caiff flas ar fy ymyriadau i yn yr un modd ag y caiff flas ar ymyriadau Peter Law.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am roi rhagrybudd imi o'r pwynt hwnnw o drefn. Awgrymaf y dylai'r Aelodau, os gwelant faterion yn y Cofnod a allai fod o bryder iddynt, a hynny'n ddilys, fynd at Olygydd y Cofnod yn uniongyrchol, ac ar yr amod bod

and provided that their query is in order, it will be rectified. eu hymholiad yn un teg, caiff ei gywiro.

Cymeradwyo Rheoliadau Hadau (Rhestr Amrywogaethau Genedlaethol) 2001 Approval of the Seeds (National List of Varieties) Regulations 2001

The Minister for Rural Affairs (Carwyn Jones): I propose that

the National Assembly, acting under Standing Order No. 23.10, approves the draft of the Seeds (National Lists of Varieties) Regulations 2001, a copy of which was laid in the Table Office on 15 October 2001. (NDM793)

These regulations implement European Council directives 98/95/EC and 98/96/EC, for those who want to look them up, which consolidate the internal market on seeds and introduce for the first time additional regulatory requirements for genetically-modified plant varieties. I introduce them to ensure compliance with the requirements of the European Union regulatory framework. If approved, they will come into force on 1 December.

As the regulations are being made jointly with the UK Parliament, they must be approved by it in accordance with our Standing Orders, and I will make a Welsh translation available as and when the regulations are made. European Council directives 70/457 on the common catalogue varieties of agricultural plant species, otherwise known as the common catalogue directive, consolidates the internal market in seeds and introduces, as I have mentioned, additional legal requirements in safeguards for genetically-modified plant varieties. The deadline for implementation of the directives into the law of member states was 1 February 2000. The UK is therefore in breach of its obligations under the common catalogue directive, as a result of the failure to implement these regulations. Continued failure to comply leaves the Assembly at risk of a significant financial penalty backdated to 1 February 2000. Members will recall that these regulations appeared before the Assembly last year. Since that time,

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones): Cynigiau fod

y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 23.10, yn cymeradwyo'r fersiwn ddraft o Reoliadau Hadau (Rhestr Amrywogaethau Genedlaethol) 2001, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2001. (NDM793)

Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu cyfarwyddbau'r Cyngor Ewropeaidd 98/95/EC a 98/96/EC, i'r rheini sydd am chwilio amdanynt, sy'n cadarnhau'r farchnad fewnol ar hadau ac yn cyflwyno am y tro cyntaf ofyniadau rheoliadol ychwanegol ar gyfer amrywogaethau planhigion sydd wedi'u haddasu'n enetig. Fe'u cyflwynaf i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion fframwaith rheoliadol yr Undeb Ewropeaidd. Os cânt eu cymeradwyo, dônt i rym ar 1 Rhagfyr.

Gan y gwneir y rheoliadau ar y cyd â Llywodraeth y DU, rhaid iddi eu cymeradwyo yn unol â'n Rheolau Sefydlog, a sicrhaf fod y rheoliadau yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg wrth iddynt gael eu llunio. Mae cyfarwyddbau 70/457 y Cyngor Ewropeaidd ar amrywogaethau catalog cyffredin o blanhigion amaethyddol, a elwir hefyd yn gyfarwydddeb y catalog cyffredin, yn cadarnhau'r farchnad hadau fewnol ac yn cyflwyno, fel yr wyf wedi nodi, ofyniadau cyfreithiol ychwanegol o ran camau i ddiogelu amrywogaethau planhigion sydd wedi'u haddasu'n enetig. Y terfyn amser ar gyfer gweithredu'r cyfarwyddbau i gyfraith yr aelod-wladwriaethau oedd 1 Chwefror 2000. Mae'r DU felly yn torri ei rhwymedigaethau o dan gyfarwydddeb y catalog cyffredin, o ganlyniad i'r ffaith na weithredwyd y rheoliadau hyn. Mae'r ffaith y parhawyd i beidio â chydymffurfio yn rhoi'r Cynulliad mewn perygl o gosb ariannol sylweddol yn ôlddyddio i 1 Chwefror 2000. Bydd yr Aelodau yn cofio i'r rheoliadau hyn

infraction proceedings have been initiated against the UK under article 226. The UK Parliament is not minded to make these regulations on our behalf, the matter therefore is one of discussion between the Assembly and the European Commission. The European Commission indicated that, if matters remain as they are, the Assembly will be liable to pay a fine of up to 500,000 euros per day, backdated to 1 February 2000. That means that the Assembly would be liable to pay around £300 million. That puts a different perspective on the situation that we were in last year.

The common catalogue directive is not primarily concerned with the regulation of genetically-modified organisms. It establishes an EU-wide common catalogue of plant varieties and requires member states to establish national lists of seeds varieties accepted for marketing and certification in their respective territories.

The regulations strengthen controls on planting and marketing GM crops, introducing for the first time, additional constraints by requiring GM plant varieties to be approved for marketing under the deliberate release directive 90/22/EEC before being added to the national list. The approval of these regulations does not make it more or less likely that GM crops will be grown in Wales.

Since last year, there have been advances on various fronts in the Assembly. First, the all-party strategy group on GM issues was established in December 2000. It has met regularly throughout 2001, most recently on 17 October. This directive has been before the strategy group twice. The group has also considered how we take forward our restrictive policy within the existing legal framework and how we can influence future legislation at European level. The Assembly has taken a strong and principled position in opposition to farm-scale evaluations being undertaken in Wales. As part of our consideration of the spring 2001 farm-scale evaluations, I used my powers under the

ddod gerbron y Cynulliad y llynedd. Ers hynny, dechreuwyd cymryd camau gorfodi deddfwriaeth yn erbyn y DU o dan erthygl 226. Nid yw'n fwriad gan Senedd y DU wneud y rheoliadau hyn ar ein rhan, mater o drafod ydyw felly rhwng y Cynulliad a'r Comisiwn Ewropeaidd. Nododd y Comisiwn Ewropeaidd y gallai'r Cynulliad, os bydd y sefyllfa yn parhau fel ag y mae, orfod talu dirwy o hyd at 500,000 euro y dydd, a ôlddyddir i 1 Chwefror 2000. Golyga hynny y byddai'n rhaid i'r Cynulliad dalu tua £300 miliwn. Rhydd hynny berspectif gwahanol ar y sefyllfa yr oeddem ynddi y llynedd.

Nid yw cyfarwyddeb y catalog cyffredin yn ymwneud yn bennaf â'r gwaith o reoleiddio organeddau a addaswyd yn enetig. Mae'n sefydlu catalog cyffredin o amrywogaethau planhigion ar draws yr UE ac yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu rhestrau cenedlaethol o amrywogaethau hadau a dderbynnir i'w marchnata a'u hardystio yn eu priod diriogaethau.

Mae'r rheoliadau yn cryfhau'r rheolaeth ar blannu a marchnata cynydau a addaswyd yn enetig, gan gyflwyno cyfyngiadau ychwanegol am y tro cyntaf drwy ei gwneud yn ofynnol i amrywogaethau planhigion a addaswyd yn enetig gael eu cymeradwyo i'w marchnata o dan gyfarwyddeb ryddhau bwriadol 90/22/EEC cyn iddynt gael eu hychwanegu at y rhestr genedlaethol. Ni fydd yn fwy nac yn llai tebygol y bydd cynydau a addaswyd yn enetig yn cael eu tyfu yng Nghymru yn sgîl cymeradwyo'r rheoliadau hyn.

Ers y llynedd, cymerwyd camau ymlaen ar sawl mater yn y Cynulliad. Yn gyntaf, sefydlwyd y grŵp strategol trawsbleidiol ar faterion yn ymwneud ag addasu genetig yn Rhagfyr 2000. Cyfarfu'n rheolaidd drwy gydol 2001, a'r tro diwethaf ar 17 Hydref. Bu'r gyfarwyddeb hon gerbron y grŵp strategol ddwywaith. Ystyriodd y grŵp hefyd sut i ddatblygu ein polisi cyfyngol o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol a sut y gallwn ddylanwadu ar ddeddfwriaeth y dyfodol ar lefel Ewropeaidd. Mae'r Cynulliad wedi cymryd safbwynt cryf ac egwyddorol sy'n gwrthwynebu'r broses o werthuso graddfeydd ffermydd yng Nghymru. Fel rhan o'n hystyriaeth o werthusiadau graddfeydd

Environmental Protection Act 1990 to introduce statutory separation distances between genetically-modified crops and neighbouring ones, and to safeguard organic production. The Assembly is the only legislature in Europe to have taken that step to challenge the existing marketing consents and part C of the deliberate release directive.

As Members will recall, issuing that prohibition notice automatically triggered notification to the European Commission under article 16 of the directive. On 13 July, the UK informed the Commission and other member states of the Assembly's prohibition and its belief that the unrestricted release of T25 transformed maize would involve a risk to the environment. The article 16 notification provides for a review by the EC and other member states, which is the appropriate forum to raise our principled concerns. By doing so we have raised a matter for the EC that has not been raised before by any other level of Government elsewhere in the EU. Separation distances and the Assembly's action to protect the organic and conventional farming sector are under active consideration in the community and have been drawn to the attention of member states and the Commission by my officials at recent meetings. They will also be discussed in a seminar on 27 November in Brussels.

However, we are carrying a burden by not approving these regulations. We are, and are seen to be, in breach of community law. Furthermore, we risk the Commission giving less credence to the strength of the arguments being put forward in the article 16 notification. To support the acceptance of the Assembly's advocacy of a restrictive approach to GMOs and to support the article 16 notification in particular, I invite the Assembly to endorse the view taken by many at the all-party strategy group on GMOs by approving the passage of the implementation through the Assembly. This is in accordance with our operating the most restrictive policy possible within the framework of EU legislation. However, the Assembly must give an indication that it seriously considers meeting its EU obligations. Above all, we

ffermydd gwanwyn 2001, defnyddiais fy mhwerau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i gyflwyno pellteroedd gwahanu statudol rhwng cnydau a addaswyd yn enetig a chnydau cyfagos, ac i ddiogelu cynnyrch organig. Y Cynulliad yw'r unig gorff deddfwriaethol yn Ewrop i gymryd y cam hwnnw i herio'r caniatâdau marchnata presennol a rhan C o'r gyfarwyddeb ryddhau bwriadol.

Fel y bydd Aelodau yn cofio, hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn awtomatig gan y ffaith bod hysbysiad gwahardd wedi'i gyhoeddi o dan erthygl 16 o'r gyfarwyddeb. Ar 13 Gorffennaf, hysbysodd y DU y Comisiwn a'r aelod-wladwriaethau eraill fod y Cynulliad wedi'i wahardd ac am y ffaith ei fod o'r farn y byddai rhyddhau india-corn T25 a drawsffurfiwyd yn ddigyfyngiad yn peryglu'r amgylchedd. Mae hysbysiad erthygl 16 yn darparu ar gyfer adolygiad gan y CE ac aelod-wladwriaethau eraill, a dyna'r fforwm priodol ar gyfer codi ein pryderon egwyddorol. Drwy wneud hynny codasom fater ar gyfer y CE nas codwyd o'r blaen gan un lefel arall o Lywodraeth yn unman yn yr UE. Caiff pellterau gwahanu a chamau'r Cynulliad i ddiogelu'r sector ffermio organig a chonfensiynol eu hystyried o fewn y gymuned a thynnwyd sylw'r aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn atynt gan fy swyddogion mewn cyfarfodydd yn ddiweddar. Cânt eu trafod hefyd mewn seminar ar 27 Tachwedd ym Mrwsel.

Fodd bynnag, cariwn faich drwy beidio â chymeradwyo'r rheoliadau hyn. Yr ydym, a gwelir ein bod, wedi torri cyfraith y gymuned. At hynny, gallai hynny olygu bod y Comisiwn yn rhoi llai o goel ar gryfder y dadleuon a gyflwynir o fewn hysbysiad erthygl 16. Er mwyn cefnogi'r ffaith bod argymhelliad y Cynulliad o blaid ymagwedd gyfyngol tuag at organeddau a addaswyd yn enetig wedi'i dderbyn ac er mwyn cefnogi hysbysiad erthygl 16 yn benodol, estynnaf wahoddiad i'r Cynulliad gefnogi'r farn a goledwyd gan lawer yn y grŵp strategol trawsbleidiol ar organeddau a addaswyd yn enetig drwy gymeradwyo pasio'r ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad. Mae hyn yn unol â chamau a gymerwn i weithredu'r polisi mwyaf cyfyngol posibl o fewn fframwaith deddfwriaeth yr UE. Fodd

must bear in mind that the wolves are at the door and that we will end up with infraction proceedings without a defence and with a fine to pay. We cannot tell the people of Wales that we are prepared to do that, especially given the level of the fine. We have taken this as far as possible. Other avenues are being properly pursued on behalf of the Assembly.

Jocelyn Davies: There has been much discussion in this Chamber on GMOs and their release into the environment. Members from all parties have urged caution. There is no point in repeating what has been said, but Plaid Cymru has not changed its view. I am still convinced that the utmost caution should be taken while developing this science in a controlled environment. Some parts of the world are using GMOs commercially and we should consider their impact and whether there are any advantages to Wales using GMOs, weighing them up against the disadvantages before we sign up to them.

I have been looking for current research and found a report in a June edition of the *Financial Times*, stating that the Dutch centre for agriculture found that the increases in yield from GM soya beans were insignificant or small, while it was impossible to forecast the impact on bio-diversity. According to another *Financial Times* report in August this year, Canadian researchers in their Government's farming agency Ag Canada found strong evidence that genetically-modified crops can spread long distances from where they were planted, and spawn what scientists call 'superweeds'. They also found that different GM strains can interbreed.

3.00 p.m.

The superweeds produced are resistant to a wide range of herbicides, and the escaped rapeseed is now Canada's thirteenth worst weed. Rapeseed has many more wild cousins

bynag, rhaid i'r Cynulliad ddangos ei fod yn ystyried cyflawni ei rwymedigaethau i'r UE o ddifrif. Yn bennaf oll, rhaid inni gofio bod y bleiddiaid wrth y drws ac efallai y caiff camau gorfodi deddfwriaeth eu cymryd yn ein herbyn a ninnau heb amddiffyniad ac â dirwy i'w thalu. Ni allwn ddweud wrth bobl Cymru ein bod yn barod i wneud hynny, yn arbennig o gofio maint y ddirwy. Cymerwyd hyn mor bell â phosibl gennym. Gwneir ymholiadau priodol i bosibiliadau eraill ar ran y Cynulliad.

Jocelyn Davies: Trafodwyd llawer ar organeddau a addaswyd yn enetig yn y Siambr hon ac ar eu rhyddhau i'r amgylchedd. Mae Aelodau o bob plaid wedi pwysleisio y dylid pwylllo. Nid oes pwynt ailadrodd yr hyn a ddywedwyd, ond nid yw Plaid Cymru wedi newid ei barn. Yr wyf yn argyhoeddedig o hyd y dylid bod mor bwyllog â phosibl tra'n datblygu'r wyddor hon mewn amgylchedd a reolir. Mae rhannau o'r byd yn defnyddio organeddau yn fasnachol a dylem ystyried eu heffaith a pha un ai a oes manteision i Gymru o ddefnyddio organeddau a addaswyd yn enetig ai peidio, gan eu pwysu a'u mesur yn erbyn yr anfanteision cyn inni ymrwymo iddynt.

Bûm yn chwilio am ymchwil gyfredol a chanfûm adroddiad yn un o rifynnau Mehefin o'r *Financial Times*, a oedd yn nodi i ganolfan amaethyddiaeth yr Iseldiroedd ganfod bod y cynnydd mewn cnydau ffa soia a addaswyd yn enetig yn ansylweddol neu'n fach, tra'i bod yn amhosibl rhagweld yr effaith ar fioamrywiaeth. Yn ôl adroddiad arall yn y *Financial Times* ym mis Awst eleni, canfu ymchwilwyr yng Nghnada yn asiantaeth ffermio eu Llywodraeth Ag Canada dystiolaeth gref y gall cnydau a addaswyd yn enetig ymestyn am bellteroedd maith o'r man y'u plannwyd, gan fwrw grawn yr hyn a elwir gan wyddonwyr yn 'arch-chwyn'. Canfuwyd hefyd y gall rhywogaethau gwahanol a addaswyd yn enetig rhyngfridio.

Gall yr arch-chwyn a gynhyrchir wrthsefyll amrywiaeth eang o chwynladdwyr, a'r had rêp a ddihangodd yw'r trydydd chwyn gwaethaf ar ddeg yng Nghnada bellach. Mae

here than in Canada. However, that research does not prevent biotechnology companies from denying that it is possible.

In August, BBC News Online reported that scientists in Ohio State University proved that GM crop genes can move to their wild relatives and will inevitably spur rapid evolutionary adaptations in weeds that will ultimately be harmful to the crops.

United Press International also reported in August that United States scientists found that despite biotech companies' claims that the use of GM crops would reduce the use of insecticides, insecticide usage remained the same or even rose. The US Department of Agriculture's research service reported that biotech resistance was developing in crop pests, including moths and other insects. Therefore, nature has a way of combating our modifications.

GM science offers many promises, and its potential is huge. We must acknowledge that. Theoretically, plants can be developed to withstand drought conditions. UK scientists claim that they are close to producing a GM superfish that will grow three times larger than normal. In Ontario, scientists claim that their GM pig excretes non-polluting manure, while other US scientists are working towards a salt-resistant tomato that will grow in exceptionally poor conditions.

GM science and its application is in its infancy. It could create more problems later.

Without doubt, the biotech companies have massive lobbying power and, through the United States, have successfully influenced British and European policy. This regulation is part of that regime. We are given to believe that we cannot resist it. Why vote on it if we cannot reject it?

llawer mwy o gefndryd gwyllt had rêp yma nag yng Nghanaada. Fodd bynnag, nid yw'r ymchwil honno yn atal cwmnïau biodechnoleg rhag gwadu ei fod yn bosibl.

Ym mis Awst, nododd BBC News Online fod gwyddonwyr ym Mhrifysgol Talaith Ohio wedi profi y gall genynnau cnydau a addaswyd yn enetig symud i blith eu perthnasau gwyllt a'i bod yn anochel y byddant yn sbarduno addasiadau esblygol cyflym ymhlith chwyn a fydd yn y pen draw yn niweidiol i'r cnydau.

Nododd United Press International hefyd ym mis Awst fod gwyddonwyr yn yr Unol Daleithiau wedi canfod, er gwaethaf honiadau cwmnïau biodechnoleg y byddai defnyddio cnydau a addaswyd yn enetig yn lleihau'r defnydd o bryfleiddiaid, bod y defnydd o bryfleiddiaid yn parhau'r un fath neu'n cynyddu hyd yn oed. Nododd gwasanaeth ymchwil Adran Amaethyddiaeth yr UDA fod plâu cnydau, gan gynnwys gwyfynod a phryfed eraill yn cynyddu eu gwytnwch yn erbyn biodechnoleg. Felly, mae gan natur ffordd o wrthwynebu ein haddasiadau.

Mae gwyddoniaeth addasu genetig yn cynnig addewidion lu, ac mae ei photensial yn aruthrol. Rhaid inni gydnabod hynny. Mewn theori, gellir datblygu planhigion i wrthsefyll sychder. Mae gwyddonwyr yn y DU yn honni eu bod ar fin creu archbysgodyn a addaswyd yn enetig a fydd yn tyfu deirgwaith yn fwy na'r cyffredin. Yn Ontario, mae gwyddonwyr yn honni bod eu mochyn a addaswyd yn enetig yn ysgarthu gwraith nad yw'n llygru, tra bo gwyddonwyr eraill yn yr UDA yn gweithio ar domato a all wrthsefyll halen ac a all dyfu o dan amodau eithriadol wael.

Mae'n dal yn ddyddiau cynnar ar wyddoniaeth addasu genetig a'i chymhwysiad. Gallai greu mwy o broblemau yn nes ymlaen.

Yn ddi-os, mae gan gwmnïau biodechnoleg bŵer lobïo aruthrol, a thrwy'r Unol Daleithiau, llwyddasant i ddylanwadu ar bolisi ym Mhrydain ac Ewrop. Mae'r rheoliad hwn yn rhan o'r drefn honno. Dywedir wrthym na allwn ei wrthsefyll. Pam pleidleisio ar y mater oni allwn ei wrthod?

The UK Government—with a few exceptions, such as Michael Meacher—has thrown its weight behind the advancement of genetic engineering. The pressure from the United States has undoubtedly reinforced that support.

In February 2000, *The Observer* reported that it had used the United States freedom of information legislation to discover that while Britain held the presidency of the European Union, Bill Clinton had urged Tony Blair to take immediate action to ease the approval process of genetically-modified organisms in Europe, as it was costing US exporters hundreds of millions of dollars in lost markets. Britain used its presidency to do that. Britain also blocked France and Greece's attempt in 1999 to introduce a moratorium on GM crops throughout the EU, and voted to prevent Austria and Luxembourg from banning GM maize.

Therefore, I am not hopeful that central government is sympathetic to our stance nor our cautious approach to GM crops. We are asked to consider these regulations in light of the danger of infraction proceedings by the European Commission. It has issued a reasoned opinion against the UK for non-compliance, as the Minister outlined. It is also aware of our moves to seek greater separation distances.

The reasoned opinion failed to find its way to us as it got caught up in the log-jam of other reasoned opinions that Whitehall deals with. We know that there are literally thousands lodged there already. Ours was among 1,012 that one official had on her desk. I remain unconvinced by the Minister, and Plaid Cymru will not vote for these regulations. We considered them carefully last time and, for us, little has changed.

Mick Bates: Yet again, the Assembly leads the way, thanks to the partnership agreement. By passing these regulations, the Assembly is acting responsibly, but can still operate a

Mae Llywodraeth y DU—ac eithrio ambell un, fel Michael Meacher—wedi rhoi ei chefnogaeth i ddatblygu peirianeg enetig. Mae'r pwysau o du'r Unol Daleithiau wedi atgyfnerthu'r gefnogaeth honno yn ddi-os.

Ym mis Chwefror 2000, nododd *The Observer* iddo ddefnyddio deddfwriaeth yr Unol Daleithiau ar ryddid gwybodaeth i ddarganfod fod Bill Clinton, tra'r oedd llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd gan Brydain, wedi annog Tony Blair i weithredu ar unwaith i esmwytho'r broses o gymeradwyo organeddau a addaswyd yn enetig yn Ewrop, gan ei fod yn costio cannoedd o filiynau o ddoleri i allforwyr yr UDA mewn marchnadoedd coll. Defnyddiodd Prydain ei llywyddiaeth i wneud hynny. Rhwystrodd Prydain hefyd ymgais Ffrainc a Groeg ym 1999 i gyflwyno gohiriad ar gnydau a addaswyd yn enetig ledled yr UE, gan bleidleisio i atal Awstria a Lwcsembwrg rhag gwahardd india-corn a addaswyd yn enetig.

Felly, nid wyf yn obeithiol bod llywodraeth ganolog yn cydymdeimlo â'n safbwynt na'n hymagwedd bwyllog tuag at gnydau a addaswyd yn enetig. Gofynnir inni ystyried y rheoliadau hyn yng ngoleuni'r perygl y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cymryd camau gorfodi deddfwriaeth. Cyhoeddodd farn resymegol yn erbyn y DU am beidio â chydymffurfio, fel yr amlinellodd y Gweinidog. Mae hefyd yn ymwybodol o'n hymgais i geisio pellteroedd gwahanu mwy.

Methodd y farn resymegol â'n cyrraedd gan iddi gael ei dal yn nhagfa y barnau rhesymegol eraill yr ymdrinnir â hwy gan Whitehall. Gwyddom fod miloedd yn llythrennol yno eisoes. Yr oedd ein barn ni ymhlith 1,012 a oedd gan un swyddog ar ei desg. Nid wyf wedi fy argyhoeddi o hyd gan y Gweinidog, ac ni phleidleisia Plaid Cymru o blaid y rheoliadau hyn. Fe'u hystyriwyd yn ofalus gennym y tro diwethaf ac, i ni, nid oes fawr ddim wedi newid.

Mick Bates: Unwaith eto, mae'r Cynulliad yn arwain y ffordd, diolch i'r cytundeb partneriaeth. Drwy basio'r rheoliadau hyn, mae'r Cynulliad yn ymddwyn mewn ffordd

restrictive policy on GM crops. These regulations will form the basis for future decisions on adding GM seed to the National Listing of Varieties of Agriculture and Vegetable Crops. The Assembly will be able to take a tough stance on these if we choose to do so.

The seeds regulations contain specific provision regarding the processing of GM varieties under the listing and certification regimes. Under the regulations, the national list of varieties, labels attached to seed lots and sale catalogues would have to show which varieties are genetically modified. Furthermore, persons wanting to trial GM crops with part C consents would have to inform the Assembly. That issue has previously caused us great concern. I believe—

Dafydd Wigley *rose*—

The Presiding Officer: Will you give way to Dafydd Wigley? I would not, if I were you.

Mick Bates: Thank you for that advice; I will take it.

Finally, to emphasise my first point, the Assembly is genuinely leading the way. As a manifestation of our leadership in Europe, the Assembly is holding a seminar in Brussels to express its concerns to representatives from member states and regions. That is a welcome development, since it was a Liberal Democrat suggestion. It is an opportunity to canvass support for the Assembly's position and, more importantly, influence EU policy. By voting to approve these seed regulations today, we will enhance our reputation and protect Wales's image. We will protect not only organic farming, but conventional farming in Wales, so that we can use our status in marketing Welsh goods.

Peter Rogers: The Welsh Conservative group will vote to approve these regulations. In doing so, we want to send a message of

gyfrifol, ond gall weithredu polisi cyfyngol ar gnydau a addaswyd yn enetig o hyd. Y rheoliadau hyn a fydd yn ffurfio'r sail ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol ar ychwanegu had a addaswyd yn enetig at y Rhestrau Amrywogaethau Cenedlaethol o Gnydau Amaethyddiaeth a Llysiau. Bydd y Cynulliad yn gallu arddel safiad cadarn ar y rhain, os ydym yn dewis gwneud hynny.

Mae'r rheoliadau hadau yn cynnwys darpariaeth benodol yn ymwneud â phrosesu amrywogaethau a addaswyd yn enetig o dan y trefnau rhestru ac ardystio. O dan y rheoliadau, sef y rhestr amrywogaethau genedlaethol, byddai'n rhaid i'r labeli a atodir i gyfrannau hadau a chatalogau gwerthu ddangos pa amrywogaethau a addaswyd yn enetig. At hynny, byddai'n rhaid i bobl sydd am dreialu cnydau a addaswyd yn enetig â chaniatâd rhan C hysbysu'r Cynulliad. Mae'r mater hwnnw wedi achosi cryn bryder inni yn flaenorol. Credaf—

Dafydd Wigley *a gododd*—

Y Llywydd: A ildiwch i Dafydd Wigley? Nid adawn iddo, pe bawn i yn eich lle.

Mick Bates: Diolch am y cyngor hwnnw; fe'i cymeraf.

Yn olaf, er mwyn pwysleisio fy mhwynt cyntaf, mae'r Cynulliad yn arwain y ffordd yn wirioneddol. Er mwyn arddangos ein harweinyddiaeth yn Ewrop, mae'r Cynulliad yn cynnal seminar ym Mrwsel i fynegi ei bryderon i gynrychiolwyr aelod-wladwriaethau a rhanbarthau. Croesawaf y datblygiad hwnnw, gan mai'r Democratiaid Rhyddfrydol a'i hawgrymodd. Mae'n gyfle i geisio ennyn cefnogaeth i safbwynt y Cynulliad ac, yn bwysicach, i ddylanwadu ar bolisi'r UE. Drwy bleidleisio i gymeradwyo'r rheoliadau hadau hyn heddiw, byddwn yn hyrwyddo ein henw da ac yn diogelu delwedd Cymru. Diogelwn nid yn unig ffermio organig, ond ffermio traddodiadol yng Nghymru, fel y gallwn ddefnyddio ein statws i farchnata nwyddau Cymru.

Peter Rogers: Bydd grŵp Ceidwadwyr Cymru yn pleidleisio o blaid cymeradwyo'r rheoliadau hyn. Drwy wneud hynny, yr ydym

support to our organic producers, whose industry we want to develop. However, Members must be conscious of our responsibility under European law, which requires our compliance. Opposing these regulations runs a risk of incurring severe financial penalties for the Assembly. It is important that we choose which battles to fight if we are to win our war. I am not sure that we need to be detained on this fighting field for much longer. It is important that we—

Glyn Davies *rose*—

The Presiding Officer: Order. As Members will appreciate, I am trying to get us through this business sensibly because there are two major debates to follow, one of which has already been postponed once. I want that to be accommodated. One Member took my advice and did not give way to an intervention. I would be grateful if other Members would not give way to interventions. I would not have to speak on these matters then.

Peter Rogers: Thank you for your guidance.

It is important that we enable the Minister to move forward within our powers in seeking a more restrictive framework on genetic modification. That said, I have a few questions for the Minister. First, will he clarify the situation with regard to separation distances? Is there scope for increasing the statutory distances between conventional and organic producers and GM sites? Will he also clarify what would happen if the owner of a holding neighbouring GM site wanted to turn it organic eventually?

Secondly, will he report on his input into the development of the liability regime and agree that, while we need to ensure full support for organic farmers, liability should rest with the biotechnology companies, rather than the farmer?

Finally, we support the call for thresholds to be set as low as technically possible, but will the Minister explain why he is not taking

am anfon neges o gefnogaeth i'n cynhyrchwyr organig, yr hoffem ddatblygu eu diwydiant. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Aelodau fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb o dan gyfraith Ewrop, sy'n ei gwneud yn ofynnol inni gydymffurfio. Mae gwrthwynebu'r rheoliadau hyn yn rhoi'r Cynulliad mewn perygl o gael ei gosbi'n ddifrifol yn ariannol. Mae'n bwysig ein bod yn dewis pa frwydrau i'w hymladd os ydym am ennill ein rhyfel. Nid wyf yn argyhoeddedig bod angen inni dindroi ar y maes brwydro hwn lawer yn hwy. Mae'n bwysig ein bod—

Glyn Davies *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Fel y bydd yr Aelodau yn gwerthfawrogi, ceisiaf fwrw drwy'r busnes hwn yn synhwyrol gan fod dwy ddatl bwysig i ddilyn, y mae un ohonynt eisoes wedi'i gohirio unwaith. Hoffwn roi amser i honno. Cymerodd un Aelod fy nghyngor gan wrthod ildio i ymyriad. Byddwn yn ddiolchgar pe nad ildiai Aelodau eraill i ymyriadau. Ni fyddai'n rhaid imi siarad ar y materion hyn wedyn.

Peter Rogers: Diolch am eich arweiniad.

Mae'n bwysig ein bod yn galluogi'r Gweinidog i symud ymlaen o fewn ein pwerau i geisio fframwaith mwy cyfyngol ar addasu genetig. Wedi dweud hynny, mae gennyf ychydig o gwestiynau i'r Gweinidog. Yn gyntaf, a eglura'r sefyllfa o ran pellteroedd gwahanu? A oes lle i gynyddu'r pellteroedd statudol rhwng cynhyrchwyr confensiynol ac organig a safleoedd a addaswyd yn enetig? A eglura hefyd beth a ddigwyddai pe bai perchennog safle cynhaliol cyfagos a addaswyd yn enetig am ei droi'n organig yn y pen draw?

Yn ail, a gyflwyno adroddiad ar ei fewnbwn i'r gwaith o ddatblygu'r drefn atebolrwydd a chytuno, tra bod angen inni sicrhau cefnogaeth lwyr i ffermwyr organig, mai'r cwmnïau biodechnoleg ddylai fod yn atebol, yn hytrach na'r ffermwr?

Yn olaf, cefnogwn yr alwad i osod trothwyon cyn ised ag sy'n dechnegol bosibl, ond a esbonia'r Gweinidog pam nad yw'n cymryd

action on ensuring full traceability and labelling in general, specifically with regard to foreign meat imports and smuggling?

camau i sicrhau olrheiniadwyedd llawn a labelu yn gyffredinol, yn benodol o ystyried smyglo a mewnfurio cig tramor?

Has the Minister examined what further scope for regulations there may be for the Assembly under section 16 of the Food Safety Act 1990? Will he also pay close attention to section 16(a), which states that the Minister has powers to prohibit or regulate in food sources the presence of

A ystyriodd y Gweinidog y lle sydd, o bosibl, i'r Cynulliad lunio rheoliadau pellach, o dan adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990? A rydd sylw arbennig hefyd i adran 16(a), sy'n nodi bod gan y Gweinidog bwerau i wahardd neu reoleiddio presenoldeb y canlynol mewn ffynonellau bwyd

'any specified substance, or any substance of any specified class'.

'unrhyw sylwedd penodol, neu unrhyw sylwedd o ddsbarth penodol'.

Will he also look at section 16(f), which enables the Minister to prohibit or regulate

A edrycha hefyd ar adran 16(f), sy'n galluogi'r Gweinidog i wahardd neu reoleiddio'r

'the carrying out of commercial operations...for the purpose of protecting or promoting the interests of consumers'?

'gweithrediadau masnachol a gyflawnir...at ddiben diogelu neu hyrwyddo buddiannau cwsmeriaid'?

3.10 p.m.

David Davies: I want to put on record that I, and all other Conservative Members, oppose GM crops as much as any other Assembly Member. We will vote in favour of these regulations because it will cost Wales 500,000 euros a year if we do not. The real hypocrites here are the people who, on the one hand want to subsume even more powers and hand over yet more sovereignty to Brussels, and on the other complain every time Brussels tries to impose unacceptable rules upon us. Wales has said 'no' to GM crops, but Brussels has said 'yes'. Therefore, we must follow Brussels. Let us face it, we seem to have a GM-modified European Commission at present, which is rapidly growing out of control and putting aside all local growth. Carwyn was right when he said that the wolves are at the door. We are handing more powers over to Brussels, so do not complain when it starts using those powers against us. On GM crops, Europe and everything else, we reap what we sow.

David Davies: Hoffwn gofnodi fy mod i, a phob Aelod Ceidwadol arall, yn gwrthwynebu cynydau a addaswyd yn enetig gymaint ag unrhyw Aelod arall o'r Cynulliad. Pleidleisiwn o blaid y rheoliadau hyn gan y costia 500,000 euro i Gymru oni wnawn hynny. Y rhagrithwyr gwirioneddol yma yw'r sawl sydd, ar y naill law am ogynnwys mwy o bwerau fyth a rhoi mwy o sofraniaeth fyth i Frwsel, ac ar y llall yn cwyno bob tro y ceisia Brwsel orfodi rheolau annerbyniol arnom. Dywedodd Cymru 'na' i gnydau a addaswyd yn enetig, ond dywedodd Brwsel 'ie'. Felly, rhaid inni ddilyn Brwsel. Rhaid inni wynebu'r ffaith bod gennym, i bob golwg, Gomisiwn Ewropeaidd a addaswyd yn enetig ar hyn o bryd, sy'n mynd allan o reolaeth yn gyflym gan roi pob tyfiant lleol i'r naill ochr. Yr oedd Carwyn yn iawn pan ddywedodd fod y bleiddiaid wrth y drws. Traddodwn fwy o bwerau i Frwsel, felly peidiwch â chwyno pan ddechreua ddefnyddio'r pwerau hynny yn ein herbryn. O ran cynydau a addaswyd yn enetig, Ewrop a phopeth arall, medwn yr hyn a heuwn.

The Minister for Rural Affairs (Carwyn Jones): We must realise that this is not a fight with anybody. The UK Government has stepped to one side and is not interfering in

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones): Rhaid inni sylweddoli nad ydym yn brwydro â neb yn hyn o beth. Safodd Llywodraeth y DU yn ôl heb ymyrryd

any way. As far as the European Commission is concerned, its rules are agreed upon by all member states and are not imposed on any member state. Nevertheless, we are members of the club, so we must play by the rules. That is what we are doing in ensuring that we make these regulations—if the Assembly so wishes.

Peter Rogers raised several points on separation distances and so on. Those matters are for discussion, and a new directive is being considered. The article 16 notification means that the question of how organic and GM crops inter-relate and what their relationship with each other should be is being discussed at present. We are seeking to influence that, in part through the seminar on 27 November.

In terms of liability, the European Commission has said that liability for GM crops will lie primarily with the companies, not the growers. That will mean that, as far as the growers are concerned, they will have redress against, if you like, a body with more money than they have. It clarifies a situation that has been vague for some time. Our initial viewpoint was that the grower would be liable. That is now being clarified. All these matters are being considered.

Food safety is also discussed with the European Commissioner and, in the context of GM crops, it will be discussed next year. Members will remember that the Assembly wanted to influence the debate in Europe because that is where it is being fought and can be won. We are doing that, in terms of the article 16 directive and by way of drawing in other levels of government across Europe. Other regional European Governments have shown an interest in the seminar on 27 November. We must put our viewpoint to other European Governments to win their support. As I have said, it is in Europe that the battle is fought and where our influence must be felt.

To return to what I said at the start, we must play by the rules of the game. Infraction

mewn un modd. O ran y Comisiwn Ewropeaidd, cytunodd yr aelod-wladwriaethau i gyd ar ei reolau ac nis gorfodir ar un aelod-wladwriaeth. Serch hynny, yr ydym yn aelodau o'r clwb, felly rhaid inni chwarae yn unol â'r rheolau. Dyna a wnawn wrth sicrhau ein bod yn llunio'r rheoliadau hyn—os dymuna'r Cynulliad wneud hynny.

Cododd Peter Rogers sawl pwynt ar bellteroedd gwahanu ac ati. Mae'r materion hynny i'w trafod, ac mae cyfarwyddeb newydd wrthi'n cael ei hystyried. Mae hysbysiad erthygl 16 yn golygu bod y ffordd y mae cynydau organig a chnydau a addaswyd yn enetig yn cydberthyn a'r hyn a ddylai nodweddu eu cysylltiad â'i gilydd wrthi'n cael ei drafod ar hyn o bryd. Ceisiwn ddylanwadu ar hynny, yn rhannol drwy'r seminar ar 27 Tachwedd.

O ran atebolrwydd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud mai'r cwmnïau fydd yn bennaf gyfrifol am gnydau a addaswyd yn enetig, nid y tyfwyr. Golyga hynny, o ran y tyfwyr, y cânt iawndal, os hoffwch, yn erbyn corff sydd â mwy o arian na hwy. Eglura sefyllfa a fu'n amwys ers peth amser. Ein safbwynt cychwynnol oedd y byddai'r tyfwr yn gyfrifol. Mae hynny wrthi'n cael ei egluro erbyn hyn. Mae'r materion hyn i gyd wrthi'n cael eu hystyried.

Mae diogelwch bwyd hefyd yn cael ei drafod gyda Chomisiynydd Ewrop ac, yng nghydestun cynydau a addaswyd yn enetig, caiff ei drafod y flwyddyn nesaf. Bydd yr Aelodau yn cofio bod y Cynulliad am ddylanwadu ar y ddadl yn Ewrop gan mai yno y caiff ei brwydro ac y gellir ei hennill. Yr ydym yn gwneud hynny, yn nhermau cyfarwyddeb erthygl 16 a thrwy gynnwys lefelau llywodraeth eraill ar draws Ewrop. Dangosodd Llywodraethau Ewropeaidd rhanbarthol eraill ddiddordeb yn y seminar ar 27 Tachwedd. Rhaid inni gyflwyno ein safbwynt i Lywodraethau Ewropeaidd eraill er mwyn ennill eu cefnogaeth. Fel y dywedais, yn Ewrop y caiff y frwydr ei hymlladd ac yno y mae'n rhaid inni fod yn ddylanwadol.

I ddychwelyd at yr hyn a ddywedais ar y dechrau, rhaid inni chwarae yn unol â

proceedings have been launched, the consequence of which is a daily fine. We cannot justify that to the people of Wales. We have the most restrictive policy possible and we have a viewpoint that we want to put forward. However, why should we put ourselves in a position whereby the Assembly could be fined, when there are other ways of putting forward that viewpoint? Passing these regulations does not weaken our position in any way and it does not make it more or less likely that GM crops will be grown in Wales. If we do not pass them, we will be fined and the UK Government will not pay. The Assembly will be responsible, which is why the responsible action to take at this stage is to pass these regulations. Other avenues are being pursued. The issue of GM crops is not dead and we will continue to ensure that we seek to influence those in Europe whom we need as allies.

rheolau'r gêm. Dechreuwyd cymryd camau gorfodi deddfwriaeth, a chawn ein dirwyo'n ddyddiol o ganlyniad i hynny. Ni allwn gyfiawnhau hynny gerbron pobl Cymru. Ni sydd â'r polisi mwyaf cyfyngol posibl ac mae gennym safbwynt yr ydym am ei gyflwyno. Fodd bynnag, pam y dylem ein rhoi ein hunain mewn sefyllfa lle y gellid dirwyo'r Cynulliad, pan fo ffyrdd eraill o gyflwyno'r safbwynt hwnnw? Nid yw cymeradwyo'r rheoliadau hyn yn gwanhau ein sefyllfa mewn unrhyw ffordd ac nid yw'n ei gwneud yn fwy nac yn llai tebygol y caiff cynydau a addaswyd yn enetig eu tyfu yng Nghymru. Oni chymeradwywn hwy, cawn ein dirwyo ac ni fydd Llywodraeth y DU yn talu. Y Cynulliad fydd yn gyfrifol, a dyna pam mai'r cam cyfrifol i'w gymryd ar hyn o bryd yw cymeradwyo'r rheoliadau hyn. Ymchwilir i bosibiliadau eraill. Nid yw mater cynydau a addaswyd yn enetig ar ben a pharhawn i sicrhau ein bod yn ceisio dylanwadu ar y rheini yn Ewrop y mae angen inni ymgynghreirio â hwy.

Cynnig: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 14.

Motion: For 36, Abstain 0, Against 14.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Ron
Essex, Sue
Evans, Delyth
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Melding, David
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Dafis, Cynog
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Hancock, Brian
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Phil

Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Richards, Rod
 Rogers, Peter
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Newid Aelodaeth y Cyngor Partneriaeth Busnes Amendment of the Membership of the Business Partnership Council

The First Minister: I propose that

the National Assembly

approves that there will be a broadly based, cross-party group, meeting at least twice a year, including 11 Assembly Members, two representatives of the social economy representing the co-operative and community enterprise sectors and at least five representatives each of Business Wales and Wales Trades Union Congress.

The proposal is to replace paragraph 11 of 'Consultation for Business', which listed the organisations to be represented on the Business Partnership Council and the frequency of the council's meetings. 'Consultation for Business' was approved by a resolution of Plenary on 30 September 1999 and was laid in the Table Office on 24 September 1999. (NDM794)

The Business Partnership Council is an advisory body that promotes co-operation between the Assembly and the business community. It is our main vehicle for testing and developing our policies with the business community and is invaluable for informing our judgments on the health of and prospects for the Welsh economy, and the impact of any rules, regulations or policies that we may make.

At present, the agreed composition of the council provides for two representatives of the Wales Trades Union Congress, and at least four members from Business Wales. In practice, nine Business Wales organisations are represented at meetings. As a consequence, the representation of business and social partners is out of balance. The Business Wales organisations have not raised

Prif Weinidog Cymru: Cynigiau fod

y Cynulliad Cenedlaethol

yn cymeradwyo y bydd cyfarfod o grŵp eang ei sail, trawsbleidiol yn cyfarfod o leiaf ddwy waith y flwyddyn, gan gynnwys 11 o Aelodau'r Cynulliad, dau gynrychiolydd o'r economi cymdeithasol sy'n cynrychioli sectorau menter cydweithredol a chymunedol ac o leiaf pum cynrychiolydd bob un o Busnes Cymru a TUC Cymru.

Mae'r cynnig yn disodli paragraff 11 o'r 'Ymgynghoriad â Busnes' a oedd yn rhestru'r sefydliadau i'w cynrychioli ar y Cyngor Partneriaeth Busnes ac amllder cyfarfodydd y Cyngor. Cymeradwywyd yr 'Ymgynghoriad â Busnes' gan benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Medi 1999 ac fe'i gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Medi 1999. (NDM794)

Corff ymgynghorol yw'r Cyngor Partneriaeth Busnes sy'n hyrwyddo cydweithredu rhwng y Cynulliad a'r gymuned fusnes. Hwn yw ein prif gyfrwng ar gyfer profi a datblygu ein polisiau â'r gymuned fusnes ac mae'n amhrisiadwy ar gyfer llywio ein barn ar iechyd economi Cymru a'r rhagolygon ar ei chyfer, ynghyd ag effaith rheolau, rheoliadau neu bolisiau a lunnir gennym.

Ar hyn o bryd, mae cyfansoddiad y cyngor fel y cytunwyd arno yn cynnwys dau gynrychiolydd o TUC Cymru, a phedwar aelod o leiaf o Fusnes Cymru. Yn ymarferol, cynrychiolir naw o sefydliadau Busnes Cymru yn y cyfarfodydd. O ganlyniad, mae'r partneriaid busnes a'r partneriaid cymdeithasol a gynrychiolir yn anghyfartal. Nid yw sefydliadau Busnes Cymru wedi

any objections to the proposal to increase Wales TUC representation.

The amendment of paragraph 11 of 'Consultation with Business' to enable each side to have at least five seats on the council would not only serve the interests of equity, but also give a clear signal of our commitment to balanced dialogue with business and social partners. The amendment also regularises the number of meetings held each year. At present, under the rules set out in 'Consultation with Business' the Business Partnership Council meets twice a year. However, in practice we meet three or four times a year, and this amendment regularises that practice by adding the words 'at least'.

Phil Williams: Plaid Cymru supports these changes. The extra representation of the TUC is important, as is the opportunity to meet in what is developing into an important partnership.

Christine Chapman: I welcome this amendment because it sends a clear message that the Assembly needs to work closely with key groups such as the trade unions, the business community and community enterprises. Such moves signal a clear break with the past. Before the establishment of the Assembly, groups may have been consulted, but were not necessarily listened to. This new inclusivity is key to the new model of governance in Wales.

I will pay particular attention to the private sector. We have all been aware of the need to ensure that the business sector plays a key part in policy making in Wales. In the Objective 1 area much progress has been made to ensure that the private sector's influence is strong. The private sector is part of the decision-making process, which is shown by the fact that it is working with commitment, within the new partnership arrangements taking the Objective 1 programme forward. I pay tribute to the private sector's excellent work.

We should also remind ourselves that the private sector benefits from Objective 1. I welcome the figures that were given in last

gwrthwynebu'r cynnig i gynyddu cynrychiolaeth TUC Cymru o gwbl.

Byddai newid paragraff 11 o'r 'Ymgynghoriad â Busnes' er mwyn galluogi'r ddwy ochr i gael pum sedd o leiaf ar y cyngor nid yn unig yn sicrhau tegwch, ond hefyd yn arwydd clir o'n hymrwymiad i ddeialog gytbwys gyda phartneriaid busnes a phartneriaid cymdeithasol. Mae'r newid hefyd yn rheoleiddio nifer y cyfarfodydd a gynhelir bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, o dan y rheolau a nodwyd yn yr 'Ymgynghoriad â Busnes' mae'r Cyngor Partneriaeth Busnes yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Fodd bynnag, yn ymarferol yr ydym yn cyfarfod deirgwaith neu bedair y flwyddyn, ac mae'r newid hwn yn rheoleiddio'r arfer hwnnw drwy ychwanegu'r geiriau 'o leiaf'.

Phil Williams: Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r newidiadau hyn. Mae cynrychiolaeth ychwanegol i'r TUC yn bwysig, fel y mae'r cyfle i gyfarfod yn yr hyn sy'n datblygu'n bartneriaeth bwysig.

Christine Chapman: Croesawaf y newid hwn gan ei fod yn anfon neges glir bod angen i'r Cynulliad gydweithio'n agos â grwpiau allweddol fel yr undebau llafur, y gymuned fusnes a mentrau cymunedol. Mae camau o'r fath yn arwydd o doriad clir â'r gorffennol. Cyn sefydlu'r Cynulliad, efallai yr ymgynghorwyd â grwpiau, ond ni wrandawyd arnynt o anghenraid. Mae'r cynwysoldeb newydd hwn yn allweddol i fodel newydd llywodraethu yng Nghymru.

Rhoddaf sylw arbennig i'r sector preifat. Buom oll yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y sector busnes yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio polisiau yng Nghymru. Yn ardal Amcan 1 gwnaethpwyd cryn gynnydd i sicrhau bod dylanwad y sector preifat yn gryf. Mae'r sector preifat yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, a ddangosir gan y ffaith ei fod yn gweithio gydag ymrwymiad, o fewn y trefniadau partneriaeth newydd, gan ddatblygu rhaglen Amcan 1. Talaf deyrnged i waith ardderchog y sector preifat.

Dylem hefyd ein hatgoffa ein hunain bod y sector preifat yn elwa o Amcan 1. Croesawaf y ffigurau a roddwyd yng nghyfarfod y

week's Economic Development Committee meeting, which showed that nearly half of the approved European regional development fund projects had either come from the private sector, or supported the private sector. We should remember that we are still only in the first half of the Objective 1 programme.

Last week's news about Finance Wales was excellent. The First Minister announced that £21 million will be drawn down from Europe. That will provide a huge boost to business—to small, indigenous businesses—in particular. That was a key aim of the Assembly. We have a good foundation on which to work. It will be a challenge for all of us to maintain the momentum in engaging effectively with the private sector.

3.20 p.m.

Alun Cairns: The Welsh Conservative Party is happy to support this motion but calls on the First Minister to heed the calls of business in terms of the business rates discussed earlier. He should also listen to the concerns of businesses when they are expressed jointly, particularly in co-operation with the Trades Union Congress, as happened recently when the private sector threatened to withdraw from Objective 1 because of its concerns about the bureaucracy involved. We support the amendment and hope that the First Minister will heed the calls.

Pwyllgor Datblygu Economaidd yr wythnos diwethaf, a ddangosodd fod bron i hanner prosiectau cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop a gymeradwywyd naill ai wedi dod o'r sector preifat, neu'n cefnogi'r sector preifat. Dylem gofio mai dim ond yn hanner cyntaf rhaglen Amcan 1 yr ydym o hyd.

Yr oedd newyddion yr wythnos diwethaf am Gyllid Cymru yn ardderchog. Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y daw £21 miliwn o Ewrop. Bydd hynny yn hwb aruthrol i fusnes—i fusnesau cynhenid, bach—yn benodol. Yr oedd hynny yn un o nodau allweddol y Cynulliad. Mae gennym sylfaen dda i weithio arni. Bydd cynnal y momentwm wrth ymdrin yn effeithiol â'r sector preifat yn her inni i gyd.

Alun Cairns: Mae Plaid Geidwadol Cymru yn hapus i gefnogi'r cynnig hwn ond yn galw ar Brif Weinidog Cymru i ystyried y galwadau busnes yn nhermau'r ardrethi busnes a drafodwyd yn gynharach. Dylai wrando hefyd ar bryderon busnesau pan gânt eu mynegi ar y cyd, yn benodol mewn cydweithrediad â'r TUC, fel y digwyddodd yn ddiweddar pan fgythiodd y sector preifat dynnu'n ôl o Amcan 1 oherwydd ei bryderon ynghylch y fiwrocratiaeth a oedd ynghlwm â hynny. Cefnogwn y newid a gobeithiwn y bydd Prif Weinidog Cymru yn ystyried y galwadau.

*Cynnig: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue

Evans, Delyth
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Richards, Rod
 Rogers, Peter
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig.

Motion carried.

Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Y Sefyllfa Ryngwladol Bresennol **Minority Party Debate (Plaid Cymru): The Current International Situation**

Y Llywydd: Gan fod dros 20 o Aelodau wedi mynegi awydd i siarad yn y ddadl hon, fe gyfyngaf amser y siaradwyr fel a ganlyn: 12 munud ar gyfer yr areithiau agor a chloi, wyth munud i'r Gweinidog sy'n siarad ar ran Llywodraeth Cymru, pum munud i brif siaradwyr y grŵp Ceidwadol a grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, a thri munud yr un i'r gweddill hyd at, o bosibl, 10 o siaradwyr eraill. Defnyddiaf y botwm coch i ddiffodd meicroffonau Aelodau os ânt dros yr amser. Byddaf hefyd yn galw'r siaradwyr am yn ail â'r blaid sydd yn cynnal y ddadl, yn ôl ein harfer.

Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enwau Andrew Davies, Peter Black a William Graham.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiaf fod

The Presiding Officer: As over 20 Members have expressed a desire to speak in this debate, I will limit each speaker's time as follows: 12 minutes for the opening and closing speeches, eight minutes for the Minister speaking on behalf of the Government of Wales, five minutes for the Conservative and Liberal Democrat groups' main speakers, and three minutes each for up to 10 other speakers. I will use the red button to turn Members' microphones off if they go over time. Also, I will call the speakers alternately with the party holding the debate, according to our custom.

I have selected amendment 1 in the names of Andrew Davies, Peter Black and William Graham.

Ieuan Wyn Jones: I propose that

y Cynulliad Cenedlaethol

the National Assembly

yn ystyried effaith y sefyllfa ryngwladol bresennol ar Gymru. (NDM795)

considers the impact of the current international situation on Wales. (NDM795)

Siaradaf am oddeutu wyth munud ac, o dan yr amgylchiadau, ni fyddaf yn derbyn ymyriadau, er y teimlaf fod ymyriadau yn rhan bwysig o drafodion y Cynulliad. Fodd bynnag, gan fod cynifer am siarad heddiw teimlaf mai dyna'r ffordd orau o symud ymlaen.

I will speak for around eight minutes and, under the circumstances, I shall not accept interventions, though I feel that interventions are an important part of the Assembly's proceedings. However, since so many wish to speak today I feel that that is the best way to proceed.

Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn cael cyfle i drafod effaith y sefyllfa ryngwladol bresennol ar Gymru. Dyna pam y cawsom ein siomi'n enbyd yr wythnos diwethaf gyda'r penderfyniad i ganiatáu datganiad gan y Prif Weinidog yn hytrach na dadl. Ein bwriad, fel y gŵyr y Cynulliad, oedd cynnal dadl o dan Reol Sefydlog Rhif 6.9. Byddai hynny wedi rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad fynegi barn ar y mater hwn yr wythnos diwethaf. Byddai hynny wedi ymdebygu i ddadl ar ohiriad yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, am ryw reswm nad yw'n glir, pleidleisiodd mwyafrif y Cynulliad yn erbyn cynnal dadl bryd hynny. O ganlyniad, cawn gynnig heddiw ar yr union eiriau y byddem wedi eu defnyddio yr wythnos diwethaf. Yr wythnos hon, wrth gwrs, mae tair plaid arall y Cynulliad wedi cyflwyno gwelliant yn gofyn inni gefnogi gweithrediadau a safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Ni allwn wneud hynny fel plaid am resymau a egluraf yn awr. Fodd bynnag, pwysleisiaf nad Plaid Cymru a benderfynodd gyflwyno gwelliant i'r cynnig a fydd yn dangos gwahaniaeth barn yn y Cynulliad.

It is important that the Assembly has an opportunity to discuss the effect of the present international situation on Wales. That is why we were so disappointed last week by the decision to allow a statement from the First Minister rather than a debate. Our intention, as the Assembly knows, was to hold a debate under Standing Order No. 6.9. That would have provided an opportunity for Members to voice their opinion on this matter last week. It would have been similar to an adjournment debate in the House of Commons. However, for some unknown reason, the majority of the Assembly voted against holding a debate at that time. Consequently, we have a motion today that is a carbon copy of that which would have been used last week. This week, of course, the three other parties in the Assembly have tabled an amendment requesting that we support the actions and approach of the United Kingdom Government. We cannot do that as a party for reasons that I will explain now. However, I wish to make it clear that an amendment expressing differences within the Assembly was not of Plaid Cymru's making.

Wythnos wedi datganiad Rhodri Morgan, mae'r sefyllfa ryngwladol wedi gwaethygu yn arw. Mae llawer o'r hyn a ddywedais am yr argyfwng dyngarol a oedd yn wynebu pobl Afghanistan yn fwy gwir heddiw. Mae Oxfam yn amcangyfrif bod oddeutu 7.5 miliwn o bobl Afghanistan yn wynebu anawsterau difrifol. Mae 2.5 miliwn o'r rheini yn wynebu newyn os na ddaw'r bomio i ben cyn y gaeaf. Rhaid caniatáu i dryciau gludo llwythi digonol o fwyd i'r ardaloedd lle mae ei angen fwyaf.

The international situation has worsened considerably since Rhodri Morgan's statement last week. Much of what I said about the humanitarian crisis facing the people of Afghanistan is even more pertinent today. Oxfam estimates that around 7.5 million Afghans are facing serious difficulties. Two and a half million of those face starvation if the bombing does not cease before winter. Trucks must be allowed to transport sufficient food stocks to the areas where the need is greatest.

Yr oedd yn arwyddocaol bod Oxfam a Chymorth Cristnogol yn galw am roi terfyn

It was significant that Oxfam and Christian Aid called for a cessation of the bombing last

ar y bomio yr wythnos diwethaf. Maent yn gwybod yn well na'r rhan fwyaf ohonom am ddifrifoldeb yr argyfwng a'r rhwystr i'w gwaith a achosir gan y bomio.

Dyma'r tro cyntaf i Oxfam alw ar lywodraeth i roi'r gorau i weithredu milwrol. Yr wyf yn yn siŵr na fyddai wedi gwneud hynny ar chwarae bach. Mae Oxfam a Chymorth Cristnogol yn dweud wrthym mai saib yn y gweithredu milwrol yw'r unig obaith i ddosbarthu bwyd cyn i lawer o ardaloedd Afghanistan gael eu cau i ffwrdd gan eira.

Yr ydym, fel plaid, wedi gwneud ein safbwynt yn glir ar y pwnc hwn ers pythefnos bellach. Er mai ni oedd yr unig blaid yn y brif ffrwd wleidyddol i ddadlau yn erbyn y bomio ar y pryd, yr wyf yn falch—ac yr wyf yn siŵr bod Aelodau eraill yn falch hefyd—o weld nifer cynyddol o wleidyddion Llafur a Democratiaid Rhyddfrydol bellach yn mynegi'r un farn. Credaf fod llawer mwy yn cytuno â ni yn dawel bach a, dros y dyddiau nesaf, ni fyddwn yn synnu o'u clywed yn lleisio hynny.

Mae'r ffaith bod yr argyfwng dyngarol wedi dwysáu yn rheswm ynddo'i hun dros ymbwylo, ond mae rheswm pellach. Mae'r sefyllfa yn y dwyrain canol wedi gwaethygu yn ystod yr wythnos a gwelsom yr hyn sydd wedi digwydd rhwng Israel a Phalestina. Mae sefyllfa beryglus yn gwaethygu. Mae gennym ni hefyd ofnau ynglŷn â'r posibilrwydd o ymosodiadau dialgar ar y gorllewin, gan gynnwys ymosodiadau cemegol neu fiolegol. Nid ydym am ddychryn pobl, ond byddem yn croesawu sylwadau'r Prif Weinidog ar sut y byddai Cymru yn ymateb i unrhyw ymosodiad, pe byddai hynny yn digwydd.

As a result of the current bombing campaign in Afghanistan, the plight of innocent civilians is worsening daily. In Afghanistan, 2.5 million people face death by starvation unless they are provided urgently with food and shelter. Although some food is reaching the world health programme warehouses, albeit less than half the required amount, aid agencies such as Oxfam and Christian Aid tell us that their warehouses are empty. No truck drivers will carry the food from the WHP depots because of the current bombing campaign. Therefore, although some food is

week. They understand the gravity of the crisis and have first-hand experience of the disruption caused by the bombing.

This is the first time that Oxfam has called on a government to cease military action. I am sure that it would not have done so lightly. Oxfam and Christian Aid tells us that a pause in the military action is the only hope if food is to be distributed before many areas in Afghanistan are cut off by snow.

We, as a party, made our views known on this issue a fortnight ago. Although we were the only mainstream political party to argue against the bombing at the time, I am pleased—and I am sure that other Members are also pleased—to see an increasing number of Labour and Liberal Democrat politicians now expressing the same opinion. I believe that, privately, many more agree with us and, over the next few days, I would not be surprised to hear them say so.

The fact that the humanitarian crisis has intensified is, in itself, a reason for us to practise caution, but there is another reason. The situation in the middle east has worsened during the week and we have seen what has happened between Israel and Palestine. A dangerous situation is worsening. We also fear revenge attacks on the west, including chemical or biological attacks. We do not want to frighten people, but we would welcome the First Minister's views on how Wales would respond to any attack, were that to happen.

O ganlyniad i'r ymgyrch fomio bresennol yn Afghanistan, mae trafferthion dinasyddion diniwed yn gwaethygu'n feunyddiol. Yn Afghanistan, bydd 2.5 miliwn o bobl yn marw o newyn os na chânt fwyd a lloches ar unwaith. Er bod rhywfaint o fwyd yn cyrraedd storfeydd rhaglen iechyd y byd, er mai dim ond hanner y bwyd sydd ei angen yw hynny, mae asiantaethau cymorth fel Oxfam a Chymorth Cristnogol yn dweud wrthym fod eu storfeydd yn wag. Nid yw gyrrwyr lorïau yn fodlon cludo'r bwyd o storfeydd Rhaglen Iechyd y Byd oherwydd yr

getting into Afghanistan, very little, if any, is reaching the people who desperately need it. According to Christian Aid, 600 people have already died from starvation in that country. If we are to avoid the worst humanitarian disaster that the world has seen in modern times, the bombing must stop to allow food and shelter to reach the starving millions.

To put the scale of the crisis into context, it is much worse than that in Ethiopia in the 1980s. Unless food and shelter is made available urgently, a number of people equivalent to the population of Wales will starve to death by the end of the winter. People are fleeing the cities and urban centres because of the bombing campaign. In some cities, 80 per cent of the population have left. Most of them are heading for the hills. Dropping food from aircraft is ineffective and dangerous. Afghanistan is the most heavily mined country on earth. There are land mines everywhere and food parcels are being dropped indiscriminately. Many people displaced by the bombing are desperate for food, and have no idea where the land mines are located. Unfortunately, many people are being killed attempting to collect the food that is meant to keep them alive.

As a columnist in *The Guardian* admitted yesterday,

'Bombing fuel dumps, water systems, aid depots and roads cannot avoid pushing a fragile country like Afghanistan into outright catastrophe and it was absurd to have ever thought that anything else could be true.'

I have already described the extent to which this humanitarian crisis has worsened since last week and how the worsening crisis in the middle east calls for further caution by the international community. Plaid Cymru called for a halt in the bombing almost two weeks ago. The situation is now worse, and it is good to see an increasing number of Labour and Liberal Democrat MPs in Westminster calling for the bombing to be halted. I believe that an even greater number of them, and Assembly Members, share our unease at the scale of the current military conflict.

ymgyrch fomio bresennol. Felly, er bod rhywfaint o fwyd yn cyrraedd Afghanistan, bach iawn, os o gwbl, sy'n cyrraedd y bobl sydd ei angen yn ddybryd. Yn ôl Cymorth Cristnogol, mae 600 o bobl eisoes wedi marw o newyn yn y wlad honno. Os ydym am osgoi'r drychineb ddyngarol waethaf a welodd y byd yn yr oes fodern, rhaid i'r bomio ddod i ben er mwyn galluogi i fwyd a lloches gyrraedd y milynau newynog.

I roi maint yr argyfwng yn ei gyd-destun, mae'n llawer gwaeth na'r argyfwng a welwyd yn Ethiopia yn yr 1980au. Oni ddarperir bwyd a lloches ar unwaith, bydd yr un nifer o bobl â phoblogaeth Cymru yn marw o newyn erbyn diwedd y gaeaf. Mae pobl yn dianc o'r dinasoedd a'r canolfannau trefol oherwydd yr ymgyrch fomio. Mewn rhai dinasoedd, mae 80 y cant o'r boblogaeth wedi gadael. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn anelu at y mynyddoedd. Nid yw gollwng bwyd o awyrennau yn effeithiol ac mae'n beryglus. Afghanistan yw'r wlad sydd â'r nifer uchaf o ffrwydron tir yn y byd. Mae ffrwydron tir ym mhob man ac mae'r parseli bwyd yn cael eu gollwng ar hap. Mae angen bwyd yn enbyd ar nifer o'r bobl a ddadleolwyd gan y bomio, ac nid oes ganddynt syniad o leoliad y ffrwydron tir. Yn anffodus, mae nifer o bobl yn cael eu lladd wrth iddynt geisio casglu'r bwyd a ddylai fod yn eu cadw'n fyw.

Fel y cyfaddefodd colofnydd yn *The Guardian* ddoe,

Yr wyf eisoes wedi disgrifio i ba raddau y mae'r argyfwng dyngarol hwn wedi gwaethygu ers yr wythnos diwethaf a'r angen am fwy o bwyll gan y gymuned ryngwladol wrth i'r argyfwng yn y dwyrain canol waethygu. Gofynnodd Plaid Cymru iddynt roi'r gorau i fomio bron i bythefnos yn ôl. Mae'r sefyllfa'n waeth erbyn hyn, ac mae'n dda gweld nifer cynyddol o AS y blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn gofyn am atal y bomio. Credaf fod llawer mwy ohonynt, ac Aelodau'r Cynulliad, yn rhannu ein pryder ynglŷn â maint y gwrthdaro milwrol presennol.

Does our opposition to the bombing mean that military action is not justified under any circumstances? Of course not. We defer to no-one in our condemnation of the Al-Qaeda terrorist network and the atrocities perpetrated in the United States. We have accepted that military action may form part of the response to those atrocities. However, military action on the ground must be sanctioned by the United Nations and designed to bring the terrorists to justice and to dismantle the Al-Qaeda network.

3.30 p.m.

I turn to the amendment. We would have no problem with a broad statement expressing general support, in principle, for the fight against terrorism. When it comes to choosing between the international coalition and the need to destroy terrorism, Osama Bin Laden and the Al-Qaeda network, there is no question of with whom we side. However, amendment 1 goes much further than that. It expresses support for the steps that have already been taken, which include the last two weeks of relentless bombing. If we supported this amendment, it would make our declared opposition to the bombing utterly meaningless. It would also be sheer hypocrisy on our part. We deliberately tabled a non-contentious motion that all Members could feel free to support. It is for the other parties to justify their opposition. We cannot, in all conscience, support this amendment and we call on all Members who share our views to join us to defeat it.

Prif Weinidog Cymru: Cynigiaf welliant 1 yn enwau Andrew Davies, Peter Black a William Graham. Rhodder coma yn lle'r atalnod llawn ac ychwaneger:

ac yn cefnogi'r camau y mae Llywodraeth y DU yn eu cymryd i gefnogi'r gynghrair fyd-eang yn erbyn terfysgaeth.

It is important that the Assembly is conscious of the burden of maturity, responsibility and expectation that falls on all of us. There is an extraordinary degree of interest in this debate, paradoxically in some ways, given

A yw ein gwrthwynebiad i'r bomio'n golygu na ellir cyfiawnhau camau milwrol o dan unrhyw amgylchiadau? Wrth gwrs nad yw. Nid ydym am gelu ein beirniadaeth o rwydwaith terfysgol Al-Qaeda a'r gweithredoedd erchyll a welwyd yn yr Unol Daleithiau rhag neb. Yr ydym wedi derbyn y gallai gweithredu milwrol fod yn rhan o'r ymateb i'r erchyllderau hynny. Fodd bynnag, rhaid i'r Cenhedloedd Unedig gydsynio â gweithredu milwrol ar y ddaear a rhaid cynllunio hynny i gosbi'r terfysgwyr ac i ddatgymalu rhwydwaith Al-Qaeda.

Trof at y gwelliant. Ni fyddai gennym broblem gyda datganiad cyffredinol sy'n mynegi cefnogaeth gyffredinol, mewn egwyddor, i'r ymgyrch yn erbyn terfysgaeth. O ddewis rhwng y cynghrair ryngwladol a'r angen i ddinistrio terfysgaeth, Osama Bin Laden a rhwydwaith Al-Qaeda, nid oes angen gofyn ar ba ochr yr ydym. Fodd bynnag, mae gwelliant 1 yn mynd ymhellach na hynny. Mae'n mynegi cefnogaeth i'r camau a gymerwyd eisoes, sy'n cynnwys y pythefnos diwethaf o fomio didrugaredd. Pe baem yn cefnogi'r gwelliant hwn, byddai wedi golygu bod ein gwrthwynebiad i'r bomio'n gwbl ddbwrpas. Byddai hefyd yn rhagrith llwyr ar ein rhan. Cyflwynasom gynig annadleuol yn fwriadol er mwyn i'r holl Aelodau deimlo y gallant ei gefnogi. Mater i'r pleidiau eraill yw cyfiawnhau eu gwrthwynebiad. Ni allwn, yn gydwytbodol, gefnogi'r gwelliant hwn a gofynnwn i'r holl Aelodau hynny sydd o'r un farn â ni ymuno â ni i'w drechu.

The First Minister: I propose amendment 1 in the names of Andrew Davies, Peter Black and William Graham. Replace the full stop with a comma and add:

and supports the actions taken by the UK Government in support of the world alliance against terrorism.

Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn ymwybodol o faich yr aeddfedrzydd, y cyfrifoldeb a'r disgwyliad sydd ar ysgwyddau pob un ohonom. Mae cryn ddiddordeb yn y ddadl hon, sy'n

that we do not have devolved responsibilities for security, foreign policy or defence matters. Of the matters reserved to central Government, it is crystal clear that those three are reserved and not devolved to the Assembly. Nevertheless, there is a great deal of interest in Wales as a result of the impact of disturbance to community relations that may occur, not only because of the events of 11 September, but also because of possible reprisals and events in the USA since the terrorist attacks. Therefore, it behoves all of us to think consciously of how this will be reported and perceived when the Assembly is contrasted with the House of Commons, which, with its different standing orders, has had four debates on this matter, without voting on a motion or amendments to that motion. As a result, every Member of Parliament can express their views without having to vote. This has happened in the House—with Wales's 40 MPs representing the views of the people of Wales on this matter—that has responsibility in this regard. The Assembly can consider the side-effects, by assessing what emergency preparations must be made, how to handle security matters and what might be the potential impact on the NHS, the ambulance service and so on. That work has continued apace since 11 September.

No party should point a finger at any other party this afternoon. We are discussing an event of huge international significance, namely the atrocities on 11 September and the reaction of the alliance against terrorism. The USA and the UK are at the core of the alliance, with other countries signing up to different degrees. It is fair to say that, in the way that the amendment has been framed, it includes all three aspects of the world's response to the terrorist atrocities. It is military, humanitarian and diplomatic and political.

The latter aspect means thinking about what kind of society can be reconstructed in Afghanistan after what we assume will be the collapse of the Taleban regime. We do not know how or when that will occur. Everybody has given a great deal of thought to a post-Taleban Afghanistan without a residue of bitterness that will form the

baradocsaidd i raddau, o ystyried nad oes gennym gyfrifoldebau datganoledig dros faterion diogelwch, polisi tramor nac amddiffyn. O'r materion hynny y mae'r Llywodraeth ganolog yn gyfrifol amdanynt, mae'n gwbl amlwg bod y tri hynny yn rhai nad ydynt wedi'u datganoli i'r Cynulliad. Serch hynny, ceir cryn ddiddordeb yng Nghymru o ganlyniad i effaith amharu ar gysylltiadau cymunedol a allai ddigwydd, nid dim ond oherwydd digwyddiadau 11 Medi, ond hefyd oherwydd y dialedd posibl a'r digwyddiadau yn UDA ers yr ymosiadau terfysgol. Felly, mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i ystyried sut y cofnodir ac yr ystyrir hyn pan gyferbynnir y Cynulliad gyda Thŷ'r Cyffredin, sydd, gyda'i reolau sefydlog gwahanol, wedi cynnal pedair dadl ar y mater hwn, heb bleidleisio ar gynnig neu welliannau i'r cynnig hwnnw. O ganlyniad, gall pob Aelod Seneddol fynegi eu safbwyntiau heb orfod pleidleisio. Digwyddodd hynny yn y Tŷ—gyda'r 40 AS o Gymru yn cynrychioli safbwyntiau pobl Cymru ar y mater hwnnw—sydd â'r cyfrifoldeb yn hyn o beth. Gall y Cynulliad ystyried y sgîl-ffeithiau drwy asesu pa baratoadau brys sydd eu hangen, sut i ddelio â materion diogelwch a beth y gallai'r effaith fod ar yr NHS, y gwasanaeth ambiwlans ac ati. Mae'r gwaith hwn wedi parhau'n ddiymdroi ers 11 Medi.

Ni ddylai unrhyw blaid bwyntio bys at unrhyw blaid arall y prynhawn yma. Yr ydym yn trafod digwyddiad ag arwyddocâd rhyngwladol enfawr, sef yr erchyllterau ar 11 Medi ac adwaith y gynghrair yn erbyn terfysgaeth. Yr UDA a'r DU yw craidd y gynghrair, gyda gwledydd eraill yn ymrwymo eu hunain i wahanol raddau. Mae'n deg dweud, o ystyried y ffordd y cyflwynwyd y gwelliant, ei fod yn cynnwys y tair agwedd ar ymateb y byd i'r erchyllterau terfysgol. Mae'n filwrol, yn ddyngarol a diplomataidd ac yn wleidyddol.

Mae'r agwedd olaf yn ymwneud â meddwl am y math o gymdeithas y gellir ei hailadeiladu yn Afghanistan ar ôl yr hyn y tybiwn fydd yn arwain at gwmp cyfundrefn y Taleban. Ni wyddom sut na phryd y bydd hynny'n digwydd. Mae pawb wedi rhoi llawer o feddwl i Afghanistan wedi'r Taleban heb arlliw o'r chwerwder a fydd yn llunio

recruits of another generation of terrorists.

As regards the humanitarian aspect, I do not think that any one party, within or outside the Assembly, has a monopoly on concern about the window in the weather and attempts made to ensure that supplies reach Afghanistan and the refugee camps on the country's borders with Iran, Pakistan and the countries of the former Union of Soviet Socialist Republics. There will be a huge humanitarian crisis. There was one already and it will worsen. There is a particular problem, given the inclement weather that will afflict that part of the world before too long. We must ensure that the aid is deliverable inside and outside Afghanistan's borders. That is a huge concern for everybody in this Assembly and in Wales for the reasons that Ieuan Wyn Jones mentioned. We share those concerns about ensuring that aid is delivered. Clare Short, the Secretary of State for International Development returned today from Islamabad. She went there to carry out an on-the-spot investigation of the food delivery mechanisms and to talk to the representatives of the non-governmental and governmental organisations that are ensuring the delivery of food to refugee camps.

We, therefore, want to see a balanced approach in response to the events of 11 September. Individuals in this Assembly in all four parties will place different degrees of emphasis on the humanitarian or military side as well as concern about the political redevelopment and reconstruction of Afghanistan. We must all respect each other's views. We have been looking for the right vehicle by which everybody can express their wide variety of views, as they have done in the House of Commons. If we must change our Standing Orders to make that easier in future, I am sure that there will be general cross-party support for that. We have faced an obstacle that the public will find difficult to understand. The House of Commons can debate more freely without agonising as we have done. We must try to put that right.

On behalf of the Labour Party, I say that we are preparing for the impact of this crisis on us. We have tried to work on a cross-party

cenhedlaeth arall o derfysgwyr.

O ran yr agwedd ddyngarol, ni chredaf fod y pryder ynglŷn â thywydd anffafriol a'r ymdrechion a wnaethpwyd i sicrhau bod y cyflenwadau yn cyrraedd Afghanistan a gwerysilloedd y ffoaduriaid ar ffiniau'r wlad ag Iran, Pacistan a gwledydd hen Undeb y Gweriniaethau Sofiet Sosialaidd yn fater i unrhyw blaid unigol, o fewn y Cynulliad neu'r tu allan iddo. Bydd argyfwng dyngarol enfawr. Yr oedd un bodoli eisoes a bydd yn gwaethygu yn awr. Mae problem benodol, o ystyried y tywydd garw a fydd yn taro'r rhan hon o'r byd cyn hir. Rhaid inni sicrhau y dosberthir y cymorth y tu mewn a thu allan i ffiniau Afghanistan. Mae hynny'n peri pryder mawr i bawb yn y Cynulliad hwn ac yng Nghymru am y rhesymau y soniodd Ieuan Wyn Jones amdanynt. Yr ydym yn rhannu'r pryderon hynny ynglŷn â sicrhau y caiff y cymorth ei ddosbarthu. Dychwelodd Clare Short, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygu Rhynglwadol o Islamabad heddiw. Aeth yno i gynnal archwiliad uniongyrchol o'r dulliau dosbarthu bwyd ac i siarad â chynrychiolwyr sefydliadau anllywodraethol a llywodraethol sy'n sicrhau bod bwyd yn cael ei ddosbarthu i wersylloedd y ffoaduriaid.

Felly, yr ydym am weld ymagwedd gytbwys yn yr ymateb i ddigwyddiadau 11 Medi. Bydd unigolion ym mhedair plaid y Cynulliad hwn yn rhoi pwyslais gwahanol ar yr agwedd ddyngarol neu'r agwedd filwrol yn ogystal â'r pryder am y gwaith o ailddatblygu ac ailadeiladu Afghanistan yn wleidyddol. Rhaid inni barchu safbwyntiau ein gilydd. Yr ydym wedi bod yn chwilio am y cyfrwng cywir er mwyn galluogi pawb i fynegi eu hamrywiaeth eang o safbwyntiau, fel y gwnaethant yn Nhŷ'r Cyffredin. Os bydd yn rhaid inni newid ein Rheolau Sefydlog er mwyn gwneud hyn yn haws yn y dyfodol, yr wyf yn siŵr y bydd cefnogaeth drawsbleidiol gyffredinol i hynny. Yr ydym wedi wynebu rhwystr y bydd y cyhoedd yn ei gael yn anodd i'w ddeall. Gall Tŷ'r Cyffredin ddadlau'n fwy rhydd heb y poen meddwl a gawsom ni. Rhaid inni geisio unioni hynny.

Ar ran y Blaid Lafur, dywedaf ein bod yn paratoi ar gyfer effaith yr argyfwng hwn arnom. Yr ydym wedi ceisio gweithio yn

basis. Ieuan, Nick and Mike will confirm that I have consulted and involved them in all the initiatives that we have taken, for example, in setting up better lines of communication with the Muslim communities and other religious and ethnic minority communities in Wales. The pressure of social exclusion is bound to arise during periods of heightened tension. It is important that all four parties are involved in the effort to reach out to people to ensure that they do not feel excluded or not fully part of Welsh society, and so that none of those ideas gain currency. We must ensure that that does not occur.

We expect to see some sort of response, leading to Osama Bin Laden being brought to justice and the Al-Qaeda network being eradicated, so that horrendous events such as those of 11 September never happen again. Any terrorist incident that has ever occurred anywhere in the world must be multiplied by about 1,000 to reach the horror that occurred on that dreadful day. The idea that there would be no response to that is clearly out of the question. Ieuan has confirmed that Plaid Cymru also agrees with that. I do not want any differences of opinion in this Assembly this afternoon. Our procedures have forced us into this position. However, we want Members to express their views, because there is no point in having a democratic Assembly, if people cannot do that.

Everybody in this Assembly believes that it is important to get the balance right between the humanitarian, diplomatic and military aspects of this and this is being sensibly discussed. There will be times when we think that an individual politician, whether American, British or some other nationality, has gone over the top in some aspect or has not put enough emphasis on another aspect with which we are concerned. That is fair enough. That is democracy at work. However, people realise that any successful attempt to bring this to a conclusion over the next few months must have regard for achieving that balance between the three different aspects. We tabled the amendment and agreed it with the other two parties to express that balance between humanitarian, diplomatic and military efforts to bring this crisis to an end.

drawsbleidiol. Bydd Ieuan, Nick a Mike yn cadarnhau imi ymgynghori â hwy a'u cynnwys yn yr holl fentrau a gyflwynwyd gennym, er enghraifft, sefydlu dulliau cyfathrebu gwell gyda'r cymunedau Moslemaidd a chymunedau crefyddol a lleiafrifoedd ethnig eraill yng Nghymru. Mae pwysau allgáu cymdeithasol yn sicr o godi yn ystod cyfnodau o dyndra cynyddol. Mae'n bwysig bod y pedair blaid yn cyfrannu i'r ymdrech i gysylltu â phobl er mwyn sicrhau nad ydynt yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu neu nad ydynt yn rhan o gymdeithas yng Nghymru, er mwyn atal y syniadau hyn rhag gwreiddio. Rhaid inni sicrhau na fydd hynny'n digwydd.

Yr ydym yn disgwyl rhyw fath o ymateb, a fydd yn arwain at gosbi Osama Bin Laden a diddymu rhwydwaith Al-Qaeda, er mwyn sicrhau na fydd digwyddiadau erchyll fel y rhai a welwyd ar 11 Medi fyth yn digwydd eto. Rhaid lluosogi pob digwyddiad terfysgol sydd erioed wedi digwydd unrhyw le yn y byd gyda thua 1,000 er mwyn adlewyrchu erchylltra'r diwrnod ofnadwy hwnnw. Rhaid diystyru'r syniad o beidio ag ymateb i hynny. Cadarnhaodd Ieuan fod Plaid Cymru hefyd yn cytuno â hynny. Nid wyf am weld unrhyw wahaniaeth barn yn y Cynulliad hwn y prynhawn yma. Mae ein gweithdrefnau wedi gorfodi'r sefyllfa hon arnom. Fodd bynnag, yr ydym am i Aelodau fynegi eu barn, oherwydd nid oes pwynt cael Cynulliad democrataidd os na all pobl wneud hynny.

Mae pawb yn y Cynulliad hwn o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yr agweddau dyngarol, diplomataidd a milwrol ac mae hyn yn cael ei drafod yn synhwyrol. Bydd adegau pan fyddwn yn credu bod gwleidydd unigol, boed yn Americanwr, Prydeiniwr neu unrhyw genedl arall, wedi mynd dros ben llestri gyda rhyw agwedd neu nad yw wedi rhoi digon o bwyslais ar agwedd arall sy'n destun pryder inni. Mae hynny'n ddigon teg. Dyna yw democratiaeth ar waith. Fodd bynnag, mae pobl yn sylweddoli y bydd yn rhaid i unrhyw ymgais i ddod â'r mater hwn i ben yn llwyddiannus yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ystyried sicrhau'r cydbwysedd hwnnw rhwng y tair agwedd wahanol. Yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliant ac wedi cytuno arno gyda'r ddwy blaid arall er mwyn sicrhau'r

cydbwysedd hwnnw rhwng yr ymdrechion dyngarol, diplomataidd a milwrol er mwyn dod â'r argyfwng hwn i ben.

Janet Davies: We all agree that the world is facing escalating violence of a sort unknown before. Wales and the rest of the world face it. We all agree that the attacks on the World Trade Center's twin towers and the Pentagon were horrifying; they stand condemned by most of the world. Our hearts went out to the families who saw their relatives killed so brutally. There must be justice.

Janet Davies: Yr ydym oll yn cytuno bod y byd yn wynebu lefelau cynyddol o drais nas gwelwyd ei fath o'r blaen. Mae Cymru a gweddill y byd yn wynebu hyn. Yr ydym oll yn cytuno bod yr ymosodiadau ar dyrau Canolfan Masnach y Byd a'r Pentagon wedi bod yn erchyll; mae'r rhan fwyaf o'r byd yn eu condemnio. Yr oedd ein calonnau'n gwaedu dros y teuluoedd a welodd eu perthnasau'n cael eu lladd mewn ffordd mor greulon. Rhaid sicrhau cyfiawnder.

3.40 p.m.

Most Assembly Members do not have the information available to the US and UK Governments. Lacking that, we cannot analyse the validity of those actions as rigorously as we would like. However, we have principles on which we can base our comments. For example, the doctrine of a just war has been established for centuries. If violent action prevents more harm than it causes, it is justified. We must ask whether that is the case in the war with the Taleban in Afghanistan. What should we try to achieve? Should we try to bring Osama Bin Laden and his followers to justice? Should we try to examine why he had the support and capability to carry out these attacks, and cut that support?

Nid oes gan y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad yr wybodaeth sydd ar gael i Lywodraethau'r UD a'r DU. Yn sgîl hynny, ni allwn ddadansoddi dilysrwydd y camau hynny mor drylwyr ag yr hoffem. Fodd bynnag, mae gennym egwyddorion y gallwn seilio ein sylwadau arnynt. Er enghraifft, mae dysgeidiaeth rhyfel cyfiawn wedi bodoli ers canrifoedd. Os bydd gweithrediadau treisgar yn atal mwy o niwed na'r hyn y mae'n ei achosi, gellir cyfiawnhau hynny. Rhaid inni ofyn ai dyma yw'r sefyllfa gyda'r rhyfel yn erbyn y Taleban yn Afghanistan. Beth ddylem geisio ei gyflawni? A ddylem geisio sicrhau y caiff Osama Bin Laden a'i ddilynwyr eu cosbi? A ddylem geisio archwilio pam bod ganddo'r gefnogaeth a'r gallu i gylfawni ymosodiadau o'r fath, a dileu'r gefnogaeth honno?

It was the US Government that originally armed the Taleban to take over from the previous communist government now represented by the Northern Alliance, which was rightly seen as an authoritarian government. Supplying arms and military training to such groups comes back to haunt the US and UK repeatedly.

Yn wreiddiol, Llywodraeth yr UD a roddodd arfau i'r Taleban oresgyn y llywodraeth gomiwnyddol flaenorol a gynrychiolir bellach gan Gynghair y Gogledd, a ystyriwyd fel llywodraeth awdurdodaidd, a hynny'n haeddiannol. Mae cyflenwi arfau a hyfforddiant milwrol i grwpiau o'r fath yn dychwelyd i boenydio'r UD a'r DU dro ar ôl tro.

Plaid Cymru—The Party of Wales supported the initial bombing strike to take out the strategic objectives. We do not support continued bombing that causes collateral damage, which entails civilian deaths and injury. Considering the just war doctrine, I am sure that nobody in the Chamber would

Yr oedd Plaid Cymru—The Party of Wales yn cefnogi'r bomio cychwynnol er mwyn diddymu'r amcanion strategol. Nid ydym yn cefnogi'r bomio parhaus sy'n achosi difrod ystlysol, sy'n golygu marwolaethau ac anafiadau sifil. O ystyried dysgeidiaeth rhyfel gyfiawn, yr wyf yn sicr na fyddai neb yn y

agree that it takes many civilian Afghan deaths to obtain justice for one death in the US. The First Minister spoke of humanitarian aid going to Afghanistan and that we all support that, but Ieuan made the point that although it is entering Afghanistan, it is not reaching those who need it.

The problem of continued bombing is that it hardens attitudes against the west, and builds stronger, wider support for Bin Laden. There is a danger that it weakens moderate Islamic regimes that could be replaced by Bin Laden lookalikes. Our Muslim communities in Wales must be in a state of fear and uncertainty. They need our support, but we cannot give it unreservedly while we continue to support the present bombing campaign of people of their religion in Afghanistan. For a new, more democratic government in Afghanistan, the support and efforts of the Islamic world are vital to work with the United Nations.

Richard Edwards: We must seriously question whether a military onslaught by the richest country on the planet on almost the poorest will rid the world of terrorism. Do you end terror by unleashing it on impoverished Afghan civilians? Oxfam estimates that 2.5 million people may starve if the bombing does not stop. We risk creating far greater injustice and stoking up more grievances for whole battalions of would-be Bin Ladens to exploit.

If we want to make the world a safer place, then we must make it a fairer place. Why can the west not cancel all third world debt, as well as iniquitous capital investment schemes such as the construction of the Ilisu dam on the upper Tigris? Why can we not mobilise the world's financial institutions into narrowing the gap between the richest and poorest countries, instead of widening it ever more? That would require a revolution in relations between the west and the third world, which our leaders, for all their self-righteous rhetoric, have not begun to address. Nor will they, as so many are in the pockets of—this is certainly true of the US President,

Siambur yn cytuno bod angen i nifer o bobl gyffredin farw yn Afghanistan i sicrhau cyfiawnder am un farwolaeth yn yr UD. Soniodd y Prif Weinidog am ddarparu cymorth dyngarol i Afghanistan a'n bod oll yn cefnogi hynny, ond fel y soniodd Ieuan, er bod y cymorth hwnnw yn cyrraedd Afghanistan, nid yw'n cyrraedd y rhai sydd ei angen.

Y broblem gyda bomio parhaus yw ei fod yn dwysáu'r ymagweddau yn erbyn y gorllewin, ac yn cryfhau ac yn ehangu'r gefnogaeth i Bin Laden. Mae perygl y gallai cyfundrefnau Islamaidd cymedrol gael eu disodli gan bobl debyg i Bin Laden. Rhaid bod ein cymunedau Moslemaidd yng Nghymru yn byw mewn ofn ac ansicrwydd. Mae angen ein cymorth arnynt, ond ni allwn ei roi yn ddiamod tra byddwn yn parhau i gefnogi'r ymgyrch fomio bresennol yn erbyn pobl o'r un crefydd â hwy yn Afghanistan. Er mwyn sicrhau llywodraeth newydd a mwy democrataidd yn Afghanistan, mae cymorth ac ymdrechion y byd Islamaidd yn hollbwysig i'r gwaith gyda'r Cenhedloedd Unedig.

Richard Edwards: Rhaid inni ofyn o ddifrif a fydd yr ymsodiad milwrol gan y wlad gyfoethocaf ar y blaned ar un o'r gwledydd tlotaf yn cael gwared ar derfysgaeth yn y byd. A ydych yn dod â'r arswyd i ben drwy ei ollwng ar ddinasyddion tlawd Afghanistan? Mae Oxfam yn rhagweld y gallai 2.5 miliwn o bobl farw o newyn os na ddaw'r bomio i ben. Yr ydym yn wynebu'r perygl o greu llawer mwy o anghyfiawnder ac ysgogi mwy o gyhuddiadau y gallai byddinoedd cyfan o ddarpar Bin Ladens fanteisio arnynt.

Os ydym am wneud y byd yn lle mwy diogel, rhaid inni ei wneud yn lle tecach. Pam na all y gorllewin ddiddymu dyled y trydydd byd, yn ogystal â chynlluniau buddsoddi cyfalaf anghyfiawn fel y gwaith o adeiladu argae Ilisu ar ran uchaf afon Tigris? Pam na allwn ysgogi sefydliadau ariannol y byd i leihau'r bwlch rhwng y gwledydd cyfoethocaf a'r rhai tlotaf, yn hytrach na'i ehangu ymhellach? Byddai hynny'n gofyn am chwyldro yn y cysylltiadau rhwng y gorllewin a'r trydydd byd, nad yw ein harweinwyr, oherwydd eu rhethreg hunan-gyfiawn, wedi dechrau ei drafod eto. Ac ni wnânt hynny, am fod cymaint ohonynt ym mhocedi corfforaethau

who is practically owned by them—multinational corporations, which profit from third world exploitation.

A former US President once famously said that we are the target of terrorists because we practise freedom, democracy and human rights. The unpalatable truth is that we are targeted by terrorists because our governments deny freedom, democracy and human rights to people in the third world, whose resources are coveted by our multinational corporations, and where poverty, injustice and repression provide fertile ground for hatred and fanaticism.

It is time to acknowledge that, in much of the world, we stand for dictatorship, bondage and human exploitation. US Government agents have deposed popularly elected leaders, who, not unreasonably, wanted the riches of their land to be shared by the people who worked it, and replaced them with murderous tyrants, willing to sell their own people to multinational corporations.

Classicists will tell you that ancient Athens gave the world democracy. They sometimes forget to add that it was underpinned by endemic slavery. If we are honest, it is time that we woke up to the fact that modern western democracy is buttressed by a rotten clientele of despots and oligarchies, who fleece and brutalise their people for the benefit of western multinationals such as the oil companies.

However understandable the thirst for vengeance following the savagery of 11 September may be, retaliation will not rid us of world terrorism. If retaliation worked, the Israelis would be the world's most secure people. A massive military retaliation causing multiple deaths will only guarantee an endless supply of fresh terrorists for decades to come. Let us not pretend that revenge will deliver security.

How can the US and UK credibly claim the moral leadership in making the world a safer

amrlwladol—mae hyn yn arbennig o wir am Arlywydd yr UD, sy'n cael ei reoli ganddynt bron—sy'n elwa ar ecsbloetio'r trydydd byd.

Gan gofio dyfyniad enwog un o gyn-Arlywyddion yr UD, a ddywedodd ein bod yn darged i derfysgwyr am ein bod yn arfer rhyddid, democratiaeth a hawliau dynol. Y gwirionedd annymunol yw y cawn ein targedu gan derfysgwyr am fod ein llywodraethau'n gwadu rhyddid, democratiaeth a hawliau dynol i bobl y trydydd byd, am fod eu hadnoddau'n cael eu chwenychu gan ein corfforaethau amrlwladol, a lle mae tlodi, anghyfiawnder a gormes yn ysgogi casineb ac eithafiaeth.

Mae'n amser inni gydnabod ein bod, yn y rhan fwyaf o'r byd, yn sefyll dros unbenniaeth, caethiwed ac ecsbloetio dynoliaeth. Mae asiantau Llywodraeth yr UD wedi disodli arweinwyr etholedig poblogaidd a oedd yn dymuno, a hynny'n rhesymol, i gyfoeth eu tir gael ei rannu ymhlith y bobl sy'n gweithio arno, a phenodi gormeswyr llofruddiol yn eu lle, rhai sy'n barod i werthu eu pobl eu hunain i gwmnïau corfforaethol amrlwladol.

Byddai Clasurwyr yn dweud wrthyhch mai'r hen Athens a gyflwynodd ddemocratiaeth i weddill y byd. Maent weithiau'n anghofio ychwanegu mai caethwasiaeth endemig oedd wrth ei wraidd. Pe byddem yn onest, mae'n bryd inni wynebu'r ffaith bod democratiaeth fodern y gorllewin yn cael ei chynnal gan griw llygredig o unbeniaid ac oligarchiaethau, sy'n ysbeilio a cham-drin eu pobl er budd cwmnïau amrlwladol y gorllewin fel y cwmnïau olew.

Pa mor ddealladwy bynnag fo'r awch am ddialedd yn sgîl digwyddiadau creulon 11 Medi, ni fydd dialedd yn cael gwared ar derfysgaeth yn y byd. Petai dialedd yn gweithio, pobl Israel fyddai'r bobl fwyaf diogel yn y byd. Yr unig beth y bydd dialedd milwrol ar raddfa fawr sy'n lladd llawer o bobl yn ei sicrhau fydd cyflenwad newydd dibendraw o derfysgwyr am ddegawdau i ddod. Ni ddylem gymryd arnom y bydd dialedd yn dod â diogelwch yn ei sgîl.

Sut y gall yr UD a'r DU honni mewn difrif mai hwy sydd â'r arweinyddiaeth foisol i

place, when they are the world's two leading arms exporters? If you want to make the world a safer place, end this obscene trade in death and destruction. [*Applause.*]

The Presiding Officer: Order. I am afraid that you have run out of time, Richard.

Pauline Jarman: I remind Members that thousands of roses were planted in communities throughout the UK and Ireland last year, as part of an international planting link-up for world peace. The star of the event was a hybrid tea rose named World Peace 2000, which has beautiful, large, gold-yellow blooms and a strong scent, giving it a peaceful, yet uplifting quality. Over 10,000 roses were planted and the project organisers, Flight of the Phoenix World Peace 2000, were delighted with the response from participants.

This year there will be a second link-up on 6 November, involving more communities nation-wide. Members of the participating communities will gather at their World Peace Rosebed and hold a minute's silence for world peace. Specially prepared World Peace 2000 rose petals will be thrown over the newly-planted beds to celebrate the link-up.

Rhondda Cynon Taff County Borough Council will hold a planting ceremony at the rosebed at Ynysangharad Park in Pontypridd on 6 November, where 130 rosebushes will be planted. Given current world-wide events, this year's event is even more significant than last year's. The gesture of planting a rose in the name of world peace is a token, a wish and a desire. However, we must recognise that the aftermath of 11 September is real and has affected all our communities in many ways. Among those affected are children. Many of them are experiencing images of war for the first time. In the wake of the attacks on the US, and the subsequent air strikes against Afghanistan, headteachers report that children have been upset by images of conflict. Children as young as five are asking whether they will die.

wneud y byd yn lle mwy diogel, pan mai hwy yw prif allforwyr arfau y byd? Os ydych am wneud y byd yn lle mwy diogel, dylech ddiddymu'r fasnachu warthus hon o farwolaeth ac dinistr. [*Cymeradwyaeth.*]

Y Llywydd: Trefn. Yn anffodus, mae eich amser wedi dod i ben, Richard.

Pauline Jarman: Hoffwn atgoffa'r Aelodau i filoedd o rosynnau gael eu plannu mewn cymunedau ledled y DU ac Iwerddon y llynedd, fel rhan o'r fenter cyswllt plannu rhyngwladol er mwyn cael heddwch yn y byd. Seren y digwyddiad oedd rhosyn te croesriw o'r enw World Peace 2000, sydd â blodau aur-felyn mawr a hardd ag arogl cryf, sy'n rhoi ansawdd heddychlon ond ysbrydoledig i'r blodyn. Plannwyd dros 10,000 o rosynnau ac yr oedd trefnwyr y prosiect, Flight of the Phoenix World Peace 2000, yn fodlon iawn â'r ymateb gan gyfranogwyr.

Eleni ceir ail fenter gyswllt ar 6 Tachwedd, yn cynnwys mwy o gymunedau ledled Prydain. Bydd aelodau o'r cymunedau sy'n cymryd rhan yn ymgynnull wrth eu Gwely Rhosod Heddwch y Byd ac yn cynnal munud o dawelwch er budd heddwch yn y byd. Caiff 2000 o betalau rhosynnau Heddwch y Byd a fydd wedi'u paratoi'n arbennig eu gwasgaru dros y gwelyau â phlanhigion newydd i ddatlu'r fenter gyswllt.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnal seremoni blannu wrth y gwely rhosynnau ym Mharc Ynysangharad ym Mhontypridd ar 6 Tachwedd, lle caiff 130 o lwynni rhosynnau eu plannu. O ystyried y digwyddiadau presennol yn y byd, bydd mwy o arwyddocâd i'r digwyddiad eleni o'i gymharu â'r llynedd. Mae plannu rhosyn yn enw heddwch y byd yn symbol, yn ddymuniaid ac yn ddyhead. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod canlyniadau 11 Medi yn rhai gwirioneddol ac yn rhai sydd wedi effeithio ar bob un o'n cymunedau mewn gwahanol ffyrdd. Ymhlith y rhai yr effeithiwyd arnynt mae plant. Mae llawer ohonynt yn profi delweddau rhyfel am y tro cyntaf. Yn sgîl yr ymosodiadau ar yr UD, a'r ymosodiadau awyr dilynol yn erbyn Afghanistan, mae penaethiaid yn sôn bod plant wedi'u cynhyrfu gan ddelweddau'r

gwrthdaro. Mae plant mor ifanc â phump oed yn gofyn a fyddant farw.

I am pleased that my local authority has introduced a round-the-clock helpline, because it recognises that children and adults may suffer unusual symptoms of distress following last month's terrorist attack in America. These are unusual circumstances, and Rhondda Cynon Taff recognised that by increasing its ability to respond to people's wider needs out of working hours. It is important that this burden in Wales is not left exclusively for the local authorities to bear.

Yr wyf yn falch bod fy awdurdod lleol wedi cyflwyno llinell gymorth 24 awr, am ei fod yn cydnabod y gallai plant ac oedolion ddioddef symptomau gofid yn dilyn yr ymosodiad terfysgol y mis diwethaf yn America. Mae'r rhain yn amgylchiadau anarferol, ac mae Rhondda Cynon Taf yn cydnabod hynny drwy gynyddu ei allu i ymateb i anghenion ehangach pobl y tu allan i oriau gwaith. Mae'n bwysig na adewir i'r awdurdodau lleol yn unig ysgwyddo'r baich hwn yng Nghymru.

In England, teachers are advised to try to ensure that strongly partisan stances are avoided. If extremist groups stir up local tensions, the advice for schools is clear: special steps should be taken in cases of threatening behaviour, vandalism or graffiti. They include patrolling the main routes to schools and supervising entrances and exits. I understand that the Minister for Education and Lifelong Learning is about to make a similar announcement giving guidance on the effects of the situation on the children of Wales. I appeal to the Assembly—

Yn Lloegr, cynghorir athrawon i geisio osgoi agweddau pleidiol cryf. Os bydd grwpiau eithafol yn ysgogi tyndra lleol, mae'r cyngor i ysgolion yn glir: dylid cymryd camau arbennig mewn achosion o ymddygiad bygythiol, fandaliaeth neu graffiti. Mae'r rhain yn cynnwys goruchwylio'r prif lwybrau i ysgolion a'r mynedfeydd a'r allanfeydd. Deallaf fod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar fin gwneud cyhoeddiad tebyg gan roi arweiniad ar effeithiau'r sefyllfa ar blant Cymru. Apeliaf ar y Cynulliad—

The Presiding Officer: I am sorry, you have run out of time.

Y Llywydd: Mae'n ddrwg gennyf, mae eich amser wedi dod i ben.

David Melding: We all agree that terrorism on the vast scale that occurred on 11 September requires a condign response. We do not necessarily all agree on how to respond, but we cannot pretend that this was not an event of major international consequence, and a terribly bitter event for the victims and their families. Some of those victims were Welsh, many were British. I have stood on top of the World Trade Center. I am appalled and sickened, thinking about the events now. I am astonished that such an act was possible and was executed.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am gefnogi gwelliannau 4 a 6 ac mae'n bleser gennyf gyflwyno pob un o'r gwelliannau. Mae gwelliant 1 yn hunanesboniadol. Mae'n uchelgeisiol ac yn idealistig. Yn y pen draw, rhaid wrth nod o gael gwared â thirlenwi yn gyfan gwbl. Mae hwnnw yn darged hirdymor, ymestynnol iawn ond dylai'r Cynulliad fod yn barod i'w osod. Parhaf i ofyn am gefnogaeth i'r gwelliant hwn heddiw am na wyddom a gaiff y strategaeth lawn ei chyflwyno eto gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Pe baem wedi cael y sicrwydd hwnnw, byddwn yn tynnu'r gwelliant yn ôl yng ngoleuni sylwadau'r Gweinidog. Gan na allwn gael y sicrwydd hwnnw, rhaid inni alw am bleidlais arno.

4.40 p.m.

On amendments 2 and 3, Janet Davies will speak about incineration in more detail. It is increasingly obvious that communities across Wales, particularly in Crumlyn Burrows and Wrexham, are deeply concerned about incineration. It is untenable that the Assembly should not debate this and take a view on it. Members will note that amendment 2 does not seek to rule out all incineration forever, but to reinforce its role close to the bottom of the waste hierarchy. I look forward to hearing the comments of our new colleague, Val Lloyd, on this, and to her support for amendments 2 and 3. The residents of Swansea East who recently supported her will expect her to support them, in line with the frequent, strong and welcome anti-incineration statements that she

O ran gwelliannau 2 a 3, bydd Janet Davies yn trafod llosgi yn fanylach. Mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod cymunedau ar draws Cymru, yn arbennig yn Crumlyn Burrows a Wrecsam, yn pryderu'n fawr ynglŷn â llosgi. Ni ellir cyfiawnhau peidio â rho cyfle i'r Cynulliad gynnal dadl a llunio barn ar hyn. Noda'r Aelodau nad yw gwelliant 2 yn ceisio gwahardd llosgi am byth. Yn hytrach mae'n ceisio atgyfnerthu ei rôl yn agos at waelod yr hierarchaeth wastraff. Edrychaf ymlaen at glywed sylwadau ein cyd-Aelod newydd, Val Lloyd, ar hyn, ynghyd â'i chefnogaeth i welliannau 2 a 3. Bydd trigolion Dwyrain Abertawe a wnaeth ei chefnogi yn ddiweddar yn disgwyl iddi hi eu cefnogi hwythau, yn gyson â'r datganiadau cryf, mynych a derbyniol iawn a wnaeth yn erbyn

made during the election campaign. If Ms Lloyd is not in a position to do so, perhaps the Minister will tell us when she sums up what representations she has received from Ms Lloyd on this matter on her constituents' behalf.

It must be possible for the Minister and her colleagues in the Government of Wales, accepting everything that she has said in Committee and this afternoon, to put political pressure on Neath Port Talbot and Wrexham County Borough Councils to put the developments on hold. The Minister said that our knowledge about incineration is far from perfect. There may be unknown and unintended consequences. We will, no doubt, hear accusations during this debate that those opposing incineration in their communities are being irrational. In my experience, people are often called irrational and emotional when they present alternative evidence that makes life difficult for vested interests and the powers that be. I trust that the Minister will bear this in mind when finalising the strategy.

Amendment 4 highlights the huge scale of the problem and the shift of resources necessary to solve it. I am grateful to the Minister for giving her support to the amendment.

Amendment 5 does not address the strategy's content, but the actions needed to make its implementation possible. It is unarguable that more resources will be needed in the long term. It is clear that current primary legislation is a complex and expensive mess. As the Minister said today, we are not alone in believing that the Assembly should be responsible for landfill tax receipts and that they should be used to fund sustainable waste disposal.

Amendment 6 seeks to ensure the full integration of the waste strategy with all other Government of Wales strategies and plans. The Minister's intention on this is clear, and she repeated that today. However, there is a perception outside the Assembly that Wales is being strategied to death, and

llosgyddion yn ystod yr ymgyrch etholiadol. Os nad yw Ms Lloyd mewn sefyllfa i wneud hynny, efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym, wrth iddi gloi'r ddadl, am unrhyw sylwadau a gafodd gan Ms Lloyd ar y mater hwn ar ran ei hetholwyr.

Rhaid bod modd i'r Gweinidog a'i chyd-Aelodau yn Llywodraeth Cymru, gan dderbyn popeth a ddywedodd yn y Pwyllgor a'r prynhawn yma, roi pwysau gwleidyddol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ohirio'r datblygiadau dros dro. Dywedodd y Gweinidog nad ydym yn gwybod popeth am losgyddion o bell ffordd. Gallai fod canlyniadau anhysbys, anfwriadol. Byddwn, mae'n siŵr, yn clywed cyhuddiadau yn ystod y ddadl hon bod y rhai sy'n gwrthwynebu llosgyddion yn eu cymunedau yn bod yn afresymol. Yn fy mhrofiad i, caiff pobl eu galw'n afresymol ac yn emosiynol yn aml wrth gyflwyno tystiolaeth amgen sy'n gwneud pethau'n anodd i'r rhai â buddiant ac i'r awdurdodau. Hyderaf y bydd y Gweinidog yn cofio hyn wrth roi'r strategaeth ar ei gwedd derfynol.

Noda gwelliant 4 pa mor enfawr yw'r broblem a'r newid y bydd ei angen o ran adnoddau i'w datrys. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am gefnogi'r gwelliant.

Nid yw gwelliant 5 yn ymdrin â chynnwys y strategaeth. Yn hytrach mae'n ymdrin â'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod modd ei rhoi ar waith. Yn ddiau bydd angen mwy o adnoddau yn yr hirdymor. Mae'n amlwg bod y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn ddryswch cymhleth a chostus. Fel y dywedodd y Gweinidog heddiw, nid ni yw'r unig rai sy'n credu mai'r Cynulliad ddylai fod yn gyfrifol am y trethi tirlenwi sy'n dod i law ac y dylent gael eu defnyddio i ariannu'r gwaith o waredu gwastraff cynaliadwy.

Mae gwelliant 6 yn ceisio sicrhau y caiff y strategaeth wastraff ei hintegreiddio'n llawn â phob un o strategaethau a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru. Mae bwriad y Gweinidog o ran hynny yn eglur, ac ailadroddodd hynny heddiw. Fodd bynnag, mae pobl y tu allan i'r Cynulliad o'r farn bod

that there is little co-ordination. A clear Assembly resolution on this matter may assist in putting those concerns to rest. Again, I am grateful for the Minister's support for this amendment.

Rosemary Butler: I congratulate the Minister on presenting this report. It takes a holistic approach to waste and recycling in Wales. It addresses some thorny issues head-on, including incineration. I am particularly pleased to see that fly-tipping is addressed. That practice despoils our countryside. Tourism is a major industry in Wales and it worries me when I visit outlying parts of my constituency and see beautiful areas being despoiled. The use of the practice in urban areas also worries me.

I draw Members' attention to example 2 on page 12 of the summary of the strategy, which shows that Newport County Borough Council leads the way in kerb-side collection of recyclable materials. The service is available to 30,000 residents, and in the next two years it will be available to another 20,000. It aims to serve 55,000 residents in Newport. The council is also positively considering composting and using the landfill tax credit scheme to its fullest extent.

Given the £35 million that has been allocated for this strategy, as well as the additional amount that Edwina Hart announced last week, is there any means of finding additional resources for places such as Newport to introduce a recycling scheme for schools? An exceptional pilot scheme is currently running in Cardiff. Is there any way that the Minister could allow additional funding for that? I would not want any of the schemes already in place to be abandoned to introduce this scheme. I compliment you on this report. You said that over 100 representations were received on the strategy. I look forward to reading the views of the public in Wales on the strategy.

David Davies: Mentioning an interest in waste disposal strategy elicits from most

Cymru yn cael ei strategeiddio hyd at syrffed, ac nad oes fawr o gydlynw. Gallai penderfyniad eglur gan y Cynulliad ar y mater hwn fod yn fodd i dawelu'r pryderon hynny. Unwaith eto, yr wyf yn ddiolchgar am gefnogaeth y Gweinidog i'r gwelliant hwn.

Rosemary Butler: Llongyfarchaf y Gweinidog ar gyflwyno'r adroddiad hwn. Mae iddo ymagwedd gyfannol tuag at wastraff ac ailgylchu yng Nghymru. Mae'n mynd i'r afael â rhai materion anodd iawn, gan gynnwys llosgyddion. Yr wyf yn falch iawn o weld ei fod yn trafod gwaredu sbwriel yn anghyfreithlon. Mae'r arfer hwnnw yn difwyno cefn gwlad. Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig i Gymru ac mae'n achos pryder imi pan ymwelaf â rhannau anghysbell fy etholaeth a gweld ardaloedd hardd yn cael eu difwyno. Mae'r arfer hwn mewn ardaloedd trefol hefyd yn achos pryder imi.

Tynnaf sylw'r Aelodau at enghraifft 2 ar dudalen 12 o grynodedb y strategaeth, sy'n dangos bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd ar y blaen o ran casglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu o'r tu allan i gartrefi. Mae'r gwasanaeth ar gael i 30,000 o drigolion, ac, yn y ddwy flynedd nesaf, bydd ar gael i 20,000 o drigolion ychwanegol. Mae'n anelu at wasanaethu 55,000 o drigolion Casnewydd. Mae'r cyngor hefyd yn ystyried compostio a defnyddio'r cynllun credyd treth tirlenwi i'r eithaf.

O gofio bod £35 miliwn wedi'i ddyrannu i'r strategaeth hon, ar ben y swm ychwanegol a gyhoeddwyd gan Edwina Hart yr wythnos diwethaf, a oes modd dod o hyd i adnoddau ychwanegol er mwyn i leoedd megis Casnewydd gael cyflwyno cynllun ailgylchu mewn ysgolion? Cynhelir cynllun peilot eithriadol yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. A oes modd i'r Gweinidog roi arian ychwanegol ar gyfer hynny? Nid wyf am i unrhyw un o'r cynlluniau sydd ar waith eisoes gael ei ddiddymu er mwyn cyflwyno'r cynllun hwn. Fe'ch canmolaf am yr adroddiad hwn. Dywedasoeh ichi gael dros 100 o sylwadau ar y strategaeth. Edrychaf ymlaen at ddarllen barn pobl Cymru ar y strategaeth.

David Davies: Mae sôn am ddiddordeb mewn strategaeth gwaredu gwastraff yn

people a similar response to mentioning an interest in train-spotting. It can be anything from a wry smile to a slight concern for one's mental wellbeing. We put our bins out on a given evening and the following morning they have vanished. Seldom do we consider where they go or how they are dealt with.

I must admit that that was my attitude before becoming a member of the Environment, Planning and Transport Committee. I suspect that I am typical. It has become increasingly apparent that we have a huge problem. Year after year, we produce more waste—a product of our growing economy, as the Minister mentioned—but our methods of dealing with waste have not kept pace with our ability to produce it. It is high time that we address that. The consultation document is a tentative step towards finding solutions for a serious problem.

Over the past month, and with good reason, we have seen political parties willing to work more closely with each other on matters where there is common cause. The day after the tragedy in America, I flew to Vienna to discover how Austria has managed to achieve one of the highest percentages of waste recycling in the world. Perhaps because of the timing, I returned with the view that less point scoring and more co-operation is needed on this issue.

The Minister came to see all the party spokesmen and asked each of us not to amend the motion, as we are facing legal sanctions from the European Union. I have already mentioned my views on that. The motion is uncontroversial, so I was happy to agree not to amend it.

Time does not permit me to deal with each amendment, but the first four amendments bring me back to the point I made about adopting a responsible approach. Amendments 1 to 4 seem to convey the message that we should have no landfill or incineration. I understand the concerns about

ennyn ymateb ymhlith y rhan fwyaf o bobl sydd yn debyg i'r ymateb a geir wrth sôn am ddi-ddordeb mewn gwyllo trenau. Gall yr ymateb amrywio o ryw fingamu i bryder a ydych yn eich iawn bwyll. Rhown ein biniau ar y palmant ar noson benodol ac erbyn y bore canlynol maent wedi diflannu. Anfynych yr ystyriwn i ble y maent yn mynd neu sut yr ymdrinnir â hwy.

Rhaid imi gyfaddef mai felly yr oeddwn innau'n meddwl cyn dod yn aelod o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Credaf nad wyf yn eithriad yn hynny o beth. Mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod gennym broblem enfawr. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, yr ydym yn cynhyrchu mwy o wastraff—ffrwyth ein heconomi gynyddol, fel y soniodd y Gweinidog—ond nid yw ein dulliau o ymdrin â gwastraff wedi datblygu yr un mor gyflym â'n gallu i'w gynhyrchu. Mae'n hen bryd inni fynd i'r afael â hynny. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn gam bach tuag at ddod o hyd i atebion i broblem ddifrifol.

Yn ystod y mis diwethaf, yr ydym wedi gweld parodrwydd pleidiau gwleidyddol i gydweithio'n agosach ar faterion sydd o bwys i bawb, ac nid yw hynny'n syndod. Y diwrnod ar ôl y drychineb yn America, hedfanais i Fienna i gael gwybod sut y mae Awstria wedi llwyddo i fod yn un o'r gwledydd mwyaf llwyddiannus yn y byd ym maes ailgylchu gwastraff. Oherwydd yr amseriad o bosibl, dychwelais gan feddwl bod angen llai o gecru a mwy o gydweithredu ar y mater hwn.

Cysylltodd y Gweinidog â phob un o lefarwyr y pleidiau gan ofyn inni beidio â diwygio'r cynnig, gan ein bod yn wynebu sancsiynau'r Undeb Ewropeaidd. Yr wyf eisoes wedi nodi fy marn i ar hynny. Nid yw'r cynnig yn un dadleuol, felly yr oeddwn yn fwy na pharod i gytuno i beidio â'i ddiwygio.

Nid oes digon o amser imi drafod pob gwelliant, ond mae'r pedwar gwelliant cyntaf yn cysylltu â'r pwynt a wneuthum ynglŷn ag ymddwyn yn gyfrifol. Ymddengys fod gwelliannu 1 i 4 yn cyfleu'r neges na ddylem byth dirlenwi neu losgi gwastraff. Deallaf y pryderon ynghylch y ddau ddull hwn—

both—I hear members of Plaid Cymru agreeing with that—and if I read an amendment stating, or if I heard Helen Mary saying, ‘we urge the Cabinet to abandon landfill and incineration and adopt X as a means of disposing of waste instead’, I would be happy to consider it, as would everybody else. The trouble is that there is no X, because no country in the world has created a system of waste disposal that does not include some reliance on landfill or incineration, or both.

We can seek solutions such as recycling vegetable waste or composting food and fruit peel as they do on the Isle of Wight. We can recycle paper, metal, glass and some types of plastic. However, there are problems with all of these, such as the rapidly varying price structures of glass and paper, and the practical problems of sorting plastics and glass. Three types of plastic can be recycled and few people can distinguish between them. There is much more that we can do, and I thought that Rosemary Butler’s suggestion was positive, and one that we should consider.

Whatever we do, there will be a huge surplus left to deal with, as there is in every other country in the world, and it is no use pretending otherwise. Unless we face up to the need for incineration or landfill, we are misleading the public.

The Nantygwyddon landfill inquiry has made it clear that filling the earth with rubbish and forgetting about it is a bad idea. Of course, there are understandable concerns about incineration, so how do we solve this conundrum? I have visited two incineration plants in the last year. I have no doubt that Plaid Cymru Members, who were speaking against incineration, have visited many more to enlighten themselves. I visited one on the Isle of Wight and one in Vienna. I visited the plant in Vienna with an open mind, albeit feeling sceptical about incineration. The plant was supported by every shade of political opinion, from a pony-tailed, sandal-wearing hippie who ran a recycling centre elsewhere, to Conservative politicians. Everybody was happy with the plant in Vienna. It is in the centre of the city and outside is a liquid

clywaf aelodau Plaid Cymru yn cyd-fynd â hynny—a phe bawn yn darllen gwelliant sy’n nodi, neu pe bawn yn clywed Helen Mary yn dweud, ‘anogwn y Cynulliad i roi’r gorau i dirlenwi a llosgi ac i fabwysiadu X fel ffordd o waredu gwastraff yn lle’r rhain, byddwn yn fwy na pharod i’w ystyried, fel pawb arall. Y broblem yw nad yw X yn bodoli, am nad yw’r un wlad yn y byd wedi creu system o waredu gwastraff nad yw’n cynnwys rhywfaint o dirlenwi neu losgi, neu’r ddau.

Gallwn geisio atebion megis ailgylchu gwastraff llysieuol neu gompostio bwyd a chroen ffrwythau fel y maent ar Ynys Wyth. Gallwn ailgylchu papur, metel, gwydr a rhai mathau o blastig. Fodd bynnag, mae problemau yn gysylltiedig â phob un o’r rhain, megis strwythurau prisio gwydr a phapur sy’n amrywio’n fawr a’r problemau ymarferol o ddi-doli plastigion a gwydr. Mae’n bosibl ailgylchu tri math o blastig ond nid oes llawer o bobl yn gallu gwahaniaethu rhyngddynt. Mae llawer mwy y gallwn ei wneud, a themlais fod awgrym Rosemary Butler yn un cadarnhaol, ac yn un y dylem ei ystyried.

Beth bynnag a wnelom, bydd cyfran enfawr o wastraff ar ôl, fel y digwydd ymhob gwlad arall yn y byd, ac nid oes diben cymryd arnom fel arall. Oni dderbyniwn fod angen llosgi neu dirlenwi, byddwn yn camarwain y cyhoedd.

Mae’n amlwg, yn sgîl yr ymchwiliad i safle tirlenwi Nantygwyddon, nad yw llenwi’r ddaear â sbwriel ac yna anghofio amdano yn syniad da. Wrth gwrs, mae pryderon dealladwy ynglŷn â llosgi, felly sut y gallwn datrys y broblem hon? Ymwelais â dau waith llosgi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae’n siŵr gennyf fod yr Aelodau o Blaid Cymru, a oedd yn siarad yn erbyn gweithfeydd llosgi, wedi ymweld â llawer mwy er mwyn dysgu amdanynt. Ymwelais â gwaith ar Ynys Wyth ac un yn Fienna. Ymwelais â gwaith yn Fienna â meddwl agored, er bod amheuan gennyf ynglŷn â llosgyddion. Cefnogwyd y gwaith hwnnw gan yr holl ystod wleidyddol, o’r hipi hirwallt, sandalog a redai ganolfan ailgylchu mewn lle arall, i wleidyddion Ceidwadol. Yr oedd pawb yn fodlon ar y gwaith llosgi yn Fienna. Fe’i lleolir yng

crystal display, which shows exactly second by second how much is emitted. There are fewer emissions from that plant than those by traffic on a busy road. The energy is used to create electricity and steam, which heats municipal buildings across the city.

nghanol y ddinas a'r tu allan iddo mae arddangosfa crisial hylifol sy'n dangos fesul eiliad faint a ollyngir. Mae'r gwaith hwnnw yn gollwng llai o nwyon nag y mae trafniadaeth ar ffordd brysur. Defnyddir yr ynni i greu trydan ac ager, sy'n gwresogi adeiladau dinesig ar draws y ddinas.

4:50 p.m.

I am not here to argue in favour of incineration. There are, of course, potential health risks and they must be eliminated. However, if incineration is carried out properly then it could form part of the solution. We cannot afford to rule it out. What I say—

Nid dadlau o blaid llosgi yw fy mwriad. Mae iddo, wrth reswm, risgiau posibl i iechyd a rhaid eu dileu. Fodd bynnag, os caiff gwastraff ei losgi'n briodol yna gellid bod yn rhan o'r ateb. Ni allwn fforddio ei ddiystyru. Yr hyn a ddywedaf—

The Deputy Presiding Officer: Order. You may continue for two sentences, but I will follow the excellent example set by the Presiding Officer earlier this afternoon and cut Members off after five minutes, without giving any warning. I have warned you.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Cewch barhau am ddwy frawddeg arall, ond dilynaf esiampl ragorol y Llywydd yn gynharach y prynhawn yma a rhoi taw ar Aelodau ar ôl pum munud, heb rybudd. Fe'ch rhybuddiwyd.

David Davies: We have a responsibility to our constituents not to increase their concerns, without carefully considering the issues. It should not be a matter of dogma. We are faced with a problem and we must find a solution to it. We should all be prepared to put aside our political differences and work together to achieve that.

David Davies: Mae cyfrifoldeb arnom i'n hetholwyr i beidio â rhoi mwy o ofid iddynt, heb ystyried y materion yn fanwl. Ni ddylai fod yn fater o ddogma. Mae gennym broblem a rhaid inni ddod o hyd i'r ateb. Dylem oll fod yn barod i roi ein gwahaniaethau gwleidyddol o'r neilltu a chydweithio i gyflawni hynny.

Andrew Davies: I want to respond to what I regard as a personal attack on me by Helen Mary Jones regarding the handling of business. I want to make Members aware of the situation. The debate on the waste strategy was scheduled to take place in last Tuesday's Plenary session. However, we had a statement from the First Minister on the international situation and, as the Presiding Officer pointed out, 25 minutes of Plenary time was taken up with points of order and procedural wrangles. That meant that we effectively lost half an hour of business. At 5.05 p.m. last Tuesday, I discussed with my colleague, Sue Essex, whether there was sufficient time to have an adequate debate, given that there were other items of business. We did not feel that there was sufficient time to give this important issue the time it merited. I therefore postponed the debate and promised to reschedule it at the earliest

Andrew Davies: Hoffwn ymateb i'r hyn a ystyriaf yn ymosodiad personol arnaf gan Helen Mary Jones ynghylch y ffordd imi ymdrin â'r busnes. Hoffwn egluro'r sefyllfa i'r Aelodau. Bwriadwyd cynnal y ddadl ar y strategaeth wastraff yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth diwethaf. Fodd bynnag, gwnaeth Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y sefyllfa ryngwladol ac, fel y nododd y Llywydd, treuliwyd 25 munud o'r Cyfarfod Llawn ar bwyntiau o drefn a chweryla ynglŷn â'r gweithdrefnau. Golygai hynny inni golli hanner awr o fusnes. Am 5.05 o'r gloch ddydd Mawrth, trafodais â'm cyd-Aelod, Sue Essex, a oedd digon o amser i gynnal dadl ddigonol o ystyried bod eitemau eraill o fusnes i'w trafod. Nid oeddem o'r farn bod digon o amser i roi'r amser yr oedd y mater pwysig hwn yn ei haeddu iddo. Felly gohiriaais y ddadl gan addo ei threfnu eto ar y cyfle cynharaf posibl. Dywedais y byddai'n

possible opportunity. I said that it would probably take place in this Thursday's Plenary session. However, there was time today and that is why I have rescheduled it for this afternoon.

I take exception to opportunistic attacks from Plaid Cymru. My colleagues in the Business Committee are also fed up with opportunistic attacks from that party, which always seeks to make political capital out of business. It wastes time in Plenary, thus putting pressure on business, and often makes it necessary to reschedule items. I always give a commitment to reschedule business when it has been necessary to postpone an item. We postponed a statement by my colleague, Jane Hutt, this afternoon to allow more time for this debate, as requested in Business Committee this morning. I stand by my word, Deputy Presiding Officer.

Geraint Davies: I declare an interest as a member of Rhondda Cynon Taff County Borough Council.

Waste management and, in particular, the hazards of landfill waste disposal have long been on the agenda in my constituency, Rhondda. It is an issue that arouses strong emotion. However, Plaid Cymru's argument today is not based on emotion, but on fact about our present waste management programme and the reality of landfill in Wales.

We presently have a 95 per cent rate of landfill disposal in Wales, with only 5 per cent of waste being recycled. Therefore, my colleagues and I welcome the adoption of this strategy as a positive way of building a cleaner and healthier Wales. However, we need to go further. We need to turn the present situation on its head. We need to set our goal: a commitment to achieve zero landfill. The social, economic, environmental and health problems associated with landfill are well-documented and numerous. For example, all sites produce methane and contribute to the greenhouse effect. The combination of chemical and biodegradable materials decomposes and produces a corrosive leachate that eats through any linings that may be present, leading to

digwydd yn y Cyfarfod Llawn ddydd Iau yr wythnos hon fwy na thebyg. Fodd bynnag, yr oedd amser heddiw, a dyna pam fy mod wedi ei haildrefnu ar gyfer y prynhawn yma.

Mae ymosodiadau oportiwistaidd Plaid Cymru yn fy nigio. Mae fy nghyd-Aelodau yn y Pwyllgor Busnes hefyd wedi diflasu ar ymosodiadau oportiwistaidd gan y blaid honno, sydd bob amser yn defnyddio'r busnes i geisio bachu ar fantais wleidyddol. Mae'n gwastraffu amser mewn Cyfarfodydd Llawn, a thrwy hynny yn rhoi pwysau ar amserlen y busnes, ac yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i eitemau gael eu haildrefnu. Ymrwymaf bob amser i aildrefnu busnes pan fo raid gohirio eitem. Gohiriwyd datganiad gan fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, y prynhawn yma, er mwyn rhoi mwy o amser i'r ddadl hon, ar gais y Pwyllgor Busnes y bore yma. Cadwaf at fy ngair, Ddirprwy Lywydd.

Geraint Davies: Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Bu rheoli gwastraff ac, yn arbennig, peryglon gwaredu gwastraff drwy dirlenwi, yn bwnc trafod yn fy etholaeth sef Rhondda, ers tro. Mae'n bwnc sy'n cyffroi teimladau cryf. Fodd bynnag, nid yw dadl Plaid Cymru heddiw wedi'i seilio ar emosiwn, ond y ffeithiau moel ynglŷn â'n rhaglen rheoli gwastraff bresennol a realiti tirlenwi yng Nghymru.

Ar hyn o bryd gwaredir 95 y cant o'n gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru, a dim ond 5 y cant a ailgylchir. Felly, mae fy nghyd-Aelodau a minnau'n croesawu'r strategaeth hon fel ffordd gadarnhaol o greu Cymru lanach, iachach. Fodd bynnag, mae angen inni fynd ymhellach. Mae angen inni mynddroi'r sefyllfa bresennol. Mae angen inni bennu ein nod: ymrwymo i roi'r gorau i dirlenwi yn gyfan gwbl. Mae'r problemau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig â thirlenwi yn niferus ac mae cryn dipyn o dystiolaeth yn eu cylch ar glawr. Er enghraifft, mae pob safle yn cynhyrchu methan ac yn cyfrannu at gynhesu byd-eang. Mae'r cyfuniad o ddeunyddiau cemegol a phydradwy yn pydr

contamination of surrounding soil and groundwater.

The Nantygwyddon landfill site releases hydrogen sulphide, which is a toxic gas. It is estimated that that gas will continue to be emitted for 1,000 years. Landfill is also expensive. The cost for the lifetime care of a single tonne of waste has been estimated at over £120. As around 100,000 tonnes of waste are produced every year in Rhondda Cynon Taff alone, Members can work out the figures involved.

Landfill is also a high-cost waste disposal method in terms of health. The data submitted to the investigation into the Nantygwyddon landfill site showed an increase in prescribing by general practitioners in the vicinity of the tip. Health problems range from comparatively minor yet significant problems, such as eye and throat infections and anxiety-related complaints, to more serious incidents of congenital malformations, such as gastroschisis.

Rhondda Cynon Taff County Borough Council has now adopted an innovative waste management strategy. We have set ambitious targets for recycling and composting and, so far, the figures speak for themselves. After only a few months, we have an above average recycling rate of 6.6 per cent, and we have set a challenging target of 15 per cent for 2003-04. There are also knock-on economic benefits. This initiative, when fully operational, could result in up to 50 additional jobs. Rhondda Cynon Taff's strategy is based on working in partnership with the community. The only way to ensure a change is by getting everybody on board and by educating people to change their attitudes, so that waste is perceived as a resource, not a problem. Our aim in Rhondda Cynon Taff is to rid ourselves of the Nantygwyddon tip. The long-term environmental, economic and health costs of not doing so are too great.

ac yn cynhyrchu trwytholch cyrydol sy'n cyrydu unrhyw leiniau a all fod yn bresennol, gan arwain at halogi'r pridd a'r dŵr daear.

Mae safle tirlenwi Nantygwyddon yn rhyddhau sylffad hydrogen, sy'n nwy gwenwynig. Amcangyfrifir y bydd y nwy yn parhau i ollwng am 1,000 o flynyddoedd. Mae tirlenwi yn gostus hefyd. Amcangyfrifir ei bod yn costio dros £120 i ofalu am un dunnell fetrig o wastraff dros ei hoes. Gan fod Rhondda Cynon Taf ei hun yn cynhyrchu tua 100,000 o dunelli metrig o wastraff bob blwyddyn, gall yr Aelodau gyfrifo'r symiau sydd dan sylw.

Mae tirlenwi hefyd yn ddull gwaredu gwastraff costus o ran iechyd. Dangosodd y data a gyflwynwyd i'r ymchwiliad i safle tirlenwi Nantygwyddon fod rhagnodi gan feddygon teulu wedi cynyddu yng nghyffiniau'r domen. Mae problemau iechyd yn amrywio o fân anhwylderau—ond nid anhwylderau dibwys—megis haint i'r llygad neu'r gwddf a salwch sy'n ymwneud â gofid, i achosion mwy difrifol o gamffurfiad cynhwynol, megis gastroschisis.

Erbyn hyn mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi mabwysiadu strategaeth arloesol ar gyfer rheoli gwastraff. Yr ydym wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer ailgylchu a chompostio a, hyd yma, mae'r ffigurau yn addawol. Ar ôl ychydig o fisoedd yn unig, yr ydym yn ailgylchu 6.6 y cant o wastraff, sy'n uwch na'r cyffredin, ac yr ydym wedi gosod targed o 15 y cant ar gyfer 2003-04. Daw manteision economaidd yn sgîl hyn hefyd. Gallai'r fenter hon, pan fydd yn llawn weithredol, greu hyd at 50 o swyddi ychwanegol. Mae strategaeth Rhondda Cynon Taf wedi'i seilio ar weithio mewn partneriaeth â'r gymuned. Yr unig ffordd i sicrhau newid yw cynnwys pawb ac addysgu pobl i newid eu ffordd o feddwl, fel y bo gwastraff yn cael ei ystyried yn adnodd, yn hytrach na phroblem. Ein nod yn Rhondda Cynon Taf yw cael gwared â thomen Nantygwyddon. Mae'r costau o ran yr amgylchedd, yr economi a iechyd yn yr hirdymor o beidio â gwneud hynny yn rhy uchel.

The same overwhelming arguments apply to the principle of making the whole of Wales a landfill-free zone. I ask Members to support amendment 1, thus committing the Assembly to support this principle and set a target of zero landfill for Wales.

Val Lloyd: I welcome the overarching principles outlined in the waste strategy. All reasonable, rational and genuinely concerned people can accept the thrust of the principles. The resultant policy aims are also welcome, as they promote sustainable development. I am pleased with the two-pronged approach of encouragement for business to consider the economic advantages and an emphasis on individuals taking responsibility for their actions as regards waste management.

I have learnt much from my constituents, who have engaged themselves in the local proposals for incineration, or disposal by burning, as it is referred to in the strategy. The residents are concerned about their environment and that of the next generation.

I have gained several important points from my discussions with my constituents. First, the need for sound and independent regulatory practices. Secondly, the potential health effects must be fully investigated, both overall and with regard to individual sites.

David Lloyd *rose—*

Val Lloyd: I will not take an intervention as I have important points to make. Thirdly, all environmental risk and health assessments should be included in the consultation process. With those three caveats, which should apply to all disposal methods and all resultant by-products, I support the strategy.

I must respond to a previous speaker, who imputed my motives. I state publicly, as I have always done, that, during the recent election campaign, I focused on the need for environmental and health safeguards. I have reiterated that need today.

Mae'r un dadleuon digamsyniol yn berthnasol i'r egwyddor o roi'r gorau i dirlenwi ymhob rhan o Gymru. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi gwelliant 1, a thrwy hynny ymrwymo'r Cynulliad i gefnogi'r egwyddor hon a gosod targed o roi'r gorau i dirlenwi yng Nghymru yn gyfan gwbl.

Val Lloyd: Croesawaf yr egwyddorion cyffredinol a amlinellwyd yn y strategaeth wastraff. Byddai unrhyw un rhesymol, call a chanddo wir bryder yn derbyn byrdwn yr egwyddorion. Rhaid croesawu nodau'r polisi sy'n deillio o hynny hefyd, gan eu bod yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'n dda gweld yr ymagwedd ddau ben sef annog y byd busnes i ystyried y manteision economaidd a phwyslais ar unigolion i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd o ran rheoli gwastraff.

Yr wyf wedi dysgu llawer gan fy etholwyr, sydd wedi ymddiddori yn y cynigion lleol ar gyfer llosgi, neu waredu drwy losgi, fel y cyfeiriwyd ato yn y strategaeth. Mae'r trigolion yn pryderu am eu hamgylchedd ac amgylchedd y genhedlaeth nesaf.

Mae sawl pwynt pwysig wedi dod i'r amlwg yn fy nhrafodaethau â'm hetholwyr. Yn gyntaf, yr angen am arferion rheoliadol cadarn ac annibynnol. Yn ail, bod rhaid ymchwilio i'r effeithiau posibl ar iechyd yn llawn, a hynny'n gyffredinol ac o ran safleoedd unigol.

David Lloyd *a gododd—*

Val Lloyd: Ni dderbyniaf ymyriad gan fod gennyf bwyntiau pwysig i'w gwneud. Yn drydydd, dylid cynnwys pob risg amgylcheddol ac asesiad iechyd yn y broses ymgynghorol. Gan nodi'r tri amod hwnnw y dylid eu cymhwyso i bob dull gwaredu a'r holl isgynnyrch, cefnogaf y strategaeth.

Rhaid imi ymateb i siaradwr blaenorol, a fwriodd amheuaeth ar fy nghymhellion. Nodaf yn gyhoeddus, fel y gwneuthum erioed, imi ganolbwyntio ar yr angen am gamau diogelu o ran iechyd a'r amgylchedd yn ystod yr ymgyrch etholiadol ddiweddar. Pwysleisiwyd yr angen am hynny gennyf heddiw.

Alun Cairns: It is only on rare occasions that I find myself allied to Plaid Cymru. Members may have heard me shouting support for Helen Mary Jones's contribution. I support several issues raised by Plaid Cymru. First, the timing of the debate. Andrew Davies's brief contribution to the debate sought to justify the arrangements behind the timing. No-one can deny the underhand way in which the debate was scheduled for today at the last minute. It did not give those people from Wrexham who wanted to hear this debate the opportunity to travel to the Assembly. It only gave limited opportunity for the people from Swansea who also wanted to witness the debate to travel here and make representations about their concerns to Members beforehand. This process is a scandal.

5.00 p.m.

The issue of the Crumlyn Burrows incinerator is also a scandal. This is a far cry from the Swansea East by-election, when Andrew Davies, Val Lloyd, myself and others found ourselves on the picket line opposing the establishment of an incinerator. I never thought that I would stand on a picket line, let alone stand on a picket line next to a member of the Cabinet. However, it reflected the strength of feeling against the incinerator and the process to date. I will be paying close attention to how Andrew Davies and Val Lloyd vote, particularly on amendments 2 and 3. The Assembly by-election campaign asked them to put their money where their mouths are.

My opposition to siting the plant at Crumlyn Burrows is based on two issues: first, the locality in which it is to be sited and, secondly, the health risks. At a meeting of the Institute of Welsh Affairs last night, Swansea's image was a key issue. One person mentioned the fact that, as you drive into Swansea, you will pass a refinery and then Tesco and Sainsbury's stores. That is no different from any other city in the United Kingdom. However, Swansea will be different if the Minister has her way and this strategy is passed today, because it will be the only city with an incinerator at its gateway. Driving into the second city in Wales you will be welcomed by an ex-

Alun Cairns: Yn anaml iawn y byddaf yn cefnogi Plaid Cymru. Efallai bod yr Aelodau wedi'm clywed yn gweiddi fy nghefnogaeth i gyfraniad Helen Mary Jones. Cefnogaf sawl mater a godwyd gan Plaid Cymru. Yn gyntaf, amseriad y ddadl. Ceisiodd Andrew Davies yn ei gyfraniad byr gyfiawnhau'r trefniadau y tu ôl i'r amseriad. Ni all neb wadu i'r ddadl gael ei threfnu ar gyfer heddiw yn hwyr iawn ac mewn ffordd lechwraidd. O'r herwydd ni chafodd y bobl hynny o Wrexham a oedd yn dymuno gwrandao ar y ddadl hon gyfle i deithio i'r Cynulliad. O'r braidd yr oedd modd i'r bobl o Abertawe a oedd hefyd yn dymuno gwrandao ar y ddadl deithio yma a gwneud sylwadau a chodi eu pryderon gyda'r Aelodau ymlaen llaw. Mae'r broses hon yn warthus.

Mae mater y llosgydd yn Crumlyn Burrows hefyd yn warth. Mae hon yn sefyllfa dipyn yn wahanol i isetholiad Dwyrain Abertawe, pan oedd Andrew Davies, Val Lloyd, minnau a phobl eraill yn sefyll ar y llinell biced yn gwrthwynebu'r penderfyniad i sefydlu llosgydd. Ni feddyliais erioed y byddwn yn sefyll ar linell biced, heb sôn am linell biced y drws nesaf i aelod o'r Cabinet. Fodd bynnag, adlewyrchai hynny y teimladau cryf yn erbyn y llosgydd a'r broses hyd yma. Cadwaf lygad barcud ar sut y mae Andrew Davies a Val Lloyd yn pleidleisio, yn arbennig ar welliannau 2 a 3. Gofynnodd ymgyrch isetholiad y Cynulliad iddynt roi eu harian ar eu gair.

Yr wyf yn gwrthwynebu'r cynnig i sefydlu gwaith ar safle Crumlyn Burrows am ddau reswm: yn gyntaf, yr ardal lle y bwriedir sefydlu'r gwaith ac, yn ail, y risgiau i iechyd. Yng nghyfarfod y Sefydliad Materion Cymreig neithiwr, crybwyllwyd delwedd Abertawe, fel mater allweddol. Cyfeiriodd un person at y ffaith eich bod, wrth yrru i mewn i Abertawe yn mynd heibio i burfa ac yna siopau Tesco a Sainsbury. Nid yw hynny'n wahanol i unrhyw ddinas arall yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, fe fydd Abertawe yn wahanol os bydd y Gweinidog yn llwyddo ac os caiff y strategaeth hon ei chymeradwyo heddiw, am mai Abertawe fydd yr unig ddinas â llosgydd wrth ddod i mewn iddi.

refinery on one side and an incinerator on the other. What sort of message does that send to a potential inward investor who is considering spending money to generate opportunities and create wealth in Swansea?

Secondly, the health risks. Incinerators have certain design specifications and requirements. However, it is rare to see an incinerator performing to those specifications. When more frequent tests were carried out on incinerators across Europe, results often showed that they performed 30 to 50 per cent over the allowed limit. There is a long history of industrial pollution around the Crumlyn Burrows site, and the dioxin levels in the area are already above the national average. These factors must be taken into consideration. Dioxins are not the only emissions. Ultra fine particles must also be considered, as some people believe that they pose greater risks than PM10s. However, there is no requirement in the existing proposals to monitor ultra fine particles.

In closing, I will refer briefly to the process. Neath Port Talbot County Borough Council has decided to pursue the Crumlyn Burrows proposal, which is sited on the local authority's border. Bridgend County Borough Council supports the proposal and, no doubt, the City and County of Swansea will also play a part in the incineration of waste at this plant in years to come. Swansea council is opposing the proposal at present, but, mark my words, it will use the incinerator in future.

The whole purpose of devolution is to bring decision making closer to the people. The Assembly should reflect the demands and needs of people from all localities. However, when the Minister was challenged—

The Deputy Presiding Officer: Order. Your time has come to an end, Alun, and your microphone has been switched off. No-one can hear what you are saying and it will not be recorded as it is an abuse of proceedings.

Karen Sinclair: I welcome the consultation on this document. It gives everyone in Wales

Wrth yrru i mewn i ail ddinas Cymru, byddwch yn gweld hen burfa ar y naill ochr a llosgydd ar y llall. Pa fath o neges fydd honno i ddarpar fewnfuddsoddwr sy'n ystyried gwario arian i greu cyfleoedd a chyfoeth yn Abertawe?

Yn ail, y risgiau i iechyd. Mae gan losgyddion fanylebau a gofynion penodol o ran cynllun. Fodd bynnag, go brin y mae llosgydd yn cyflawni'r gofynion hynny. Pan gynhaliwyd profion ar losgyddion yn fwy mynych ar draws Ewrop, yn aml dangosodd y canlyniadau eu bod yn perfformio 30 i 50 y cant yn uwch na'r terfyn a ganiateir. Bu cryn halogi diwydiannol o amgylch safle Crumlyn Burrows, ac mae'r lefelau o ddeuocsin yn yr ardal eisoes yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Rhaid ystyried y ffactorau hyn. Nid deuocsinau yw'r unig beth a ollyngir. Rhaid ystyried gronynnau mân iawn hefyd, gan fod rhai o'r farn eu bod yn dwyn mwy o risg na PM10. Fodd bynnag, o dan y cynigion presennol ni fydd yn ofynnol monitro'r gronynnau mân iawn.

I gloi, cyfeiriai fyfyr at y broses. Penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ddatblygu'r cynnig ar gyfer Crumlyn Burrows, sydd ar ffin yr awdurdod lleol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi'r cynnig ac, yn ddiaw, bydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe hefyd yn chwarae rhan yn y broses o losgi gwastraff yn y gwaith hwn yn y dyfodol. Mae cyngor Abertawe hefyd yn gwrthwynebu'r cynnig ar hyn o bryd, ond, cofiwch chi, bydd yn defnyddio'r llosgydd yn y dyfodol.

Diben datganoli yw sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud yn nes at y bobl. Dylai'r Cynulliad adlewyrchu gofynion ac anghenion pobl o bob ardal. Fodd bynnag, pan heriwyd y Gweinidog—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae eich amser wedi dod i ben, Alun, ac yr wyf wedi diffodd eich microffon. Ni all neb eich clywed ac ni chaiff eich geiriau eu cofnodi gan eich bod wedi mynd yn groes i'r trafodion.

Karen Sinclair: Croesawaf yr ymgynghoriad ar y ddogfen hon. Rhydd gyfle i bawb yng

the opportunity to participate fully in the debate. The debate is particularly vigorous in my constituency at present, as there are landfill sites in the area. The local authority is presently exploring alternatives to those sites, as it must do. Incineration is part of that discussion.

The health and environmental effects of all forms of disposal must be fully explored. Since we are nowhere near achieving the ideal of zero waste, we must accept that there is no risk-free method of waste disposal. I agree with the principle of a waste hierarchy, whereby waste management techniques are prioritised in order of their environmental impact. It is obvious that we should do our utmost to prevent waste production. When that is not possible, we should reduce waste production to the absolute minimum. Recycling and reuse of raw materials is essential. However, none of these goals can be achieved overnight. Increased recycling is imperative. I am sure that most of you remember collecting pop bottles. We did that for the money. We must make recycling pay, whether we use a carrot or a stick.

It is imperative that we encourage reduced packaging. Sadly, our regression over the years to a packaging-obsessed society, where our meals are wrapped in an advert and food is treated and sealed to lengthen its shelf-life, is viewed as progress. This so-called progress has come at a price. Between 1996 and 1999, waste production in Wales increased by about 6 per cent a year. In 1999, Wales produced 1.56 million tonnes of waste. It is shameful that 95 per cent of this waste is landfilled, leaving only 5 per cent to be recycled. We cannot continue to landfill at the current rate. If we do not seriously reduce landfill in Wales, we will face a drastic shortage in capacity within the next 10 years. Landfill also has far more serious implications than running out of space.

However, when we have minimised, reduced and recycled as much as we can, there will

Nghymru gymryd rhan lawn yn y ddadl. Mae'r ddadl yn arbennig o frwd yn fy etholaeth i ar hyn o bryd gan fod safleoedd tirlenwi yn yr ardal. Mae'r awdurdod lleol yn ymchwilio i safleoedd amgen ar hyn o bryd, fel sy'n ofynnol. Mae llosgi yn rhan o'r drafodaeth honno.

Rhaid ymchwilio i'r holl effeithiau o ran iechyd a'r amgylchedd yn llawn. Gan ein bod ymhell o gyrraedd y sefyllfa ddefnyddol o ddim gwastraff, rhaid inni dderbyn nad oes unrhyw ddull o waredu gwastraff heb risgiau. Cytunaf ag egwyddor hierarchaeth wastraff lle y rhoddir blaenoriaeth i ddulliau rheoli gwastraff yn ôl yr effaith a gânt ar yr amgylchedd. Mae'n amlwg y dylem wneud ein gorau glas i atal gwastraff rhag cael ei gynhyrchu. Lle nad oes modd gwneud hynny, dylem leihau'r gwastraff a gynhyrchir i'r eithaf. Mae ailgylchu ac aildefnyddio deunyddiau crai yn hanfodol. Fodd bynnag, ni ellir cyflawni unrhyw un o'r nodau hyn dros nos. Mae'n hanfodol ein bod yn ailgylchu mwy. Yr wyf yn siŵr bod y rhan fwyaf ohonoch yn cofio casglu boteli pop. Gwnaethom hynny er mwyn ennill arian. Rhaid inni sicrhau bod ailgylchu yn talu, pa un a ydym yn ei ddefnyddio fel abwyd ynteu gosb.

Mae'n hanfodol inni annog llai o becynnu. Yn anffodus, ystyrir ein tuedd dros y blynyddoedd i droi'n gymdeithas lle y caiff popeth ei becynnu, lle y caiff ein prydau bwyd eu lapio mewn hysbysebion a lle y caiff bwyd ei drin a'i selio er mwyn iddo gadw am fwy o amser, yn gynnydd. Mae pris i'w dalu am y cynnydd honedig yma. Rhwng 1996 a 1999, cynyddodd y gwastraff a gynhyrchir bob blwyddyn yng Nghymru tua 6 y cant. Ym 1999, cynhyrchodd Cymru 1.56 miliwn o dunelli metrigr o wastraff. Mae'n warth ein bod yn gwaredu 95 y cant o'r gwastraff hwn drwy dirlenwi, a dim ond yn ailgylchu 5 y cant. Ni allwn barhau i dirlenwi yn ôl y graddau presennol. Os nad ydym yn lleihau tirlenwi yn sylweddol yng Nghymru, byddwn yn wynebu prinder mawr o fewn y 10 mlynedd nesaf o ran lle. Mae i dirlenwi hefyd oblygiadau llawer mwy difrifol na phrinder lle.

Fodd bynnag, ar ôl inni leihau'r gwastraff a gynhyrchir, ei gywasgu a'i ailgylchu cymaint

